# Pembrokeshire County Council
# Cyngor Sir Penfro

# Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Penfro

**Mabwysiadwyd**
Ionawr 2018

**Dr Steven Jones B.A.(Anrh), D.M.S., M.B.A., Ph.D., M.C.I.M.**
**CYFARWYDDWR DATBLYGU**

Paratowyd y Gwerthusiad Cymeriad a'r Cynllun Rheoli hwn yn dilyn ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd rhwng 12 Medi a 24 Hydref 2016 a rhwng 26 Mehefin a 7 Awst 2017. Ystyriwyd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad wrth lunio'r ddogfen ddrafft hon.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 5

Rhan 1: Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth ........ 9

1. Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth Penfro ........ 9
   1.1 Cyflwyniad ........ 9
   1.2 Cefndir ........ 10
   1.3 Ardal Gadwraeth Penfro ........ 11
   1.4 Diben a Chwmpas y Gwerthusiad ........ 11
   1.5 Methodoleg ........ 12
2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ........ 13
   2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol ........ 13
   2.2 Polisi a Chanllawiau Cynllunio Lleol ........ 14
   2.3 Strategaeth Gorfodi ........ 15
3. Diffinio Diddordeb Arbennig ........ 16
4. Asesu Diddordeb Arbennig ........ 16
   4.1 Lleoliad ........ 16
   4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol ........ 18
   4.3 Dadansoddiad Gofodol ........ 23
   4.4 Dadansoddi Cymeriad ........ 30
   Ardal Nodwedd 1: Eglwys San Mihangel a'r Rhan Ddwyreiniol ........ 30
   Ardal Nodwedd 2: Llyn y Felin a Rocky Park ........ 34
   Ardal Nodwedd 3: Ardal Llyn y Castell ........ 37
   Ardal Nodwedd 4: The Commons a Bridgend Terrace ........ 38
   Ardal Nodwedd 5: Y Castell a'r Stryd Fawr ........ 42
   4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth ........ 48
   4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth ........ 53

Nodi Materion Cadwraeth ........ 54
   4.7 Amodau cyffredinol (Dadansoddiad SWOT) ........ 54
   4.8 Materion Cadarnhaol ac Asedau ........ 57
   4.9 Materion negyddol a phroblemau ........ 58

5. Adolygiad o'r Ffiniau ac Argymhellion ........ 59
6. Crynodeb o'r Materion Dan Sylw ........ 63
7. Monitro ........ 65

Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Penfro........................66

1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth .................................................. 67

2. Cynigion Rheoli ................................................................................................ 67

3. Canllawiau polisi ac egwyddorion dylunio................................................................ 70

3.1 Egwyddorion Dylunio ......................................................................................... 70

3.2 Cyd-destun datblygiad yr ardal gadwraeth ............................................................ 71

3.3 Polisi Datblygu ac Egwyddorion Dylunio Ardal Gadwraeth .......................................... 71

3.4 Canllawiau Dylunio ar gyfer Gwella Adeiladau Presennol ............................................ 72

3.5 Polisïau ar gyfer Datblygiadau Newydd o fewn Ardaloedd Treftadaeth.......................... 78

4. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd allweddol a thir y cyhoedd ..................... 80

4.1 Dyluniad tir y cyhoedd ........................................................................................ 80

5. Argymhellion Rheoli........................................................................................... 81

Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad/rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4 ........................................................................................ 81

5.1 Rhestru Lleol yn yr Ardal Gadwraeth ..................................................................... 81

5.2 Ailasesu ffin yr Ardal Gadwraeth ......................................................................... 81

5.3 Cyfarwyddiadau Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir .................................................. 81

5.4 Monitro a Gorfodi:.............................................................................................. 82

5.5 Deall Cadwraeth ................................................................................................ 82

5.6 Anghenion Adnoddau .......................................................................................... 83

5.7 Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb..................................................................... 83

5.8 Cynaliadwyedd................................................................................................... 83

6. Rhaglen Weithredu.............................................................................................. 86

6.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth ............................................... 86

6.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ......................................................................... 86

6.3 Monitro ............................................................................................................ 87

6.4 Adolygiad Ffurfiol................................................................................................ 87

Atodiad 1 Mapiau o'r Ardal Gadwraeth .....................................88

Atodiad 2: Gwybodaeth Ddefnyddiol........................................96

# Crynodeb Gweithredol

i Paratowyd y Gwerthusiad Cymeriad hwn a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth ar y cyd er mwyn diffinio'r diddordeb arbennig yn Ardal Gadwraeth Penfro, helpu i ddiogelu a gwella ei chymeriad a chynnig sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy ynglŷn â'i dyfodol.

ii Mae rhan 1 yn nodi Gwerthusiad Cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae rhan 2 yn trafod y Cynllun Rheoli, cynigion a gweithrediadau, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

iii Bydd y ddogfen hon, sy'n cefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Benfro 2013-2021, yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer unrhyw gynllun datblygu a fabwysiedir wedi hynny, mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig ynghyd â Chanllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.

**Darperir y cyd-destun polisi ar gyfer y gwerthusiad gan**

- **Cyngor Technegol Nodyn 24** ‘Yr Amgylchedd Hanesyddol’ Mai 2017 sy’n dweud bod dynodi Ardal Gadwraeth yn sail ar gyfer polisïau wedi’u llunio i ddiogelu neu wella pob agwedd ar gymeriad neu ymddangosiad sy’n diffinio diddordeb arbennig ardal; gall hyn gynnwys y patrwm anheddau a threfniadaeth lle a ffyrdd yn ogystal ag arddull a math adeiladau, a sut y defnyddir defnyddiau a manylion.

- **Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016** – mae para 6.5.21 yn nodi y bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu, gan gynnwys hysbysebion, a fyddai'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...... Gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt.

iv Crynhoir isod y prif elfennau sy'n cyfrannu at y diddordeb arbennig yng nghymeriad Ardal Gadwraeth Penfro y mae angen eu diogelu a'u gwella.

- Hanes hir sy'n gysylltiedig â Chastell Penfro a'r dref ganoloesol unigryw
- Muriau a thyrrau'r dref
- Nodweddion naturiol y tirlun a'r gefnen galchfaen waelodol sydd wedi dylanwadu ar ffurf y dref.
- Patrwm strydoedd llinellol hanesyddol ar hyd y Stryd Fawr sy'n amlwg o hyd yn y dref fodern, heb strydoedd cefn nac ochrol.

- Adeiladau pwysig sy'n nodedig yn bensaernïol gan gynnwys Castell Penfro a'u lleoliad.
- Golygfeydd pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth, allan ohoni ac ynddi, gan gynnwys i gyfeiriad y Castell, Castell pwll, Llyn y Felin a'r Cei ac oddi yno.
- Cymysgedd amrywiol o adeiladau hanesyddol o ran arddull, math a phensaernïaeth, y mae'r mwyafrif ohonynt yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnig amrywiaeth ddiddorol o adeiladau a llinellau toeon.
- Llawer o enghreifftiau da o adeiladau a therasau cymesur a chain o oes Siôr ac oes Fictoria y mae eu nodweddion a'u lliwiau traddodiadol wedi goroesi
- Enghreifftiau da o flaenau siopau gwreiddiol a hanesyddol.
- Y dyfrffyrdd, Llynnoedd y Felin, bywyd gwyllt a mannau agored a chyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Lleiniau bwrdais a muriau canoloesol
- The Commons, gan gynnwys yr amrywiaeth o goed

## Materion Allweddol

iv Nodwyd nifer o faterion allweddol sy'n cael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn ffurfio sail i'r Cynigion Rheoli a amlinellir yn adran 7 o'r ddogfen hon a rhoddir crynodeb ohonynt isod.

***i Safleoedd ac adeiladau negyddol/niwtral***

Mae nifer o adeiladau a safleoedd 'negyddol' sy'n difrïo cymeriad arbennig a golwg yr Ardal Gadwraeth. Yn aml, prin yw'r cyfraniad y mae datblygiadau mwy modern wedi'i wneud i gymeriad yr ardal ac nid ydynt wedi'i ddiogelu na'i wella.

***ii Colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol***

Mae manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol a gollwyd wedi cael effaith andwyol ar y rhan fwyaf o'r adeiladau anrhestredig – a llawer o'r adeiladau rhestredig – yn yr ardal gadwraeth.

***iii Cynnal a chadw adeiladau a'u hatgyweirio (Adeiladau mewn Perygl)***

Mae rhai o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw ac mae angen monitro cyflwr yr adeiladau hyn a blaenoriaethu cyllid yn unol â hynny.

***iv Rheoli datblygiadau newydd***

Nid yw llawer o'r datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth.

***v Tir y cyhoedd***

Mae llawer o enghreifftiau lle mae tir y cyhoedd wedi'i gynllunio, ei

adeiladu a'i gynnal a'i gadw yn wael. Mae manylion hanesyddol gwreiddiol wedi'u cymryd ac mae'r dulliau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn eu lle yn amhriodol neu'n anaddas ar y cyfan. Mae parcio ceir ar y stryd yn yr Ardal Gadwraeth yn effeithio ar gymeriad yr ardal yn fawr.

***vi Mannau agored/gwyrdd, tirlunio a rheoli coed***

Ychydig iawn o waith tirlunio a welir ar lawer o'r strydoedd ac mewn llawer o'r gofodau yn yr Ardal Gadwraeth, os o gwbl. Er mai nodweddion trefol sydd i'r Ardal Gadwraeth yn bennaf, mae gwaith tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella llawer o'r mannau cyhoeddus a'r strydoedd drwy ychwanegu ansawdd a lliw a chynyddu bioamrywiaeth. Mae angen ystyried y gwaith o gynnal a chadw'r dyfrffyrdd a Llynnoedd y Felin.

***vii Blaenau siopau, arwyddion a hysbysebion***

Mae llawer o flaenau siopau traddodiadol wedi'u difetha gan newidiadau ansensitif neu arwyddion anaddas.

***viii Effaith traffig***

Er mai llif traffig unffordd a geir ar hyd y Stryd Fawr, mae'n cyfrannu at lif traffig prysur sy'n tynnu sylw drwy'r Ardal Gadwraeth.

**Rhan 2, Y Cynllun Rheoli** – mae'n nodi materion sy'n berthnasol i'r Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd ynghyd â Chynigion Rheoli a threfniadau gweithredu, gyda'r camau canlynol yn cael eu nodi fel rhai a ddylai gael eu rhoi ar waith yn gynnar:

**Strategaeth a Pholisi Cynllunio:**

- Cyngor Sir Penfro i fabwysiadu Gwerthusiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Penfro;

**Cynnwys y gymuned:**

- Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Briffio ar gyfer Aelodau a Swyddogion;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o waith cadwraeth;
- Datblygu gwefan Cadwraeth Cyngor Sir Penfro;
- Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth Penfro;
- Sicrhau bod Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhau Rhestr Leol ddrafft er mwyn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Rhoi Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar waith ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad
- Nodi Ardaloedd Archaeolegol Sensitif fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Llunio rhaglen ar gyfer paratoi canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraeth;
- Sicrhau bod cyfleoedd i roi mesurau gorfodi ar waith, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled Cyngor Sir Penfro;
- Hyrwyddo Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' ar y we Cadw
- Llunio briffiau datblygu safle-benodol lle y bo'n briodol.

# Rhan 1: Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth

## 1. Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth Penfro

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Roedd Ardal Gadwraeth Penfro, a ddynodwyd ar 25 Gorffennaf 1973, yn cwmpasu ardal o tua 50 hectar ac yn nodi'r diddordeb pensaernïol a hanesyddol yn nhref ganoloesol hanesyddol Penfro. Adolygwyd ffin yr Ardal Gadwraeth yn 2017 ac ymestynnwyd y ffin i gwmpasu tua 97 hectar. Mae'r Ardal Gadwraeth, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y castell, Llyn y Felin, canol y dref a The Commons, yn adlewyrchu'n agos ddatblygiad hanesyddol y dref. Mae'r Gwerthusiad Cymeriad hwn yn dadansoddi ac yn gwerthuso cymeriad yr Ardal Gadwraeth bresennol ac yn nodi newidiadau i'r ffin. O ganlyniad, mae'n argymell sut y dylid rheoli'r ardal yn y dyfodol.

1.1.2 Diffinnir Ardaloedd Cadwraeth, a ddynodwyd o dan ddarpariaethau Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel *"areas of special architectural or historic interest, the character of which it is desirable to preserve or enhance*"[1]*.*

1.1.3 Mae'r dynodiad yn gwarchod yr ardal yn ei chyfanrwydd, adeiladau / grwpiau o adeiladau, yr ardaloedd rhyngddynt a choed. Gall gwarchodaeth ychwanegol fod yn briodol drwy'r defnydd o Gyfarwyddyd[2] ar gyfer rhan o'r Ardal Gadwraeth, a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyfarwyddyd o'r fath yn dileu hawliau datblygu penodol i newid neu ymestyn adeiladau penodol, gan sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei amddiffyn ymhellach.

1.1.4 Mae'r gwerthusiad hwn yn diffinio ac yn cofnodi diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth Penfro, yn ystyried materion cyfredol a'r cyd-destun statudol a pholisi cyfredol ac yn nodi cyfleoedd i wella a darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy ynghylch ei dyfodol a chynnwys pobl leol wrth ei weithredu. Mae'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, '*to formulate and publish proposals for the preservation and enhancement*'[3] ac '*in making a decision on an application for development...... special attention shall be paid to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of that area*'[4], sy'n rhoi sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau datblygu a chynigion

[1] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[2] Gwnaed o dan Erthygl 4 o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995
[3] Adran 71 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[4] Adran 72 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

ar gyfer gwella yn Ardal Gadwraeth Penfro.

1.1.5 Darperir y cyd-destun statudol a pholisi gan y canlynol:

- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 [5]
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
- Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, 2016
- Cyngor Technegol Nodyn 24 ‘Yr Amgylchedd Hanesyddol’ Mai 2017
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016[6]
- Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Penfro 2013 – 2021.

**1.2 Cefndir**

1.2.1 Crëwyd Ardaloedd Cadwraeth gan Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967 pan benderfynwyd nad oedd rhestru adeiladau hanesyddol yn unigol yn ddigon i warchod grwpiau o adeiladau sydd, er nad ydynt wedi'u rhestru'n unigol, yn cyfrannu at gymeriad y lle cyfan a'u lleoliad. Sylweddolwyd bod y mannau rhwng adeiladau a choed hefyd yn elfennau pwysig. Penderfynwyd y byddai'r holl ardaloedd hyn yn cael eu gwarchod a'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

1.2.2 Dylai dynodi Ardal Gadwraeth gael ei ystyried fel y brif ffordd o adnabod, gwarchod a gwella hunaniaeth lleoedd sydd â chymeriad arbennig. Dylai ansawdd lle fod yn brif ystyriaeth wrth nodi Ardaloedd Cadwraeth er na ellir cael un fanyleb gyffredin ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhwystro newidiadau i adeiladau na'r ardal o'u cwmpas yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n golygu bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai sydd y tu allan i Ardal Gadwraeth ond a fyddai'n effeithio ar leoliad yr Ardal, ystyried yn benodol a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn "diogelu neu'n gwella cymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth".

1.2.3 Mae'r Ddeddf bellach wedi'i hymgorffori a'i hehangu i mewn i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 sy'n rhoi sail statudol ar gyfer rheolaeth gynllunio o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu'r ardaloedd a ddynodwyd yn rheolaidd, dynodi ardaloedd newydd os yw'n briodol ac, yn dilyn proses ddynodi, llunio a chyhoeddi cynigion diogelu a gwella, a defnyddio'u

[5] a ddisodlodd Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967

[6] Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Daeth darpariaethau ychwanegol i rym ar 31 Mai 2017. Cafodd ei deddfu er mwyn gwneud gwelliannau pwysig i systemau ar gyfer gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofnod o'r amgylchedd hanesyddol sy'n cynnwys manylion am bob ardal gadwraeth a ddynodwyd.

pwerau cynllunio ar gyfer diogelu a gwella.

1.2.4 Fel arfer, dynodir Ardal Gadwraeth ar sail asesiad manwl o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Gelwir yr asesiadau hyn yn Werthusiadau Ardal Gadwraeth.

1.2.5 Mae Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth yn bwysig ar gyfer yr awdurdod lleol, ar gyfer datblygwyr a'r cyhoedd. Gellir eu defnyddio ar y cyd â pholisïau a chanllawiau cynllunio presennol; gallant gynorthwyo gyda'r gwaith parhaus o reoli Ardaloedd Cadwraeth; ffurfio sail ar gyfer rhaglenni gwella; a darparu sail gadarn, y gellir ei hamddiffyn ar apêl, ar gyfer polisïau cynllun lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae gan Werthusiadau hefyd werth fel dogfennau addysgol a dogfennau gwybodaeth ar gyfer y gymuned leol.

## 1.3 Ardal Gadwraeth Penfro

1.3.1 Mae gan Sir Benfro (ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) 24 o Ardaloedd Cadwraeth, gydag un ohonynt ym Mhenfro. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Penfro gan hen Gyngor Sir Penfro yn 1973.

1.3.2 Nid yw Ardal Gadwraeth Penfro wedi cael ei gwarchod yn y gorffennol dan Gyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai hyn yn dileu hawliau datblygu a ganiateir sydd eisoes yn bodoli ac yn golygu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw atgyweiriadau ac estyniadau penodol, er mwyn sicrhau bod dulliau a deunyddiau adeiladu traddodiadol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn fodd o atal erydiad a cholli manylion pensaernïol hanfodol sy'n rhoi statws 'ardal o ddiddordeb arbennig' i'r Ardal Gadwraeth. Ceir rhagor o wybodaeth am y posibilrwydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn Rhan 2 (adran 4.3) o'r adroddiad hwn.

## 1.4 Diben a Chwmpas y Gwerthusiad

1.4.1 Wedi ei dynodiad yn 1973, cydnabuwyd Ardal Gadwraeth Penfro fel ardal o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr oedd angen ei diogelu a'i gwella.

1.4.2 Diben yr astudiaeth hon yw cynnal gwerthusiad o gymeriad[7] yr Ardal Gadwraeth fel rhan o raglen dreigl y Cyngor Sir o adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n disgrifio nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu dadansoddiad manwl o'i chymeriad a'i golwg, gan ddod i'r casgliad bod cyfiawnhad amlwg dros ei dynodi fel Ardal Gadwraeth.

1.4.3 Mae'r Gwerthusiad Cymeriad hwn yn cefnogi polisïau Cynllun Datblygu

[7] mae'n dilyn y canllawiau cyffredinol a nodir yn nogfen "Conservation Area Appraisals" English Heritage gynt

Lleol Sir Benfro. Rhaid ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau datblygu o fewn yr Ardal Gadwraeth ac fel cymorth i lywio ei rheolaeth yn y dyfodol.

**Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

**Gall datblygiadau anghyfreithlon arwain at gymryd camau gorfodi.**

## 1.5 Methodoleg

> ‘Arfarniad ardal gadwraeth yw’r sail ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae’n rhoi darlun manwl o’r hyn sy’n gwneud ardal yn arbennig, a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae’r arfarniad yn cynnig dealltwriaeth ar y cyd o gymeriad a phwysigrwydd, ac mae’n tynnu sylw at broblemau a photensial y gellir eu defnyddio ar gyfer cynllun rheolaeth manylach yn cael ei gefnogi gan fframwaith polisi lleol cadarn’
>
> (Cadw 2017[8])

1.5.1 Nod y Gwerthusiad Cymeriad hwn yw ailasesu'r ardal ddynodedig drwy adolygu ei ffiniau a chofnodi ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig mewn ffordd gryno, gan ganolbwyntio ar yr elfennau pwysig o gymeriad yr ardal. Bydd y gwerthusiad hwn yn ystyried yr Ardal Gadwraeth gan ddefnyddio Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru Mai 2017 fel canllaw, ynghyd â'r amcanion canlynol:

I. Amlinellu ac egluro datblygiad hanesyddol ac esblygiad yr ardal;
II. Diffinio a dadansoddi cymeriad arbennig a nodweddion diddorol yr Ardal Gadwraeth, ac o'i chwmpas, o ran ei phensaernïaeth, topograffeg, mannau agored a thirwedd a'r berthynas rhyngddynt;
III. Ar sail yr asesiad hwn, adolygu ffiniau'r Ardal Gadwraeth bresennol;
IV. Nodi cyfleoedd posibl a chynigion rheoli ar gyfer diogelu a gwella'r ardal.

[8] Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, Mai 2017 Adran 3.1

# 2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio

## 2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol

2.1.1 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Cymru a Lloegr) wedi atgyfnerthu deddfwriaeth gadwraeth gynharach.

2.1.2 Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi yn Ardaloedd Cadwraeth unrhyw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol bod ei chymeriad neu ei golwg yn cael eu diogelu neu eu gwella.

2.1.3 O dan adran 69 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd drwy baratoi a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth ac i ystyried a oes angen dynodi Ardaloedd Cadwraeth pellach. Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.

2.1.4 Dylid darllen y Gwerthusiad hwn ar y cyd â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau megis Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9 (Tachwedd 2016), a ategir gan Cyngor Technegol Nodyn 24 ‘Yr Amgylchedd Hanesyddol’ mai 2017. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyngor ar ddynodi Ardaloedd Cadwraeth ac, yn benodol, ganllawiau ar gyfer asesu eu diddordeb arbennig.

2.1.5 Cyngor Technegol Nodyn 24 ‘Yr Amgylchedd Hanesyddol’ Mai 2017 sy’n dweud bod dynodi Ardal Gadwraeth yn sail ar gyfer polisïau wedi’u llunio i ddiogelu neu wella pob agwedd ar gymeriad neu ymddangosiad sy’n diffinio diddordeb arbennig ardal; gall hyn gynnwys y patrwm anheddau a threfniadaeth lle a ffyrdd yn ogystal ag arddull a math adeiladau, a sut y defnyddir defnyddiau a manylion.

2.1.6 Nodir y cyd-destun presennol ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 sy'n rhoi arweiniad ar bolisïau lleol penodol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth lunio polisïau Ardaloedd Cadwraeth a gweithredu swyddogaethau rheoli datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth. Rhoddir sylw penodol i'r gwaith o baratoi gwerthusiadau cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a all gynorthwyo awdurdodau cynllunio i weithredu eu swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.

2.1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad, 'Rheoli Ardaloedd

Cadwraeth yng Nghymru', fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar is-ddeddfwriaeth i gefnogi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, ac mae wedi cyhoeddi dogfennau ar arfer da. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn cynnwys arweiniad ar bennu, rheoli ac adolygu Ardaloedd Cadwraeth.

2.1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (para 6.5.21) yn datgan y bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol.

2.1.9 Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Mae ‘TAN 12: Dylunio’ yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth gan ei fod yn amlinellu nifer o amcanion dylunio da, gan gynnwys yr angen am i ddatblygiad ymateb i gymeriad a chyd-destun. TAN 24 Cyhoeddwyd 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' ym mis Mai 2017 ac mae’n darparu arweiniad penodol mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth

## 2.2 Polisi a Chanllawiau Cynllunio Lleol

2.2.1 Bydd y Gwerthusiad hwn yn cryfhau polisïau drwy ddarparu rhagor o fanylion am yr elfennau arbennig sy'n rhoi cymeriad i'r Ardal Gadwraeth, ac felly'n darparu sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau datblygu o fewn Ardal Gadwraeth Penfro. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r fframwaith polisi cynllunio datblygu ehangach a gynhyrchwyd gan y Cyngor Sir.

2.2.2 O ran polisïau cynllunio lleol sy'n berthnasol i'r gwerthusiad hwn, mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer Sir Benfro ym mis Chwefror 2013 ac ynddo nodir polisïau'r Cyngor ar gyfer gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. O bwys arbennig mae'r polisïau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, gan gynnwys:

- SP 1 Datblygu Cynaliadwy
- SP 14 Trefi Hwb
- SP 16 Cefn Gwlad
- GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol
- GN.2 Dylunio Cynaliadwy
- GN.3 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol
- GN.37 Amddiffyn a Gwella Bioamrywiaeth

- GN.38 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol[9]

## 2.3 Strategaeth Gorfodi

2.3.1 O ran gweithredu'n uniongyrchol o fewn Ardal Gadwraeth, mae'r pwerau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Camau gorfodi yn erbyn datblygiad heb ei awdurdodi – hysbysiadau torri rheolau / hysbysiadau torri amodau / hysbysiadau gorfodi / hysbysiadau terfynu / a gwaharddebau;
- Cyflwyno hysbysiadau Atgyweirio, Gwaith Brys ac Adran 215[10];
- Gorchmynion Caffael Gorfodol;
- Hysbysiadau Cadwraeth Adeilad sy'n ymestyn rheolaeth Adeilad Rhestredig dros adeiladau anrhestredig dros dro;
- Adnabod a dynodi Ardaloedd Archaeolegol Sensitif fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol – dylai dynodiad o'r fath sicrhau bod materion archaeolegol posibl yn cael eu hystyried ar gam cynnar.

2.3.2 Mae'n rhaid ystyried adeiladau a safleoedd sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ond sy'n ffinio â'r ardal fel rhan o'i lleoliad, ac felly mae angen defnyddio ystyriaethau cynllunio tebyg.

---

[9] Cyfeiriwch at y Cynllun Datblygu Lleol i weld y testun llawn a chyfiawnhad rhesymegol dros Bolisïau

[10] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

# 3. Diffinio Diddordeb Arbennig

3.1 Er nad yw'n rhestr holl gynhwysfawr, daw'r gwerthusiad hwn i'r casgliad bod y diddordeb arbennig a geir yn Ardal Gadwraeth Penfro yn deillio o'r nodweddion allweddol canlynol:

- Hanes hir sy'n gysylltiedig â Chastell Penfro a'r dref ganoloesol unigryw
- Muriau a thyrrau'r dref
- Nodweddion naturiol y tirlun a'r gefnen galchfaen waelodol sydd wedi dylanwadu ar ffurf y dref unigryw
- Patrwm strydoedd llinellol hanesyddol ar hyd y Stryd Fawr sy'n amlwg o hyd yn y dref fodern, heb strydoedd cefn nac ochrol
- Adeiladau pwysig sy'n nodedig yn bensaernïol gan gynnwys Castell Penfro a'u lleoliad
- Llwybrau troed o'r Stryd Fawr ac yn Llynnoedd y Felin, The Commons, Muriau'r Dref a'r Castell
- Golygfeydd pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth, allan ohoni ac ynddi, gan gynnwys i gyfeiriad y Castell, Llyn y Felin a'r Cei ac oddi yno.
- Cymysgedd amrywiol o adeiladau hanesyddol o ran arddull, math a phensaernïaeth, y mae'r mwyafrif ohonynt yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnig amrywiaeth ddiddorol o adeiladau a llinellau toeon
- Llawer o enghreifftiau da o adeiladau a therasau cymesur a chain o oes Siôr ac oes Fictoria y mae eu nodweddion a'u lliwiau traddodiadol wedi goroesi
- Enghreifftiau da o flaenau siopau gwreiddiol a hanesyddol.
- Y dyfrffyrdd, Llynnoedd y Felin a'r Ceiau, bywyd gwyllt a mannau agored a chyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Lleiniau bwrdais a muriau canoloesol
- The Commons, gan gynnwys yr amrywiaeth o goed
- Lle Penfro mewn hanes.

# 4. Asesu Diddordeb Arbennig

## 4.1 Lleoliad

4.1.1 Lleolir tref Penfro ar hyd afon Penfro yn ne Sir Benfro yn ne-orllewin Cymru, 10 milltir i'r de o dref sirol Hwlffordd ac yn agos at Ddyfrffordd Aberdaugleddau i'r de-ddwyrain o Ddoc Penfro. Fe'i lleolir o fewn Tirwedd Hanesyddol Dyfrffordd Aberdaugleddau.

4.1.2 Lleolir canol adeiledig hanesyddol Penfro ar gefnen o galchfaen Carbonifferaidd sy'n ymestyn o Ddinbych-y-pysgod i Benfro (The Ridgeway). Ceir tystiolaeth o feddiannaeth ddynol gynnar ar hyd y gwregys hwn o dir calchfaen. Mae offer a wnaed o gerrig fflint o'r oes Fesolithig o leiaf, a ganfuwyd yn 'Wogan', ogof o dan Gastell Penfro, yn cefnogi hyn. Oherwydd lleoliad y dref, ar gilfach amddiffynnol naturiol yn

Aberdaugleddau, mae'n debygol bod anheddiad yn yr ardal cyn y Goncwest Normanaidd.

4.1.3 Mae Ardal Gadwraeth Penfro yn cwmpasu ardal o 97.54 hectar sy'n canolbwyntio ar y Castell, Llynnoedd y Felin, y Cei, canol y dref a The Commons. Mae'r Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu datblygiad hanesyddol y dref yn agos.

***Cymeriad cyffredinol a chynllun***

4.1.4 Mae'r Ardal Gadwraeth yn drefol yn bennaf o ran natur, ac mae'n cynnwys craidd hanesyddol masnachol y dref ar hyd y Stryd Fawr, sy'n ffurfio ffordd linellol sy'n ymestyn i'r dwyrain o'r castell. Fe'i nodweddir gan ffryntiad llinellol adeiledig gan fwyaf. Nid oes unrhyw strydoedd ochrol i'r de nac i'r gogledd o'r Stryd Fawr, a chaiff cerddwyr fynediad i Lyn y Felin i'r gogledd a The Commons i'r de drwy lonydd a strydoedd cefn. Mae'r Stryd Fawr yn cynnwys amrywiaeth o adeiladau o ran eu hoedran a'u harddulliau adeiladu. Mae llawer o gymeriad y dref yn deillio o berthynas y Castell ag afon Penfro, The Commons a'r Stryd Fawr. Mae eu perthynas â'i gilydd, y ffryntiad agos, maint a lliwiau'r toeon a'r amrywiaeth ynddynt, patrwm llinellol y strydoedd a'r cyfle i weld y castell o'r stryd yn creu ymdeimlad dramatig o le a chymeriad.

4.1.5 Gellir dod o hyd i ffabrig canoloesol yn y castell, Eglwys Llan-fair ac mewn rhan o Westgate Hill. Yn Westgate Hill, fel yng ngweddill y dref, mae gwaith ailddatblygu dilynol sylweddol wedi digwydd: mae lefel y ddaear wedi cael ei gostwng yn sylweddol ac mae trefniant y lloriau a'r claddgelloedd bellach yn anodd ei bennu. Yn allanol, mae llawer o gymeriad y dref yn perthyn i aildyfiant y ddeunawfed ganrif ac yn benodol i'r cyfnod pan gafodd Doc Penfro ei sefydlu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwnaeth ffyniant cynyddol y cyfnod hwn arwain at lawer o ailadeiladu ac ailfodelu adeiladau cynharach, a golwg Sioraidd hwyr gan bob un. Mewn llawer o achosion, mae'n debyg y rhoddwyd ffrynt newydd i adeiladau cynharach a chawsant eu hailfodelu â ffasadau mwy ffasiynol. Drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cadwodd traddodiad adeiladu'r dref hanfod cymeriad Sioraidd hwyr gydag amrywiadau cyfyngedig mewn arddull neu addurniad pensaernïol yn unig.

4.1.6 Ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymestynnwyd tai maestref gydag adrannau byr o deras yn cael eu hadeiladu y tu hwnt i waliau'r dref, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd ar ochr ddwyreiniol y dref, a therasau'n ehangu o ran maint a soffistigeiddrwydd yn y gogledd a'r de. [11]

4.1.7 Lleolir y Parade i'r de o'r Stryd Fawr ac mae hanner ohoni yn rhedeg yn gyfochrog â hi. Mae'n cynnwys datblygiadau modern gan gynnwys siopau manwerthu, preswylfeydd a meysydd parcio. Mae rhannau sylweddol o furiau gwreiddiol y dref wedi goroesi. Mae'r Parade yn rhedeg i'r de ac yn ymuno â Common Road, a The Commons ei hun. Mae Lower Common Park yn ardal agored yn bennaf gyda choed a nant sy'n llifo tua'r arfordir. Mae ardaloedd parcio ceir ac ardal chwarae i blant sy'n cynnig amwynderau i bobl leol a thwristiaid.

[11] Penfro: Deall Nodweddion Trefol, Cadw 2015

4.1.8 Ymhellach i'r gorllewin, mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys Bridgend Terrace, Church Terrace ac Eglwys Priordy a Ficerdy Cil-maen cyn symud drwy gaeau ac o amgylch i ran ogleddol gwrthglawdd yr afon. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys Castell Llynn, Llynn y Felin ac ardaloedd o ddatblygiadau adeiledig ar hyd ei glannau gogleddol.

***Lleoliad yn y dirwedd***

4.1.9 Mae lleoliad Penfro yn y dirwedd yn deillio o gefnen galchfaen sy'n ymledu i'r dwyrain, ac mae'n cynnwys datblygiadau adeiledig sy'n rhedeg i'r gogledd o Northgate Street lle mae Pont y Felin yn croesi afon Penfro tua'r de. O lefel yr afon, mae'r tir yn codi i'r gogledd ac, yn yr un modd, wrth ddisgyn o'r gefnen galchfaen i The Commons i'r de, mae'n codi eto ar hyd St Daniels Hill a Norgans Hill ac i mewn i gefn gwlad. I'r dwyrain, mae gwaith datblygu wedi mynd rhagddo ar hyd Station Road a Holyland Road ac ar y tir rhyngddynt.

4.1.10 Mae'r topograffi yn golygu bod y Castell a'r Stryd Fawr wedi'u lleoli ar dir uwch na'r cefn gwlad o'u hamgylch ac mae lleoliad y dref ar esgair rhwng dau ddyffryn cul wedi dylanwadu'n fawr ar ei chymeriad a'i datblygiad.

4.1.11 Yn union i'r gogledd ceir ardal o ddŵr cronedig, Llyn y Felin, ac i'r de ceir hen ardal o forfa heli sydd wedi'i draenio a'i hadennill i ffurfio man agored cyhoeddus. Mae cilfach a nant lanw afon Penfro yn amgáu pen gorllewinol yr esgair, lle y saif y Castell. Mae'r holl ardaloedd amgylchynol hyn yn gorwedd rhwng 0 a 3 metr uwchlaw marc penllanw llanw canolig. Mae afon Penfro yn llifo i'r gogledd-orllewin ac yn ymuno â phrif foryd Aberdaugleddau tua dwy filltir i ffwrdd.

**4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol**

***Llychlynwyr - 10fed Ganrif***

4.2.1 Mae tystiolaeth archaeolegol yn dangos presenoldeb dynol yn yr ardal ers cynhanes, fodd bynnag sefydlwyd anheddiad presennol Penfro gan Arnulph de Montgomery, un o'r Arglwyddi Normanaidd a ddilynodd William I yn 1066 ar ei goncwest o Loegr.Yn 1093, glaniodd Arnulph a sefydlodd flaenlaniad drwy godi castell amddiffynnol syml o bren ar safle'r castell a welir heddiw. Darostyngodd y boblogaeth leol a rhannwyd y tir rhwng dilynwyr Arnulph. Oherwydd lleoliad amddiffynnol y castell, llwyddodd i osgoi'r gwrthryfel Cymreig, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r Arglwyddi Normanaidd a'r cestyll a adeiladwyd ganddynt mewn mannau eraill.

**12fed – 17eg Ganrif**

4.2.2 Parhaodd yr anheddiad i dyfu a chynyddu mewn pwysigrwydd ac, ar ôl cwymp gwrthryfel Belleme yn erbyn Arnulph yn 1102, anfonodd Henry I warchodlu (a siedwyd


iddo'n ddiweddar) i Benfro o dan warchodaeth marchog o'r enw Saer.[12] Yn 1138, crëwyd Arglwyddiaeth Mers Penfro fel iarllaeth ac iarllaeth balatin, o dan Gilbert Fitz Gilbert, er mai ei fab, Richard de Clare, oedd yr iarll cyntaf yn ôl y sôn. Sefydlodd Harri system o reolaeth y Goron dros y rhanbarth, yn seiliedig ar yr hynny a sefydlwyd eisoes yn siroedd Lloegr. Sefydlodd siryf yn y castell a rhoddodd siarter bwrdeistref i'r dref, a roddodd elfen o hunanlywodraethu a rheolaeth ariannol iddi drwy greu marchnad (ynghyd â Dinbych-y-Pysgod, Hwlffordd a Wiston). Erbyn 1138 Penfro oedd yr anheddiad pwysicaf yn yr ardal ac yn y flwyddyn honno daeth yn sedd Iarllaeth ac yn ddiweddarach daeth yn ffocws dyletswyddau gweinyddol a busnes ar gyfer rhan ddeheuol y sir.

4.2.3 Yn 1189, priododd William Marshal ag Isabella a daeth yn Iarll Penfro (1189 – 1219). Tua diwedd y 13eg ganrif, amgaewyd y dref â muriau gan gadarnhau ei chynllun hir, cul 'heb unrhyw strydoedd croes' fel y nododd George Owen yn y cyfnod Elisabethaidd. Efallai y pennwyd y cynllun hwn a'r lleiniau bwrdais cul nodweddiadol sy'n wynebu'r un brif stryd o fewn muriau'r dref gan lwybr a fodolai eisoes ar hyd y gefnen i'r castell. Mae'n debyg bod cylch muriau'r dref yn gyflawn erbyn tua 1324 a'u diben oedd amddiffyn y dref rhag ymosodiad. Yn y pen draw, ildiwyd yr iarllaeth i'r Brenin Edward IV, a roddodd y teitl i'w fab Edward, Tywysog Cymru.

4.2.4 Parhaodd Penfro i dyfu mewn pwysigrwydd yn ystod y cyfnod Canoloesol a Thuduraidd ac, ym mis Ionawr 1457, ganed Harri Tudur yng Nghastell Penfro. Er ei bod yn dref fawr a milwrol bwysig, ni wnaeth Penfro ffynnu fel canolfan fasnachol yn ei rhinwedd ei hun. Rhwng dechrau'r ddeuddegfed ganrif a chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd twf cyson i 228 o leiniau bwrdais ond, erbyn y 15fed ganrif, roedd 20 o'r rheini wedi'u gadael ac roedd y nifer hon wedi cynyddu i 44 erbyn diwedd y ganrif honno. Roedd y lleiniau bwrdais yn diffinio perchenogaeth ac yn cael eu defnyddio fel gerddi neu i gynnwys da byw. Erbyn 1602, arweiniodd gostyngiad mewn masnach a lleihad yn incwm yr Arglwyddi, ynghyd â llai o ffyniant, at ddirywiad y dref. Arweiniodd sefydlogrwydd llinach y Tuduriaid at esgeuluso amddiffynfeydd diangen. Fodd bynnag, chwaraeodd Penfro ran amlwg yn y Rhyfel Cartref yn Sir Benfro a phan gipiodd Poyer y dref i'r Brenin, gorchmynnodd Cromwell ei hun y dylid ei rhoi dan warchae. Unwaith y disgynnodd, gorchmynnodd y dylai castell gael ei dinistrio.

4.2.5 Byddai'r dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael yn awgrymu, ar eu hanterth, nad oedd mwy na 2,000 o bobl yn byw yn nhrefi Penfro a Chil-maen yn ystod y canoloesoedd. Cafodd y Pla Du (1349) a'r Rhyfel Cartref effaith fawr ac mae'n debygol na welwyd poblogaeth o 2,000, fel y gwelwyd yn 1340, eto tan y ddeunawfed ganrif. Mae Ffurflenni Treth Aelwyd 1670 yn awgrymu bod y boblogaeth bryd hynny yn 1,800.

[12] Siedu – athrawiaeth cyfraith gwlad sy'n trosglwyddo eiddo person a fu farw heb etifeddion i'r Goron neu'r Wladwriaeth




Map of Pembroke by John Speed, 1611

## *$18^{fed}$ Ganrif*

4.2.6 Adlewyrchwyd twf mewn masnach ar ddechrau'r $18^{fed}$ ganrif yn adfywiad Penfro fel prif borthladd a thref ardal Aberdaugleddau ac roedd yn masnachu mewn gwlân, grawn, pysgod a glo. Oherwydd ei chysylltiadau morol a'i phwysigrwydd fel porthladd masnachu, tyfodd i fod yn un o drefi mwyaf a chyfoethocaf de Cymru.

4.2.7 Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuodd y gilfach lanw a welwyd ar The Commons ar un adeg sychu allan. Trodd yr ardal yn gorsiog a chafodd ei defnyddio wedyn at ddibenion diwydiannol, i gadw anifeiliaid a chan breswylwyr y dref i waredu sbwriel.


## *$19^{eg}$ a'r $20^{fed}$ Ganrif*

4.2.8 Fodd bynnag, erbyn dechrau'r $19^{eg}$ ganrif, roedd dirywiad yn amlwg unwaith eto ac yn 1813 roedd y dref i weld yn ‘destitute of the air of business’ ac yn lleoliad ‘cheap retirement for families of slender incomes’[13]. Roedd Penfro yn dref farchnad o hyd ond cafodd ei statws ergyd fawr pan ddewiswyd Hwlffordd fel y dref sirol newydd ar ddechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn 1820, roedd y ffyniant yr oedd Penfro wedi’i gyflawni drwy ei goruchafiaeth fel porthladd morol hefyd yn dechrau dirywio. Erbyn 1820, roedd y ffyniant yr oedd Penfro wedi’i gyflawni drwy ei goruchafiaeth fel porthladd morol hefyd yn dechrau dirywio. Erbyn dechrau’r 1830au, roedd y dref wedi torri’n ariannol yn ogystal ag yn wleidyddol. Newidiodd Deddf Diwygio 1832 y system etholiadol a chrëwyd etholaeth un aelod ledled nifer o fwrdeistrefi yn yr ardal.

[13] Gweler Penfro: Deall Nodweddion Trefol, Cadw 2015 am fanylion pellach a ffynhonnell.

4.2.9 Mae'r cyfrifiad cenedlaethol cyntaf, a gynhaliwyd yn 1801, yn nodi poblogaeth o tua 2,500 ar gyfer ardal debyg ar ôl cywiro'r ffigur i gyfrif am y nifer isel o ddynion oherwydd y Rhyfeloedd Napoleanaidd. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd sawl estyniad i Benfro a Chil-maen. Gerllaw, dechreuodd y gwaith o adeiladu anheddiad newydd yn Noc Penfro, tua dwy filltir i'r gogledd-orllewin o'r hen dref, mewn cysylltiad â Dociau newydd y Llynges, yn 1814 gan adfywio bywyd yn y dref yn sylweddol.

4.2.10 Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd y maestrefi yn ehangu y tu hwnt i'r terfynau canoloesol. Gwelwyd rhai aneddiadau cynharach o amgylch the Green i'r gogledd, Cil-maen i'r de-orllewin ac i'r dwyrain. Ar ôl i Reilffordd Penfro a Dinbych-y-pysgod gael ei chwblhau yn 1863, datblygwyd The Green ac ardal i'r dwyrain o'r dref ymhellach. Adeiladwyd maestref fawr newydd i'r de, Orange Gardens, a alwyd yn Orange Town yn wreiddiol, i letya gweithwyr o Ddociau'r Llynges yn Noc Penfro. Gosodwyd y strydoedd ar ffurf cynllun grid ac roedd y rhan fwyaf o'r terasau yn fythynnod bach, unllawr. Gwnaeth rhaglen adeiladu ffyrdd Thomas Telford roi cysylltiadau trafnidiaeth sylweddol i ranbarthau eraill Cymru yn ystod canol y $19^{eg}$ ganrif. Cyn hyn, roedd cysylltiadau cryfach ar y môr a helpodd i ddylanwadu ar oruchafiaeth yr iaith Saesneg.



**Trên teithwyr yn gadael Twnel Golden Hill am Ddoc Penfro tua diwedd y $19^{eg}$ Ganrif**

4.2.11 Cafodd y castell ei adfer yn rhannol yn yr 1880au, ac yna eto i safon uchel yn yr 1930au. Gwnaed newidiadau pellach at ddibenion milwrol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ers hynny, mae'r rhan fwyaf o'r malurion yn y castell a muriau'r dref wedi'u clirio ac mae'r castell a'r muriau wedi'u hadfer yn helaeth ac maent bellach yn heneb gofrestredig.

4.2.12 Datblygwyd diwydiant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr ardal o amgylch The Commons.

4.2.13 Mae ystadau tai preifat a chyngor o'r ugeinfed ganrif wedi cynyddu maint y dref yn sylweddol, ynghyd â gwaith ailddatblygu, safonau gofod newydd, teuluoedd llai o faint a'r broses o newid neu addasu hen anheddau at ddibenion eraill. Gwelwyd gwaith ehangu ychwanegol heibio i Gil-maen i’r gorllewin o’r 1960au ymlaen er mwyn darparu tai i weithwyr y diwydiant olew. Roedd yr ardal hon wedi’i chynllunio ar gyfer tai o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o leiaf, ond cafodd ei chlirio yn ystod y 1950au a’r 1960au, ac adeiladwyd ystadau tai newydd. Er bod y dref yn fach, mae'n ganolfan gwasanaethau a marchnata ar gyfer yr ardal o'i hamgylch, sy'n ardal amaethyddol yn bennaf, ac mae'n cyflenwi Doc Penfro. Mae'r dref hefyd wedi dod yn fwyfwy pwysig fel canolfan i dwristiaid mewn perthynas â thwristiaeth ar draws de-orllewin Sir Benfro.

### Archaeoleg

4.2.14

Lleolir Henebion Cofrestredig Castell Penfro a Muriau Tref Penfro o fewn yr Ardal Gadwraeth ac maent yn adlewyrchu lleoliad amddiffynnol y dref a'i phwysigrwydd yn ystod y canoloesoedd (er bod Castell Penfro yn sefyll ar safle sydd wedi cael meddiannaeth ddynol ers cynhanes, er nid yn barhaus). Mae Ogof Fferm y Priordy, a leolir yn agos at y dref, wedi darparu tystiolaeth o anheddiad dynol Mesolithig-Paleolithig (cyfnod cynnar Oes y Cerrig). Ceir siambr gladdu a safleoedd canoloesol hefyd yn yr ardal.

1. **Castell Penfro** (SM981016) Castell canoloesol
2. **Muriau Tref Penfro** (SM989014) Muriau tref canoloesol amddiffynnol
3. **Ogof Fferm y Priordy** (SM978018) Heneb/ogof gynhanesyddol uwchlaw Dyfrffordd Aberdaugleddau lle deuir o hyd i wrthrychau o'r cyfnod Mesolithig-Paleolithig
4. **Colomendy Priordy Cil-maen** (SM976017) colomendy canoloesol
5. **Gwersyll Bowett Wood** (SM972007) clostir cynhanesyddol

Yn ogystal â Henebion Cofrestredig mae 268 o asedau amgylchedd hanesyddol wedi'u cofnodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn adeiladau canoloesol neu ôl-ganoloesol a strwythurau eraill.[14]

[14] Mae Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn rhoi gwybodaeth am safleoedd a gwrthrychau unigol a chaiff ei diweddaru'n gyson. https://www.cofiadurcahcymru.org.uk/her/chi1/arch.html?county=Pembrokeshire&lang=cym

## 4.3 Dadansoddiad Gofodol

### Cymeriad a Chydberthynas Gofodau o fewn yr Ardal

#### *Llwybrau*

4.3.1. Mae hierarchaeth glir o lwybrau o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cynnwys y prif sianeli symud.

**4.3.2 Y Stryd Fawr** Caiff y rhwydwaith o ffyrdd modern ei ddylanwadu'n gryf gan gyfeiriad y Stryd Fawr i'r gorllewin-dwyrain, sy'n darparu system unffordd ar gyfer traffig i'r gorllewin a dolenni i'r de a'r gorllewin ar hyd The Commons ar hyd **Orange Way** a **Commons Road**, gan basio'r Castell yn **Westgate Hill**, gan roi llwybr cylchynol o amgylch y dref.

**4.3.3 Llwybrau Rheiddiol** Ceir nifer o lwybrau rheiddiol sy'n ymestyn o ganol hanesyddol yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys Northgate Street (A4139) sy'n rhedeg i'r gogledd tuag at Ddoc Penfro a Bridgend Terrace (B4320) sy'n rhedeg i'r de tuag at Gil-maen. Mae West Street a Thomas Street yn rhedeg i'r de i gyfeiriad maestrefi Penfro tra bod St Daniel's Hill sy'n arwain at y B4319 yn osgoi'r rhan fwyaf o ardaloedd preswyl Penfro. I'r dwyrain o'r Stryd Fawr, mae cylchfan East End yn rhoi mynediad i'r de ac i'r system unffordd, i'r dwyrain tuag at Landyfái ac i'r gogledd tuag at yr A477.

**4.3.4 Llwybrau i Gerddwyr** Mae nifer o fylchau rhwng yr adeiladau ar y Stryd Fawr sy'n rhoi mynediad i gerddwyr i Lynnoedd y Felin i'r gogledd ac sy'n ffurfio rhan o rodfa ar hyd Llynnoedd y Felin ac o amgylch y castell. Mae llwybrau i'r de o'r Stryd Fawr yn arwain cerddwyr drwy feysydd parcio ac ar hyd grisiau i lawr tuag at The Commons.

#### *Nodau*

4.3.5 Mae'r prif ofodau, mannau cyfarfod neu nodau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae safle'r hen felin rawn ar Northgate Street yn cynnig canolbwynt.
- Y Stryd Fawr ger East Back ac Eglwys San Mihangel. Mae ardal fach balmantog a mainc gerllaw lle mae'r ffyrdd yn croestorri sy'n cynnig cyfleoedd i bobl gyfarfod.
- Mae rhodfa Llyn y Felin a'r cei yn darparu mynediad i lannau'r afon, golygfeydd o'r castell ac ardaloedd cyfarfod anffurfiol.
- Mae The Commons yn cynnig nifer o fannau cyfarfod gan gynnwys adeiladau allweddol, ardaloedd chwarae a phontydd.
- Mynedfa i Neuadd y Dref ar y Stryd Fawr, gyda chanonau ar bedestalau bob ochr iddi.

4.3.6 Serch hynny, mae nifer cyfyngedig o nodau neu fannau cyfarfod clir-ddiffiniedig ar y Brif Stryd lle mae bylchau rhwng adeiladau yn gyfyngedig ac mae adeiladau yn gyffredinol yn wynebu'r pafin yn uniongyrchol.

***Mannau cyhoeddus / ardaloedd agored***

4.3.7 Prif ffocws yr Ardal Gadwraeth yw'r ardal yng nghanol y dref ac o amgylch y Castell, lle gall y ffyrdd fod yn gul ac ychydig iawn o ofod neu gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer mannau cyhoeddus neu ardaloedd agored.

1. Maes parcio'r **Cei** ger Northgate Street. Maes parcio yw'r ardal hon yn bennaf ond caiff ei chau ar gyfer ffeiriau.

2. Mae **The Commons y**n cynnig ardaloedd agored mawr ac ardal chwarae i blant. Mae Canolfan Gymunedol Foundry House yn fan cyfarfod i'r gymuned. Mae'r adeilad ei hun yn dyddio o 1839.

3. Mae'r **Castell a llwybr Llyn y Felin** yn rhoi mynediad i ymyl y dŵr drwy lwybr cylchdro. Mae llawer o gyfleoedd i sefyll neu eistedd ac edmygu'r golygfeydd o lan y dŵr.

4. **Tir y Castell**. Er bod yn rhaid talu i fynd i mewn, mae'n cynnig man agored posibl a chynhelir digwyddiadau gan gynnwys perfformiadau ail-greu a chyngherddau yno.

5. **Llyn y Felin a Castell**. Er nad yw'n bosibl defnyddio cychod bellach, cynhelir Rali Flynyddol bob mis Awst er mwyn arfer yr hawl hynafol i deithio ar yr afon.

**Golygfeydd Allweddol**

4.3.8 Ceir nifer o olygfeydd pwysig o fewn yr Ardal Gadwraeth. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond mae'n dangos bod y golygfeydd hyn o fewn yr Ardal Gadwraeth ac i mewn ac allan ohoni yn elfen bwysig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth, ac felly y dylent gael eu diogelu a'u gwella lle y bo'n bosibl.

**Golygfeydd Panoramig**

4.3.9 Mae golygfeydd panoramig i'w gweld o dyrrau, gorthwr a llwybrau troed uchel y castell. O'r mannau hyn, ceir golygfeydd ar draws y treflun ac i'r cefn gwlad bryniog ehangach. Ceir golygfeydd gwerth chweil o Lynnoedd y Felin, gan gynnwys yr ardaloedd llanwol. Mae golygfeydd pellach ar draws toeon y Stryd Fawr yn amlygu'r cymysgedd amrywiol a diddorol o adeiladau hanesyddol, gweddau a chyfraneddau. Fodd bynnag, mae peilonau trydan yn amharu ar y

nenlinell hon. I'r gorllewin, ceir golygfeydd i gyfeiriad Eglwys Priordy Cil-maen a'r cefn gwlad ehangach. I'r gogledd, caniatawyd datblygiadau modern yn agosach fyth at y castell ac, o ganlyniad, nid yw'r ardal hon yn cynnig cefnlen agored mwyach. Mae datblygiadau hefyd yn ymestyn yn raddol i'r nenlinell ac mae'n bosibl y gallant beryglu lleoliad Penfro a'r castell o fewn y tirlun.

### Golygfeydd estynedig

4.3.10 Ceir golygfeydd gwych o'r castell a chipolwg dros doeon tai o sawl man yn yr Ardal Gadwraeth. Ceir golygfeydd o'r Castell o fewn yr Ardal Gadwraeth a'r tu allan iddi o'r Stryd Fawr, Bridgend Terrace, Northgate Street ac ar draws yr afon yn Rocky Park a rhannau o Woodbine Terrace.

4.3.11 Mae llwybrau'r Castell a Llyn y Felin i'r gogledd o ganol hanesyddol y dref, gan gynnwys rhan flaen Rocky Park a Northgate Street, yn cynnig golygfeydd gwych tuag at y castell ac ar draws Llynnoedd y Felin a Llyn y Castell, er mai ychydig iawn o olygfeydd cyhoeddus a geir o ochr ogleddol Llyn y Felin lle mae datblygiadau preswyl yn cyfarfod â glannau'r dŵr mewn mannau. Ceir golygfeydd estynedig o'r castell o Bridgend Terrace yn uniongyrchol i'r de, ond mae gwaith datblygu yn amharu ar y golygfeydd o The Commons tuag at y castell. Yn yr un modd, amherir ar y golygfeydd pellennig o'r ffyrdd i'r de gan lystyfiant neu adeiladau.

4.3.12 Ni cheir golygfeydd i mewn i Benfro o'r gogledd hyd nes y dynesir at Golden Hill Road lle mae'r olygfa yn cynnwys y castell a'r fynedfa i'r dref. I'r de, mae'n bosibl gweld y castell a'r dref o St Daniel's Hill.

### Adeiladau a Mannau Nodedig ac Allweddol

4.3.13 Mae twf cynnar yr ardal wedi'i golli'n bennaf yn sgil camau datblygu dilynol a newidiadau i ffasadau i gyd-fynd â ffasiwn yr oes.

### Castell Penfro



4.3.14 Roedd y lleoliad yn cynnig manteision allweddol gan gynnwys safle amddiffynnol a mynediad cysgodol i Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Yn wreiddiol, amddiffynfa gylch rhannol â rhagfuriau o bridd a phalisadau o bren a adeiladwyd gan Arnulf de Montgomery yn 1093 yn dilyn y goresgyniad Normanaidd ym Mhrydain a leolwyd ar y safle. Cafodd ei ailadeiladu o gerrig yn ystod y ddeuddegfed ganrif gan William Marshal. Caiff y strwythur cynnar hwn o gerrig ei adlewyrchu yng nghymeriad y castell heddiw a Marshal oedd yn gyfrifol, fwy na thebyg, am y rhan fwyaf o'r gwaith carreg cynnar a welir o hyd, gan gynnwys y gorthwr crwn enfawr a llenfuriau'r ward fewnol. Marshal neu ei

olynwyr oedd yn gyfrifol hefyd am adeiladu Muriau'r Dref ac atgyfnerthu ei chynllun llinellol i Benfro. Y tu ôl i'r ddwy brif res o dai roedd lleiniau bwrdais, yn goleddu i lawr i'r muriau, y mae llawer ohonynt yno o hyd ac yn ffurfio elfen bwysig o'r Ardal Gadwraeth.

4.3.15 Yn 1247, cafodd Penfro ei rhoi i William de Valence, hanner brawd Harri'r III, a chychwynnodd yntau hefyd ar raglen adeiladu. Adeiladwyd muriau'r ward allanol fawr o gerrrig a chodwyd tyrrau gwarchod silindraidd a Phorthdy Mawr. Erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd y castell a thref Penfro yn mynd drwy gyfnod o ddirywiad.

4.3.16 Bu Castell Penfro dan warchae gan luoedd Cromwell am saith wythnos yn ystod yr Ail Ryfel Cartref pan ddatganodd John Poyer yn 1644 ei fod yn cefnogi Brenin Siarl I. Pan ildiodd y castell, a ddaliwyd gan Poyer (ar ôl i Cromwell dorri ei gyflenwad dŵr), aeth Cromwell ati i ddymchwel muriau allanol y rhagdwr a thyrrau'r llenfur. Dim ond pan brynwyd y castell gan yr Uwchfrigadydd John Ivor Phillips yn y 1920au y cafodd y nodweddion hyn eu hadfer a pharhaodd y gwaith adfer hyd at yr Ail Ryfel Byd. Yn fewnol, mae'r gwaith adfer yn fwy amlwg gyda lloriau concrit yn nhyrrau a phorthdy'r ward allanol, a llefydd tân cwflog. Mae'r castell wedi bod yn Adeilad Rhestredig Gradd I ers 1958 ac mae hefyd yn Heneb Gofrestredig.

**Neuadd y Dref Penfro**

4.3.17 Dechreuodd y gwaith adeiladu yn 1819 ac mae'r ffasâd cymharol blaen yn cynnwys pedwar agoriad o led anghyfartal ar y llawr uchaf â ffenestri codi tal â phaenau bach. Hyd at 1909, roedd y llawr gwaelod â chalchfaen nadd addurnedig â bwâu crwn a fewnlenwyd yn arwain at y farchnad agored. Cafodd y neuadd ei moderneiddio a'i hymestyn yn 1993 ac mae bellach yn gartref y siambr cyngor y dref. Dechreuodd y gwaith o greu murluniau yn dangos hanes Penfro o Oes y Cerrig i'r ugeinfed ganrif yn Neuadd y Dref Penfro yn 2006, a disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau yn 2017.

**Tŵr Cloc**



4.3.18 Adeiladwyd y tŵr gwreiddiol yn 1825 ac mae'r cloc yn dyddio o 1829. Ychwanegwyd yr adenydd isaf ar y naill ochr a'r llall iddo yn 1899. Mae'r tŵr wedi'i newid ddwywaith ers hynny a chafodd ei droi'n strwythur trillawr yn 1899 pan ychwanegwyd llwyfan drwm a chloc â choronig o haearn bwrw. Mae rendr wedi'i baentio a chonglfeini cerrig yn ogystal â rendr calchfaen llwyd ar y llawr gwaelod yn sicrhau bod hwn yn un o adeiladau nodedig y strydlun. Cafodd y gofod cul ar y llawr gwaelod ei foderneiddio ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Cwblhawyd gwaith adnewyddu pellach ar ddechrau 2017.

**Eglwysi a Chapeli**
4.3.19 Mae dwy eglwys fawr i'w gweld o hyd ar y Stryd Fawr, sef Eglwys Santes Fair y Forwyn ac Eglwys San Mihangel. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd nifer o gapeli o wahanol enwadau er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o addoliadau crefyddol. Bellach, mae'r capeli hyn yn rhan annatod o hanes a datblygiad y dref. Maent hefyd yn chwarae rôl amlwg wrth greu cymeriad a diddordeb arbennig y strydlun.

4.3.20 Gellir yn hawdd fethu Eglwys y Santes Fair, a leolir bellach y tu ôl i eiddo ar y Stryd Fawr. Mae iddi gorff a adeiladwyd ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif, tŵr a changell o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a tho fowt faril o'r bedwaredd ganrif ar ddeg neu'r bymthegfed ganrif. Mae'r siambr ar y llawr gwaelod yn cynnwys fowt ag asennau gwastad llydan. Mae porth estynedig y de yn rhedeg i fyny'r stryd rhwng y tai. Cafodd yr eglwys ei hadfer gan Pearson yn ystod y 1870au ar ôl iddi gael ei chau oherwydd ei chyflwr gwael. Ychwanegodd Pearson rwyllwaith geometrig, bwa cangell uchel newydd a thoeon. Mae'r ffenestri gwydr lliw, a wnaed gan Kempe & Co yn 1907, yn cynrychioli'r croesholiad. Mae'r ddwy ffenestr a welir yng nghangell y de a sawl ffenestr arall yn darlunio seintiau Cymru a ffigyrau hanesyddol.

4.3.21 Cafodd Eglwys San Mihangel, eglwys ganoloesol yn wreiddiol, ei hailfodelu yn 1831 gan Thomas Rowlands a aeth ati i greu corff llydan, dymchwel y transeptau a'r gangell, y cafodd yr olaf ohonynt ei symud i'r gogledd o'r tŵr, ac adeiladu porth i'r de. Bu'n destun gwaith pellach yn 1887 pan geisiodd Lingen gyflwyno priodoldeb Fictoraidd i ran fewnol yr eglwys drwy rannu'r corff ag arcêd â phedwar bae ac ymestyn y gangell i'r gorllewin. Nid aeth y naill na'r llall ohonynt ati i newid y capel canoloesol â'i do fowt faril pigfain.

4.3.22 Eglwys Bresbyteraidd Westgate (Capel y Methodistiaid Calfinaidd gynt, Westgate Hill). Arddull Gothig Fenisaidd syml mewn calchfaen llwyd lleol ag addurniadau o dywodfaen a brics coch dyddiedig 1866 a 1875 gan K.W. Ladd. Mae'r ffasâd yn cynnwys tyred grisiau amlonglog sy'n addasiad i'r safle serth.

4.3.23 Capel y Bedyddwyr Mount Pleasant, East Back
Cafodd y capel ei ymestyn gan y Parchedig Thomas Thomas yn 1877. Mae ffasâd calchfaen wedi'i fwtresu ag addurniadau o gerrig Caerfaddon a ffenestri rhwyllog mawr wedi goroesi ar y ddau lawr. Mae'n bosibl mai'r capel blaenorol a adeiladwyd gan John Cooper yn 1860 oedd yn gyfrifol am y cyfraneddau rhyfedd. Y tu mewn, mae'r oriel yn rhedeg o amgylch tair wal â phaneli deniadol o waith haearn rhwyllog.

4.3.24 Eglwys Ddiwygiedig Unedig y Tabernacl, y Stryd Fawr
Mae dyluniad yr eglwys hon, a adeiladwyd hefyd gan Thomas Thomas o Abertawe, yn llai cynnil ac annisgybledig. Ceir blaen Gothig â thyred wedi'i fwtresu ar un ochr, gyda meindwr ar ei ben a thyred talcennog siâp seren ar yr ochr arall. Ceir ffenestr rwyllog fawr uwchlaw drysau dwbl ac ardal fewnol gonfensiynol yn cynnwys oriel deirochrog a nenfwd â chilfwâu. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II ac fe'i hadnewyddwyd yn 2013.

4.3.25 Capel Wesleaidd, St Michael's Square
Wedi'i leoli wrth gyffordd East Back a'r Stryd Fawr, dyma'r unig enghraifft hysbys o waith K W Ladd lle gwelwyd arddull Eidalaidd glasurol ond eto mae'n anghonfensiynol gan mai manylion Gothig a welir gan fwyaf. Ceir ffasâd plastr â phediment â bwa mawr, pileri cornel garw a cholofnau Corinthaidd tri chwarter o dywodfaen. Ceir ffenestri rhwyllog mawr yn y baeau allanol. Mae'r tu mewn i'r capel wedi'i waredu'n rhannol.

**Tir y Cyhoedd**

4.3.26 O fewn rhan adeiledig yr Ardal Gadwraeth, mae elfennau tir y cyhoedd fel celfi stryd, goleuadau a dysglau yn fodern ar y cyfan ond yn cyd-fynd o ran eu harddull â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

4.3.27 Ceir rheiliau addurnol ac arwyddbyst traddodiadol wrth gyffordd Westgate Hill a'r Stryd Fawr. Mae bocsys cyfleustodau a dysglau lloeren ar y Stryd Fawr yn anghydnaws. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelyau a'r cynwysyddion blodau ar reiliau yn rhai modern. Fodd bynnag, maent yn helpu i wella gofod cymunedol yn ystod yr haf. Tirlunio caled a welir yn bennaf wrth y fynedfa i Neuadd y Dref gyda seddi a chanonau ar fowntiau o garreg yn cynnig gofod deniadol. Yn East Back, mae'r goleuadau stryd modern yn ymarferol (gweler y ffotograff o Neuadd y Dref Penfro uchod).

4.3.28 Ymhlith y gwelliannau i'r gofod cyhoeddus lle mae New Way yn cyfarfod â Commons Road mae palmentydd set, pyst metel wedi'u paentio a goleuadau traddodiadol, sy'n cynnig amgylchedd cydnaws a deniadol i gerddwyr a'r sawl sy'n teithio mewn cerbydau.

4.3.29 Ar hyd llwybr Commons Road, mae mur cerrig hanesyddol y dref a meinciau sydd wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd yn cynnig eisteddleoedd â golygfeydd o The Commons.

**Mannau Agored/Gwyrdd, Coed a Thirlunio**

4.3.30 Ychydig iawn o fannau gwyrdd a welir ar hyd y Stryd Fawr ar wahân i erddi blaen bach ar ffurf iard a choed lle mae East Back yn rhannu oddi wrth y Stryd Fawr, a choed wrth ymyl y ffordd ymhellach i'r dwyrain. Mae'r castell, Llyn y Felin a The Commons yn cynnig ardaloedd helaeth o dir agored, gan gynnwys mannau gwyrdd, ardaloedd chwarae ac ardaloedd ar lan y dŵr. Mae ardaloedd llethrog The Parade yn llawn tyfiant ac nid yw'r gwyrddlesni wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

4.3.31 Yn ardal The Commons, lle adenillwyd morfa heli, gwelir nant fach o hyd yn llifo tuag at y Llyn Castell a saif coed aeddfed a choed a ailblannwyd ymysg y gwair byr.

**Gerddi Hanesyddol**

4.3.32 Nodir y Gerddi Hanesyddol canlynol o fewn Cofrestr Cadw o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, 2002. Dangosir y ffiniau yn Atodiad 1.

1. 111 y Stryd Fawr, Penfro – Wal a gardd teras ffurfiol.
   Goroesiad prin gardd dref o ddiwedd y ddeunawfed ganrif o ryw fawredd, wedi'i chysylltu ag un o'r tai trefol pwysicaf ym Mhenfro. Mae ei strwythur a'i phrif nodweddion, gan gynnwys terasau, pileri brics coeth i'r naill ochr i'r echelin ganolog a gasebo brics wythochrog yno o hyd.

2. Hen Neuadd a Ficerdy Cil-maen – Gardd adrannol â wal o'i chwmpas, gyda chyfres o derasau.
   Goroesiad gardd teras ac adrannol mewn safle godidog yn edrych dros Gastell Penfro. Mae'r ardd yn gysylltiedig â'r priordy canoloesol ac mae rhannau, fwy na thebyg, yn dyddio i'r cyfnod hwn, sy'n eu gwneud yn enghraifft brin iawn o ardd â wal o'i chwmpas ganoloesol. Mae'r terasau, fwy na thebyg, yn dyddio i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**Lleiniau Bwrdais**

4.3.33 Mae’r dref yn arwain i’r gogledd a’r de o’r stryd fawr, ac mae wedi’i rhannu’n lleiniau bwrdais cul a hir wedi’u diffinio gan waliau terfyn. Mae’r cynllun hwn wedi goroesi hyd heddiw i raddau helaeth, o ran y system o raniadau a’r waliau rwbel eu hunain. Collwyd rhywfaint o raniadau’r bwrdeisi, yn enwedig yn yr ardaloedd ar gyfer meysydd parcio a grëwyd i’r de o’r Stryd Fawr yn yr ugeinfed ganrif.

**4.4 Dadansoddi Cymeriad**
4.4.1 Gellir rhannu Ardal Gadwraeth Penfro yn fras yn bum ardal wahanol, y mae gan bob un ohonynt eu nodweddion eu hunain. Er nad yw ffiniau pob ardal yn sefydlog nac yn dra-chywir, ceir gwahaniaeth amlwg rhwng pob ardal nodwedd o ran defnydd tir a gweithgareddau cyfredol a blaenorol a ffurf, cynllun a rhinweddau a manylion adeiladau unigol.

1. **Eglwys San Mihangel a'r Rhan Ddwyreiniol**
2. **Llyn y Felin a Rocky Park**
3. **Ardal Llyn y Castell**
4. **The Commons a Bridgend Terrace**
5. **Y Castell a'r Stryd Fawr**

4.4.2 Dangosir cwmpas llawn pob ardal nodwedd ar y 'Map o ardaloedd nodwedd' yn Atodiad 1. Mae pob un o'r rhannau isod yn ystyried yn fras ddatblygiad hanesyddol yr ardaloedd ac yn rhoi crynodeb o'u prif nodweddion.

**Ardal Nodwedd 1: Eglwys San Mihangel a'r Rhan Ddwyreiniol**
4.4.3 Mae rhan ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth yn agosáu at Gylchfan East End a chaiff cymeriad y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth ei ddylanwadu gan y llwybrau trafnidiaeth rheiddiol a'r adeiladau ar East End Square sy'n wahanol i ffryntiad llinellol y Stryd Fawr.

4.4.4 Mae East End Square yn ymestyn y tu hwnt i linell Muriau canoloesol gwreiddiol y Dref ac mae'n ganolbwynt bellach i'r traffig sy'n defnyddio'r system unffordd ac yn teithio ymlaen i'r de a'r dwyrain. Mae llawer o'r adeiladau ar y gylchfan ac o'i chwmpas yn adeiladau masnachol ac adeiladau cymunedol a cheir rhai adeiladau gwag.

4.4.5 Mae Eglwys San Mihangel i'r gorllewin o'r ardal nodwedd wedi'i gosod yn ôl o'r Stryd Fawr ac yn wynebu'r gyffordd rhyngddi ag East Back. Cafodd yr eglwys, sy'n dyddio o'r cyfnod canoloesol, ei hailfodelu'n helaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n wag ar hyn o bryd ac mae perygl y bydd ei chyflwr yn dirywio. O flaen yr eglwys ceir maes parcio a gofod cyhoeddus wedi'i ailfodelu ag arwyneb o flociau pavier wedi'u lleoli ar safle pedwar tŷ a gafodd eu dymchwel yn y 1960au. Er i hyn ymrannu ffryntiad y Stryd Fawr, sicrhaodd bod modd gweld Eglwys San Mihangel.



*Gerllaw'r fynedfa i'r maes parcio, ceir teras, tri thŷ o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhifau 90-94 Y Stryd Fawr, sydd o'r un maint o hyd er bod gwaith ailfodelu wedi newid yr agoriadau.*

4.4.6 Y tu ôl i'r teras mae siop a thŷ deulawr o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi cadw eu nodweddion brodorol gyda ffenestri codi â phaenau bach a ffenestri blaen siop.




*Mae 104 y Stryd Fawr wedi cadw ei flaen siop gwreiddiol o 1907 gyda phlastr wedi'i baentio a tho llechi. Mae gan y lloriau uchaf ffenestri codi ffug ac mae dysgl lloeren ar flaen yr adeilad.*

4.4.7 I'r dwyrain o'r eglwys ceir teras o adeiladau domestig a masnachol a adeiladwyd rhwng dechrau'r cyfnod Edwardaidd a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys adeiladau cynharach, sy'n dyddio o bosibl o'r cyfnod canoloesol, mewn rhai achosion. Yn y fan hon, ar y naill ochr a'r llall i'r Stryd Fawr, ceir amrywiaeth o dai deulawr cyffredin a thai trillawr. Ceir toeon a ffasadau amrywiol iawn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cadw'r ffenestri codi â dau neu bedwar paen a manylion allanol plastr effaith carreg nadd sy'n debygol o fod yn cuddio waliau rwbel o galchfaen lleol.




4.4.8 Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i droi safle gwag yr hen orsaf betrol yn siop fanwerthu â fflatiau uwchben. Mae'r ffotograff isod o ddechrau'r 1970au yn dangos y berthynas anghydweddol rhwng adeiladau a grëwyd gan y toriad mewn ffryntiad sydd, fel arall, yn un parhaus. Y bwriad oedd y byddai'r datblygiad newydd ar y safle hwn yn cadw'r llinell adeiladu ar y Stryd Fawr ac yn adlewyrchu'r cymeriad hanesyddol presennol.










*Mae ffenestri upvc modern diweddar wedi disodli ffenestri codi pren a ffenestri codi gwreiddiol a gollwyd er bod y gwaith plastro gwreiddiol wedi goroesi.*

4.4.9 Mae'r llwybr cerdded cul a choediog a ddwyrennir gan lwybr cerdded y Black Horse sy'n rhoi mynediad ar droed o'r Stryd Fawr tua'r gogledd i Lyn y Felin, yn adlewyrchu cymeriad y dref ond cafodd ei greu ar ôl i hen dafarn y Black Horse gael ei dymchwel yn 1958. I'r gorllewin, mae'r gerddi â'u muriau cul, lle gwelir lleiniau bwrdais gwreiddiol o hyd, yn ymestyn i lawr tuag at furiau'r dref. Byddai llawer o leiniau wedi cynnwys anheddau llai o faint ac adeiladau allan a ddefnyddiwyd gan weision a gweithwyr y bwrdeiswyr neu bobl y dref a oedd yn rhentu tir neu denementau oddi wrth y landlord Normanaidd. Cafodd y lleiniau bwrdais muriog eu hailadeiladu'n gyffredinol yn dilyn gwarchae Cromwell neu yn ystod y cyfnod Sioraidd. Gall cyflwr y lleiniau amrywio'n sylweddol.

4.4.10 Lleolir y fynedfa i Lyn y Felin yn agos at rannau o furiau'r dref sydd wedi goroesi a thŵr Barnard, tŵr trillawr o'r drydedd ganrif ar ddeg a Heneb Gofrestredig, sy'n edrych dros Lyn y Felin ac sy'n ffurfio rhan o furiau'r dref. Mae'r muriau, sydd wedi'u hadeiladu o rwbel mewn haenau bras, tua 2 fetr o drwch.



4.4.11 Ar Holyland Road, ceir rhes o dai teras Fictoraidd, Harcourt Terrace, sydd â gorffeniad rendr plaen a ffenestri codi, er bod pob un o'r ffenestri a'r drysau wedi'u disodli â rhai upvc.

4.4.12 East End Square, sydd wedi'i osod yn ôl o'r Stryd Fawr, a rhes gyffredin o dai plaen sy'n dyddio fwy na thebyg o'r 1840au, er bod 5 a 6 wedi'u gosod yn ôl ac, o bosibl, yn dyddio o gyfnod mwy diweddar. Maent yn amrywio o un bae i dri bae, ac mae'r simneiau gwreiddiol o frics neu rendr wedi goroesi. Mae'r eiddo

canol yn siop â thrugareddau ac arwydd siop modern. Roedd tafarn The Hope Inn yn cynnwys parlwr blaen a chegin gefn y defnyddiwyd y ddau ohonynt ar gyfer yfed, gyda selar oddi tani a llain bwrdais y tu cefn iddi.








*East End Square a The Hope Inn gydag agoriadau gwreiddiol y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi goroesi ynghyd â ffenestri codi â phedwar paen, er bod ffenestri upvc i'w gweld.*

4.4.13 I'r gorllewin, mae Goose's Lane yn dilyn llinell muriau'r dref sydd wedi diflannu i raddau helaeth uwchlaw lefel y ddaear, ac eithrio wrth ymyl 1 Goose's Lane, ond yn wreiddiol, rhedai i lawr at Dŵr y De-ddwyrain. Adeiladwyd Lewis Terrace a Rock Terrace ar Goose's Lane rhwng 1885 a 1908 ac mae'r ochr ddwyreiniol yn cynnwys anheddau mewnlenwi modern.

4.4.14 Ymhlith yr adeiladau cymunedol a'r hen adeiladau cymunedol yn y rhan hon o Benfro mae Neuadd Eglwys San Mihangel sy'n un o nodweddion gweledol y Stryd Fawr. Mae prif ddrychiad yr adeilad hwn o garreg nadd, sy'n dyddio o ddiwedd yr oes Fictoraidd, yn wynebu Station Road ac mae'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol wedi goroesi. Mae'r drychiad wedi'i osod yn ôl o'r ffordd gyda mur isel o gerrig a rheiliau addurnol. Defnyddiwyd gorffeniad rendr wedi'i baentio ar gyfer y drychiadau eraill ac mae estyniadau modern i ddrychiadau'r de-orllewin a'r de wedi'u symud. Mae rheiliau iwtalitaraidd uwchlaw'r mur o gerrig rwbel ac ardal eistedd yn rhoi golygfa agored o'r sgwâr, ond nid ydynt yn adlewyrchu'r rheiliau Fictoraidd gwreiddiol o haearn gyr ar Station Road. Mae'r eiddo hwn, sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, yn wag ar hyn o bryd.

4.4.15 Mae'r hen ysgol (a gaewyd yn 1970) ac, yn fwy diweddar, y clwb paffio ar East End Square yn parhau'n enghraifft wych o adeilad o galchfaen nadd sy'n dyddio o 1873, er nad yw'r ffenestri gwreiddiol i'w gweld ac mae'r ffenestri dan goed yn difrïo golwg y lleoliad amlwg hwn.

## Ardal Nodwedd 1: Crynodeb ac Argymhellion.

**Wrth groesi y tu hwnt i linell Muriau gwreiddiol y dref caiff y cymeriad lleol ei ddylanwadu'n gryf gan gynllun y ffordd a symudiadau traffig gan gynnwys mynediad o'r Stryd Fawr. Mae gwaith alinio a newid ffyrdd wedi'i gyflawni ar gyfer llifau traffig.**

**Datblygiadau preswyl a masnachol a welir yn yr ardal ac maent o bwys hanesyddol. Dylid gwarchod yr ardal rhag datblygiadau neu waith dymchwel amhriodol pellach. Mae'r amrywiaeth o ran maint a dyluniad adeiladau yn ychwanegu diddordeb ac yn helpu i lunio cymeriad yr ardal.**

**Mae'r llwybrau i The Commons ar Goose's Lane a llwybr cerdded mwy diweddar Black Horse yn atgyfnerthu cymeriad a symudiad y treflun a dylai'r ffordd y cânt eu cynnal a'u cadw a'r deunyddiau a ddefnyddir fod yn gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal a'i atgyfnerthu. Lle y bo'n bosibl, dylid ceisio lleihau annibendod modern a deunyddiau modern.**

**Mae'r stoc breswyl mewn cyflwr da ar y cyfan ac nid oes unrhyw adeiladau gwag. Fodd bynnag, mae adeiladau sydd mewn eiddo cyhoeddus yn wag ac yn dangos arwyddion o esgleustod a dirywiad. Defnyddiau amgen sy'n gydnaws ag adeiledd hanesyddol yr eiddo a sicrhau bod cymeriad sylfaenol yr adeiladau yn goroesi yw'r ffyrdd gorau o gynnal a chadw'r adeiladau hyn a sicrhau eu bod yn hyfyw yn yr hirdymor. Efallai y bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r Awdurdod eu gwerthu.**

**Mae angen adolygu'r annibendod ar strydoedd a grëir gan arwyddion a'i atgyfnerthu. Mae'r celfi stryd yn yr ardal hon yn fodern ac yn iwtalitaraidd ar y cyfan a dylid ystyried eu disodli â chelfi sy'n fwy cydnaws â chymeriad hanesyddol y Stryd Fawr a'r celfi stryd a welir yno.**

**Nid yw dysglau lloeren yn broblem yn y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd.**

**Mae'r safle gwag ger 137 y Stryd Fawr yn rhoi cyfle i atgyfnerthu ffryntiad y stryd, gan barchu ffurf a chymeriad cyffredinol yr eiddo gerllaw sy'n eiddo domestig o ran maint a natur ac sy'n amrywiol o ran eu diddordeb.**

### Ardal Nodwedd 2: Llyn y Felin a Rocky Park

4.4.16 Arferai Llyn y Felin fod yn rhan o gilfach lanw a ymestynnai i'r dwyrain. Mae'r symudiad tonnol wedi'i gyfyngu ers y drydedd ganrif ar ddeg pan adeiladwyd melin lanw (dymchwelwyd yn 1958 yn dilyn tân yn 1955) ) ac, yn fwy diweddar, mae arglawdd a adeiladwyd i'r gogledd-orllewin o'r castell yn y 1970au yn cynnal lefelau dŵr yn Llyn y Felin. Mae Llyn y Felin yn darparu ardal nodedig o ddŵr agored sy'n lleoliad gwych i'r hen dref ac yn gwahanu'r datblygiadau modern yn bennaf a welir yn i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth. Mae llwybr Llyn y Felin yn adnodd hamdden a natur allweddol ym Mhenfro.

4.4.17 Ar ochr y cei i'r gogledd o Northgate Street gwelwyd warysau a oedd yn adlewyrchu prysurdeb y porthladd ym Mhenfro hyd at ddechrau'r ddeunawfed ganrif

pan ddaeth Hwlffordd ac Aberdaugleddau yn lleoliadau mwy amlwg. Cyn hyn, sefydlwyd dominyddiaeth porthladd Penfro gan siarteri o'r ddeuddegfed ganrif. Dechreuwyd adeiladu mur cei y gogledd, sydd â wyneb o gerrig sgwâr, yn y 1860au. I'r gorllewin, ceir blociau sgwâr mwy rheolaidd ac yng nghornel y pen gorllewinol ceir conglfeini tywodfaen â wyneb o gerrig. Ceir gwaith cerrig sgwarog mwy garw (calchfaen llwyd) i'r dwyrain o flaen yr adeilad storio grawn sy'n adlewyrchu cyfnodau o adeiladu a datblygu. Mae'n debygol mai storfa ar gyfer y felin a safai ar y bont oedd hon. Mae grisiau i'r dŵr ger yr adeilad storio grawn.

4.4.18 Yn wreiddiol roedd The Cornstore, adeilad storio grawn trillawr sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif, yn storfa amaethyddol. Calchfaen llwyd afreolaidd ei faint a ddefnyddiwyd i adeiladu waliau allanol yr adeilad a cheir cornis bondo o frics a tho llechi sydd wedi'i adnewyddu. Yn nhalcen y dwyrain, mae'r drysau yn agor ar y lloriau uchaf er mwyn caniatáu i'r grawn gael ei lwytho yn syth i mewn i'r storfa. Mae'r drws blaen yn wynebu'r afon a byddai hyn wedi caniatáu i longau gael eu clymu i'r lan a llwytho neu ddadlwytho eu nwyddau yn uniongyrchol i mewn i'r storfa. Byddai winsh yn cael ei ddefnyddio wedyn i'w symud o fewn yr adeilad. Mae The Cornstore, sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II, yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol fel caffi a siop, er bod adeiladau Cei'r Gogledd wedi parhau i gael eu defnyddio hyd at yr 20fed ganrif pan oedd nwyddau yn cael eu dadlwytho o longau hwylio.

4.4.19 Y tu ôl iddo, mae Croft Court a Rocky Part, datblygiadau preswyl trillawr mawreddog wrth lan y dŵr sydd â golygfeydd gwych o'r ardal. Er nad ydynt yn adeiladau hanesyddol, maent yn effeithio ar olygfeydd o'r castell a glan y dŵr.



4.4.20 The Green, ymhellach i'r dwyrain, yw'r brif ffordd fynediad i Benfro o'r gogledd. Cwblhawyd y rhes o dai teras ar Springfield Terrace, a adeiladwyd ar ôl i'r gwaith o adeiladu Rheilffordd Penfro a Dinbych-y-pysgod gael ei gwblhau, yn 1863. Maent yn cynnig ffryntiad amrywiol a diddorol. O flaen y tai teras ceir waliau isel o gerrig ac iardiau bach.





4.4.21 Ychydig iawn o adeiladau nodedig a welir i'r gogledd o Lyn y Felin. Datblygiadau tai modern a chyffredin ydynt gan fwyaf. Mewn rhai achosion, mae datblygiadau preswyl wedi'u hadeiladau'n agosach at y dŵr ac wedi cael effaith negyddol ar yr ymdeimlad o unigrwydd wrth gerdded o amgylch Llyn y Felin. Mae'r bywyd gwyllt yn Llyn y Felin yn cynnwys elyrch ac adar eraill y dŵr, dyfrgwn, gweision y neidr ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

4.4.22 Ymhlith yr eiddo y mae ei gymeriad a'i nodweddion gwreiddiol wedi goroesi mae Devon House, Lake House a Greenwood House, sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod Edwardaidd.







*Devon House, Lake House a Greenwood House. Ymhlith y nodweddion sydd wedi goroesi mae ffenestri codi gwreiddiol a ffenestri bae, amrywiaeth o dopwaith addurnol, gwaith plastr a chiliau cerrig addurnol a siliau cul. Ceir rheiliau haearn gwreiddiol o amgylch Devon House.*

## Ardal Nodwedd 2: Crynodeb ac Argymhellion.

**Llyn y Castell yw prif nodwedd yr ardal hon. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar ochr ogleddol yr ardal nodwedd yn rhai modern ac nid ydynt yn gydnaws â'r nodweddion cynhenid lleol. Ceir sawl adeilad nodedig, gan gynnwys The Watermans Arms, The Cornstore, Devon House, Lake House a Greenwood House. Mewn rhai achosion, mae datblygiadau preswyl wrth ymyl Llyn y Felin wedi'u hadeiladau'n agosach at y dŵr ac wedi effeithio ar yr ymdeimlad o unigrwydd yn Llyn y Felin.**

**Dylid annog cadw nodweddion traddodiadol eiddo hanesyddol.**

**Dylid blaenoriaethu'r gwaith o gynnal a chadw Llyn y Felin er mwyn cefnogi cadwraeth natur. Dylid cynnal y llwybrau mynediad cyhoeddus sy'n bodoli eisoes a, lle y bo'n bosibl, dylid gwella'r profiad drwy gadw a gwella'r glustogfa weledol o goed a llystyfiant ar yr ochr ogleddol a chynnal a chadw waliau terfyn lleiniau bwrdais i'r de. Mae'r rhain yn diffinio ymyl Llyn y Felin.**

**Dylid cynnal a chadw mannau gwybodaeth a mannau ymgynnull.**

**Dylai'r gweithgarwch masnachol yn yr hen eiddo ar Gei y Gogledd barhau i ganolbwyntio ar dwristiaeth a dylid annog pobl i ddefnyddio llwybr cerdded Llyn y Felin a mwynhau golygfeydd o'r Castell.**

### Ardal Nodwedd 3: Ardal Llyn y Castell

4.4.23 Er bod yr ardal nodwedd hon yn chwarae rôl bwysig o ran y gefnlen agored ac annatblygedig y mae'n ei rhoi i Gastell Penfro (Heneb Gofrestredig ac Adeilad Rhestredig Gradd I). Mae'r rhan fwyaf o'r golygfeydd o'r castell yn edrych dros ddatblygiadau hanesyddol neu fodern ac mae'r olygfa hon yn cyfrannu at y diddordeb a'r ymdeimlad o hanes. Mae natur annatblygedig y caeau hyn yn bwysig wrth gynnal lleoliad y castell.

4.4.24 Mae'r llwybr i droed muriau'r castell yn rhoi mynediad i ogof Wogan a golygfeydd allan dros y dŵr. Mae'r llwybr y tu allan i'r ddyfrffordd yn rhoi golygfeydd clasurol o'r castell a'r datblygiadau adeiledig sy'n gefnlen iddo. Mae'r llwybrau yn adnodd hamdden allweddol sy'n cynnig golygfeydd dirwystr o'r castell.

4.4.25 Wrth ddilyn y llwybr i'r gogledd, sylwir ar y datblygiad modern yn Rocky Park a'r arglawdd o'r 1970au a adeiladwyd er mwyn helpu i leihau'r risg o lifogydd llanw drwy reoli'r all-lif o afon Penfro.

4.4.26 Cerrig rwbel a ddefnyddiwyd i orchuddio'r tai a welir wrth ymyl yr arglawdd ac mae drysau mynediad uchder llawn yn wynebu'r llwybr. Ceir rheiliau diogelwch iwtilitaraidd sy'n anghydnaws â'r ardal gadwraeth o safbwynt esthetig. Mae'r rheiliau wrth yr wylfan i'r castell yn rhai cyfoes ond maent wedi'u cynllunio'n dda ac yn cadw cymeriad a diddordeb yr ardal. Mae cyflwr y tai yn amrywio. Mewn mannau eraill ar hyd y llwybr ceir meinciau sy'n cynnig mannau gorffwys a physt sy'n rhwystro

cerbydau rhag cael mynediad i fannau penodol.







4.4.27 Ceir golygfa wych o'r arglawdd i gyfeiriad Eglwys Priordy Cil-maen a'i hadeiladau cysylltiedig, ac mae'r castell yn ymddangos mewn golygfeydd panoramig ehangach. Mae'r olygfa hon ar draws caeau agored yn cyfrannu at y berthynas arbennig rhwng yr adeiladau hyn.



**<u>Ardal 3 Crynodeb ac Argymhellion</u>**

**Cynnal a chadw natur agored y caeau i'r gorllewin o Lyn y Felin sy'n rhoi cefnlen i'r castell ac Eglwys Priordy Cil-maen ac yn cynnig golygfeydd gwych.**

**Sicrhau bod yr arglawdd a'r tai yn cael eu cynnal a'u cadw er mwyn gwella eu golwg.**


**Gwella / darparu byrddau cadwraeth natur a gwybodaeth hanesyddol mewn mannau priodol ar hyd y llwybr os yw'n bosibl.**

**Atal unrhyw ddatblygiad ymwthiol pellach y tu hwnt i'r datblygiad y gellir ei weithredu o dan ganiatadau cynllunio cyfredol neu a gefnogir gan y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.**

**Ardal Nodwedd 4: The Commons a Bridgend Terrace**

4.4.28 Caiff yr ardal nodwedd hon ei hunoli gan The Commons, yr hen ardal lanwol a

datblygiadau adeiledig i'r gorllewin sy'n cynnwys Bridgend Terrace, Church Terrace, Eglwys Priordy Cil-maen, y Ficerdy a Fferm y Priordy.




4.4.29 Gwelwyd llifogydd helaeth ar The Commons yn y gorffennol ac mae'r arglawdd wedi lleihau'r potensial y bydd llifogydd yn y dyfodol. Roedd rhan isaf The Commons yn cynnwys llyn lle câi sbwriel ei adael a lle câi carthffosiaeth o ochr ddeheuol y Stryd Fawr ei hanfon nes y cafodd system ddraenio ei gosod yn y 1940au.

*Gellir gweld y llyn ar fap o The Commons, Penfro yn 1962*

4.4.30 Yn anffodus, aeth y llyn yn farwaidd mewn tywydd sych pan nad oedd digon o ddŵr ffres o'r nant leol ac, yn raddol, llenwodd â silt. Nid yw'r llyn yn bodoli mwyach. Cafodd ei lenwi ar ôl i Bankers Row gael ei dymchwel yn y 1950au ac mae bellach yn rhan o'r ardal hamdden. Gwyddys fod ardal The Commons wedi'i defnyddio hefyd ar gyfer diwydiant pan ddechreuodd yr ardal lenwi â silt ac, o'r 1800au ymlaen, roedd gwaith nwy, tip y dref, ffowndri haearn, tanerdy a lladd-dy wedi'u lleoli yn yr ardal hon. .[15] Mae'r defnydd a wneir o The Commons nawr fel maes parcio yn helpu'r diwydiant twristiaeth ac yn cynnig man agored ar gyfer cynnal digwyddiadau a ffeiriau. Mae'r ardaloedd hamdden a chwarae yn fannau agored a hygyrch sy'n darparu cyd-destun hanesyddol ar gyfer ardal adeiledig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r gwaith o feddalu'r ddyfrffordd wedi darparu mesurau lliniaru ychwanegol yn erbyn llifogydd a mwy o gyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

4.4.31 Yr unig adeilad a welir ar ran uchaf The Common yw'r hen ffowndri a ddefnyddir bellach fel canolfan gymunedol ar ôl iddi gael ei hadnewyddu yn 2007. Mae'r adeilad yn dyddio o 1839 a daeth y gwaith o gynhyrchu haearn i ben erbyn 1878.

[15] Cyfeiriad: http://www.pembrokestory.org.uk/The_Commons.php.









*Golygfeydd o ardal The Commons sy'n dangos y maes parcio, y nant sy'n llifo drwyddi ac ardaloedd o goed aeddfed.*

4.4.32 Tua'r gorllewin, amgylchynir yr Ardal Nodwedd hon gan Bridgend Terrace lle mae'n cyfarfod â Commons Road a Westgate Hill. Mae'r gyffordd, y brif ffordd a'r celfi stryd yn dominyddu gan olygu bod yr olygfa o'r castell yn un anniben a gwrthdynnol. Mae'r ffordd ar Bridgend Terrace yn gul ac ychydig iawn o balmant, os o gwbl, sy'n ei hamgylchynu ar y naill ochr a'r llall. Dim ond un cerbyd all deithio ar hyd y ffordd ar unrhyw adeg sy'n









golygu bod llif y traffig yn anghyson. Mae'r wal gerrig ar ochr orllewinol Pont Cil-maen yn rhoi diffiniad cryf i ochr y ffordd. Gwelir adeiladau Bridgend Terrace ar hyd yr ochr ddwyreiniol. Mae pob un ohonynt yn adeiladau deulawr o faint a golwg domestig. Mae adeilad The Victoria, sy'n cynnwys trawstiau Tuduraidd ffug, yn wag ar hyn o bryd. Er bod rhywfaint o ailddatblygu wedi digwydd, mae Bridgend Terrace yn cynnwys teras taclus o anheddau deulawr a bythynnod unllawr, ac er bod newidiadau a manylion sydd heb oroesi wedi effeithio ar werth y grŵp, mae'r eiddo yn cynnig man godidog i weld golygfeydd o'r castell o'r de.





4.4.33 Sefydlwyd Eglwys Priordy Cil-maen, sef eglwys hynaf Penfro, ar gyfer yr Urdd Fenedictaidd yn 1093. Cafodd ei haddasu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg cyn iddi fynd yn adfail. Cafodd ei hadfer yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r eglwys â'i thŵr godidog yn dirnod lleol amlwg. Caiff mynwent yr eglwys ei gwahanu oddi wrth Church Terrace gan wal gerrig â rendr modern sy'n anghydnaws â chymeriad yr eglwys. Mae rhes hyfryd o goed aeddfed, a leolir y tu ôl i wal derfyn yr eglwys, yn ychwanegu gwerth i'r ardal hon.

4.4.34 Mae Hen Neuadd Cil-maen, sy'n dyddio o tua'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac a gaiff ei hystyried yn un o'r anheddau domestig hynaf yn Sir Benfro, wedi'i lleoli gyferbyn â Church Terrace. Credir mai Tŷ'r Priordy neu dŷ llety i'r sawl a oedd yn ymweld â Phriordy Cil-maen oedd yr Hen Neuadd. Atgyweiriwyd yr adeilad ar ôl iddo gael ei brydlesu yn 1879 gan J.R. Cobb. Yn 1880, nododd J. R. Cobb fod to'r croes-adain (a oedd wedi dymchwel) yn dyddio o 1819 a bod fowt y cyntedd wedi dymchwel yn ddiweddar. Nododd fod yr un a welwyd yn adain y gogledd-ddwyrain wedi dymchwel ers cryn amser.





Trodd drws y neuadd yn ffenestr unwaith eto, ailagorodd drws y de-orllewin ac adeiladodd adain gwasanaeth ddeulawr ar hen sylfeini. Ffenestri codi a ddefnyddiwyd a chawsant eu disodli gan ffenestri â gwydr lliw ar ôl 1950. Aeth Clough Williams-Ellis ati i wneud mân newidiadau yn 1950 ac mae'r adeilad bellach yn eiddo i'r Landmark Trust.

**<u>Ardal 4 Crynodeb ac Argymhellion</u>**

**Mae The Commons yn ofod agored pwysig i'r gymuned ac mae'n cynnwys maes parcio mawr. Ymhlith y nodweddion y dylid eu cynnal mae mynediad cyhoeddus i'r ardal agored hon, y cyfraniad y mae'n ei wneud at leoliad yr Ardal Gadwraeth a'i chymeriad cydlynol.**

**Dylid cynnal a chadw holl dir y cyhoedd er mwyn adlewyrchu cymeriad hanesyddol yr ardal a'r Ffowndri er mwyn sicrhau bod y manylion hanesyddol sy'n weddill yn goroesi.**

**Asesu'r potensial i atgyfnerthu a lleihau nifer yr arwyddion a'r annibendod gweledol ger Pont Cil-maen.**

**Ardal Nodwedd 5: Y Castell a'r Stryd Fawr**

4.4.35 Cafodd y Stryd Fawr, sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar ddeg ymlaen, ei hamgylchynu gan fur amddiffynnol. Gwyddys fod tri phorth o fewn y muriau - i'r gogledd, i'r dwyrain ac i'r gorllewin. Caiff yr ardal nodwedd, a amgylchynwyd gan ddŵr ar dair ochr yn wreiddiol, ei diffinio gan dopograffi gymaint â'i datblygiad adeiledig. Gosodwyd lleiniau bwrdais y tu ôl i eiddo ar ochrau deheuol a gogleddol y Stryd Fawr, gan redeg i lawr i gyfeiriad y dŵr ar y naill ochr a'r llall i'r gefnen galchfaen, gan adlewyrchu'r topograffi lleol. Mae symudiadau drwy'r dref yn dilyn y cynllun gwreiddiol hefyd i raddau helaeth gyda mynediad o Westgate Hill, Northgate Street a'r Eastgate.

4.4.36 Crëwyd ynys o dai cyn yr ail ganrif ar bymtheg lle yr arferai marchnad plwyf San Mihangel gael ei chynnal. Roedd y tai hynny yn cefnu ar East Back.

4.4.37 Mae llawer o ardal ganolog Penfro yn adlewyrchu ei tharddiad canoloesol yn y patrwm lleiniau canoloesol a'r adeiladau amrywiol gan fod pob adeilad wedi'i adeiladu'n annibynnol, heblaw am adeiladau diweddarach ar y lleiniau hynny sydd â golwg Sioraidd yn bennaf ac sy'n dyddio o gyfnod o ffyniant i'r dref.



4.4.38 Lleolir yr adeiladau hynaf o fewn Muriau'r Dref ar Westgate Hill ac mae Rhifau 8-11 yn tarddu o'r cyfnod canoloesol. Gwaith i ostwng lefel y ffordd arweiniodd at amlygu'r graig oddi tanynt. Credir bod y tai wedi cael eu rendro â chalch ar un adeg ond cerrig rwbel a thoeon llechi â bondoeau clos a welir bellach. Ceir gofodau afreolaidd rhwng y ffenestri codi. Roedd wal allanol Rhif 11, a wnaed o gerrig garw, yn rhan o fur y dref.

4.4.39 Mae'r adeiladau masnachol mawreddog o amgylch pen uchaf Northgate yn dueddol o fod yn rhai trillawr ac, mewn rhai achosion, tai trefol o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oeddent.



4.4.40 Ar Westgate House, tŷ trefol â wyneb plastr ar ddiwedd y teras, gwelir simnai fach wedi'i rendro sydd wedi goroesi yn y pen gorllewinol. Adeilad trillawr â phum ffenestr bae ydyw, sy'n nodweddiadol o eiddo masnachol heb flaen siop penodedig. Ceir ffenestri codi corniog â phlatwydrau a ffenestri crymion ar yr ail lawr. Mae'r Lion Hotel gerllaw, sydd bellach yn gweithredu fel caffi ac ystafelloedd te, yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (y cyfnod Sioraidd hwyr). Erbyn 1857, roedd ganddo 13 o ystafelloedd gwely a stablau gyda mynediad i goetsis drwy fwa ar y wal flaen sydd wedi'i gau erbyn hyn.






4.4.41 Caiff y rhan fwyaf o loriau gwaelod eiddo ar y Stryd Fawr eu defnyddio at ddibenion manwerthu a masnachu, ac mae ffenestri codi, gan gynnwys ffenestri â phaenau llai o faint o'r cyfnod Sioraidd, wedi goroesi ar y lloriau uchaf. Mae blaenau siopau gwreiddiol o'r cyfnodau Sioraidd a Fictoraidd i'w gweld o hyd ac maent yn

ychwanegu'n fawr at gymeriad y strydlun, y diddordeb ynddo a'r ymdeimlad o dreftadaeth. Pren wedi'i baentio yw blaenau'r siopau hyn fel arfer, a cheir manylion addurnol i bilastrau a chornisiau a barrau gwydr tenau. Nid yw arwyddion cynnil a ystyriwyd yn ofalus yn tynnu oddi wrth gyfaredd blaenau siopau gwreiddiol.








4.4.42 Fodd bynnag, mae nifer o enghreifftiau o flaenau siopau o ansawdd gwael hefyd ynghyd ag arwyddion siopau gwael ac amhriodol sy'n tynnu oddi wrth gymeriad yr ardal ac nad ydynt yn cynnwys y manylion coeth a welir ar y rhai gwreiddiol.

4.4.43 Yn aml, blaenau siopau gwelir manylion trwsgl heb unrhyw ddyfnder, darnau o bren neu upvc sy'n rhy fawr a chornisiau neu gorbelau heb unrhyw fanylion arnynt. Yn aml, byddant hefyd wedi'u paentio mewn lliwiau llachar ac efallai y gwelir arwyddion eu bod wedi'u gwneud o ddeunyddiau modern sy'n cynnwys llythrennau mawr. Gyda'i gilydd, gall y rhain ddominyddu'r strydlun mewn ffordd anghydnaws.



4.4.44 Caiff y Stryd Fawr ei bywiogi gan yr amrywiaeth o doeon, lliwiau a ffasadau adeiladau a welir. Caiff ei hunoli gan leiniau bwrdais cul, rhythm a chysondeb ffryntiad y stryd a manylion dylunio treftadaeth a gwreiddiol. Mae bylchau cul rhwng eiddo a thramwyfeydd yn rhoi mynediad i gerddwyr i'r gogledd a'r de oddi ar y Stryd Fawr.






*Mae Willings Passage (chwith) yn arcêd siopa cyhoeddus ond credir ei fod wedi rhoi mynediad gwasanaeth preifat i 11 y Stryd Fawr yn flaenorol.*

4.4.45 Ymhellach i'r dwyrain, mae'r stryd yn lledu i Orielton Terrace, a elwir hefyd yn 'Chain Back' ar yr ochr ogleddol. Lleolir Chain Back ar lefel uwch na'r Stryd Fawr a cheir cymysgedd o adeiladau deulawr a thrillawr. Mae'r pâr nesaf o dai yn adeiladau trillawr uwch sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diffinnir y newid yn lefel y ffordd rhwng y Stryd Fawr a Chain Back gan wal gynhaliol o gerrig lleol â rheiliau haearn sy'n darparu rhwystr uwchlaw lefel y ddaear. Diffinnir ffiniau blaen adeiladau Chain Back gan waliau cerrig a rheiliau sy'n wahanol i'r hyn a welir ar y Stryd Fawr lle mae blaenau adeiladau wedi'u lleoli'n uniongyrchol y tu ôl i'r palmant.



4.4.46 Mae Chain Back yn arwain at ardal East Back a wahenir oddi wrth y Stryd Fawr gan ynys Hamilton Terrace, a leolir ar safle marchnad San Mihangel. Nid yw'r eiddo yn East Back yn dangos yr un mawredd ag eiddo'r Stryd Fawr ac mae'r adeiladau yn gymharol fach ac yn swyddogaethol o ran cymeriad. Mae ei chymeriad diwydiannol i'w weld o hyd gan gynnwys yr hen ofaint / siop peiriannwr yn 10-12 East Back. Mae'n amlwg bod traffig yn dominyddu yn East Back.







4.4.47 Ceir cysylltiad cynhenid rhwng y datblygiadau a welir ar The Parade a Commons Road â'r Stryd Fawr, drwy lwybrau troed, Willing’s Passage, The Drangway a New Way, a symudiad cerbydau. Mae'r datblygiadau hyn yn gefnlen i The Commons gydag adeiladau sydd naill ai'n cael eu defnyddio gan y gymuned a'r cyhoedd neu at ddibenion busnes neu breswyl. Mae meysydd parcio mawr yn rhoi mynediad i'r Stryd Fawr.





4.4.48 Mae eiddo preswyl ar The Parade yn ceisio adleisio'r cyfraneddau cymedrol a'r manylion a welir yn East Back, ond mae'r ffenestri yn anghydnaws.

4.4.49 Ar Commons Road a Rock Terrace, ceir datblygiadau modern a hanesyddol.
Yma, gwelir enghreifftiau o Furiau'r Dref sy'n debygol o ddyddio o'r ddeuddegfed ganrif ac a oedd yn cynnwys tyrrau canoloesol, a gasebo ac odyn galch yn ddiweddarach. Mae'r muriau o gerrig rwbel, a adeiladwyd yn rhannol ar greigwely, yn rhan o gymeriad unigryw Penfro.





*Mae 5 Common Road yn dŷ o ddechrau neu ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd ar waelod llain bwrdais ac wedi'i gysylltu â Muriau'r Dref. Muriau rwbel wedi'u paentio â rendr a ffenestri pedwar paen.*

4.4.50 Lle mae'r ardal nodwedd hon yn cyfarfod â Llyn y Felin i'r gogledd, mae waliau cerrig, rheiliau a llwybr yn cadarn ymyl sy'n cydredeg â Muriau'r Dref. Dim ond yn y pen gorllewinol y ceir datblygiadau gweladwy. Yn y fan hon, mae datblygiad manwerthu modern ymwthiol ar ffurf bocs sgwâr yn amharu ar y golygfeydd o'r llwybrau cyhoeddus a phont Northgate. I'r gorllewin o'r Bont yng Nghei'r De mae potensial i adfer adeiladau gwag a'u defnyddio mewn ffordd hyfyw eto, ac ystyried mynediad uniongyrchol i Lyn y Castell.





**Ardal 5 Crynodeb ac Argymhellion**

**Lleolir y castell ar dir uchel ac mae hyn, ynghyd â'i faint, yn golygu ei fod yn amlwg mewn llawer o olygfeydd o fewn yr Ardal Gadwraeth ac yn y rhan fwyaf o'r golygfeydd o'r tu allan i'r ardal. Mae'r Stryd Fawr yn ardal nodwedd barhaus o'r gorllewin i'r dwyrain, gan gynnwys y lleiniau bwrdais a'r adeiladau ar ymyl Muriau'r Dref. Mae'r Stryd Fawr yn goleddu wrth iddi deithio tua'r dwyrain ac mae hyn yn cyfyngu ar olygfeydd agos o'r castell o'r tu mewn i Furiau'r Dref.**

**Ystyried y potensial i adfer adeiladau yng Nghei'r De a darparu mynediad uniongyrchol i'r dŵr yn Llyn y Castell.**

**Mae'r adeiladau Sioraidd ar hyd y Stryd Fawr, a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion masnachol, y llwybrau, y lleiniau bwrdais a Muriau'r Dref, yn elfennau allweddol o gymeriad yr ardal.**

**Mae'r adeiladau, sy'n cynnwys amrywiaeth o arddulliau a ffasadau, yn cadw diddordeb. Dylid sicrhau y cedwir unrhyw fanylion traddodiadol wrth ymgymryd ag unrhyw waith adnewyddu ac ailddatblygu.**

**Dylid sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir ar dir y cyhoedd yn parhau i fod yn gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal a dylid ceisio defnyddio cyn lleied o ddyluniadau ac arddulliau modern â phosibl neu eu disodli.**

**Dylid ceisio dod o hyd i ddefnyddiau amgen a hyfyw ar gyfer adeiladau gwag gan mai dyma'r ffordd orau o sicrhau eu bod yn cael eu hatgyweirio a'u cynnal a chadw. Wrth wneud hynny, mae angen cadw diddordeb yn y strydlun hefyd.**

**Mewn rhai achosion, mae blaenau siopau yn anghydnaws â chymeriad yr ardal a, phan fydd cyfleoedd yn codi i adnewyddu blaenau siopau neu osod blaenau siopau newydd, dylid sicrhau bod hunaniaeth gref a manylion traddodiadol yn gydnaws â'r ardal nodwedd a bod manylion hanesyddol yn cael eu cadw.**

**Ni welir llawer o ddysglau lloeren yn yr Ardal Gadwraeth a dylid sicrhau bod y sefyllfa hon yn parhau.**

**Mae arddulliau ffenestri ac agoriadau ffenestri yn nodwedd benodol ac, os oes modd, ni ddylid gosod ffenestri upvc yn lle ffenestri traddodiadol gan fod hynny'n effeithio ar ansawdd arbennig yr ardal.**

## 4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth

*Mathau o Adeiladau*

4.5.1 Yr Henebion Cofrestredig yn yr Ardal Gadwraeth yw Castell Penfro a rhan o Furiau'r Dref, Tŵr Barnard a'r Tŵr Gasebo. 'Ystyrir bod Henebion Cofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol ac maent yn cwmpasu amrywiaeth eang o safleoedd archaeolegol. Nod cofrestru yw sicrhau diogelwch hirdymor safle'. Mae gan y dref nifer fawr o Adeiladau Rhestredig Gradd 2, yn ogystal ag adeiladau anrhestredig sy'n cyfrannu at y strydlun ac sy'n ychwanegu at y diddordeb yn yr Ardal Gadwraeth.

4.5.2 Ceir adeiladau a therasau unigol rhestredig ac anrhestredig y mae'n werth sôn amdanynt oherwydd y cyfraniad y maent yn ei wneud i gymeriad cyffredinol y dref. Mae hefyd nifer o fedyddfeini cyhoeddus o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r strydlun.

1. Devon House
2. Lake House, the Green
3. Greenwood House, the Green
4. Cartref – East Back
5. Mans Capel y Bedyddwyr
6. Y Stryd Fawr
7. The Hope Inn, East End Square, y Stryd Fawr
8. St Kevin, y Stryd Fawr
9. Neuadd Eglwys Priordy Cil-maen
10. Cyfadeiladau Priordy Cil-maen
11. Adeiladau allan yn East Back
12. Eglwys y Santes Fair ac Eglwys San Mihangel
13. Tŵr y cloc (Tŷ'r Cloc)
14. 81 y Stryd Fawr
15. Tŵr Barnard
16. Brick House, y Stryd Fawr
17. Elm Cottage, ac Elmside, East Back
18. 5 Common Road
19. Bedyddfeini yn East Back, y Stryd Fawr a'r Tŵr Cloc






*Bedyddfeini a'r Stryd Fawr ac East Back*

*Adeiladau Rhestredig*

4.5.3 Adeilad rhestredig yw un sydd wedi'i gynnwys ar Restr Statudol y llywodraeth o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Caiff yr adeiladau hyn eu diogelu gan y gyfraith ac mae angen caniatâd Cyngor Sir Penfro cyn y gellir ymgymryd ag unrhyw waith addasu, ymestyn neu ddymchwel. Mae Ardal Gadwraeth Penfro yn cynnwys 116 o adeiladau rhestredig, sef pedwar adeilad Gradd I, pum adeilad Gradd II* a 107 o adeiladau Gradd II. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**Adeiladau mewn perygl**

4.5.4 Mae nifer o adeiladau hanesyddol y mae angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio rheolaidd arnynt, gan gynnwys eiddo masnachol gwag yng nghanol y dref. Yn ogystal, mae sawl un o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad neu ddirywiad ac, o'r herwydd, gallent gael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Efallai y bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer Adeiladau Hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er y gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym.[16]

4.5.5 Mae'r arolwg diweddaraf o adeiladau mewn perygl (Medi 2014) yn nodi bod saith adeilad rhestredig mewn perygl a 14 o adeiladau dan fygythiad yn yr Ardal Gadwraeth.

Yr adeiladau mewn perygl (Medi 2014) yw:

1. Rhan o furiau canoloesol y dref, gan gynnwys dau dŵr canoloesol, gasebo ac odyn galch
2. Pileri gatiau a gatiau i Fynwent Eglwys San Mihangel
3. Eglwys San Mihangel
4. Rhif 16 East Back a'r siop gyfagos
5. Rhif 36 y Stryd Fawr
6. Rhifau 2-4 Northgate Street
7. Rhif 7 Northgate Street

Yr adeiladau dan fygythiad (Medi 2014) yw:

1. Waliau gerddi y tu ôl i Rhif 611 Westgate Hill
2. Rhif 3 Westgate Hill
3. The Lion Hotel, y Stryd Fawr
4. Blwch ffôn y tu allan i Neuadd y Dref
5. Waliau gogledd-ddwyreiniol a gorllewinol mynwent Eglwys y Santes Fair

[16] Gwefan Cadw http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?skip=1&lang=cy ym mis Medi 2016

6. Rhif 28 y Stryd Fawr
7. Waliau gerddi y tu ôl i'r maes parcio sydd y tu ôl i Rifau 27-35 y Stryd Fawr
8. Waliau gerddi y tu ôl i Rifau 37-43 y Stryd Fawr
9. Blwch ffôn y tu allan i wal gardd Hamilton House
10. Gatiau wal a physt gatiau blaengwrt Eglwys Annibynnol y Tabernacl
11. Gatiau a rheiliau Eglwys y Bedyddwyr Mount Pleasant
12. Capel y Bedyddwyr Mount Pleasant
13. Gatiau wal gerddi blaen Rhif 113 y Stryd Fawr
14. Barnard House a rheiliau a gât blaengwrt

4.5.6 Er bod cyflwr rhai adeiladau wedi newid o bosibl ers i'r arolwg gael ei gynnal, gall fod eiddo anrhestredig y mae angen gwneud gwaith arnynt.

*Adeiladau Anrhestredig / Positif Allweddol*

4.5.7 Yr argraff gyffredinol a geir yw bod amrywiaeth mawr o ran lled adeiladau, uchder toeon a lliwiau ffasadau a, gyda rhai eithriadau yn unig, mae'r eiddo yn cael gofal da ac maent mewn cyflwr da yn gyffredinol. Ceir crynodiadau sylweddol o adeiladau rhestredig ar y Stryd Fawr a Westgate Hill, gyda rhai ohonynt yn wynebu Commons Road. Mae'r mwyafrif ohonynt yn adeiladau rhestredig Gradd II.

4.5.8 Yn ogystal â'r nifer fawr o adeiladau rhestredig, mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys amrywiaeth o adeiladau anrhestredig sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau 'positif' hyn yn adeiladau unigol neu'n grwpiau o adeiladau y mae eu holl fanylion pensaernïol gwreiddiol, neu nifer fawr ohonynt, wedi goroesi, ac sy'n ychwanegu diddordeb a bywiogrwydd at olwg yr Ardal Gadwraeth. Yn eu plith mae adeiladau crefyddol, preswyl, dinesig a masnachol. Gweler adran 4.5.1 uchod.

*Deunyddiau Adeiladu a Manylion Lleol*

4.5.9 Ymhlith y deunyddiau adeiladau traddodiadol a ddefnyddiwyd o fewn yr Ardal Gadwraeth mae'r canlynol:

- Waliau: calchfaen lleol ar gyfer waliau, amrywiaeth o fowldinau plastr addurnol, waliau cerrig ar gyfer amgáu tir, ffasadau wedi'u rendro a rhywfaint o fanylion plastr.

- Toeon: mae toeon a dormerau o lechi naturiol, simneiau o frics coch a melyn neu galchfaen a theils crib llwyd o glai yn nodweddion amlwg yn y dref. Mae uchder y toeon yn amrywio. Gwelir dormerau neu oleuadau to ar rai adeiladau.

- Ffenestri: Ffenestri dormer taclus a welir yn gyffredinol a ffenestri oriel o bosibl ar y llawr cyntaf, y mae rhai ohonynt yn rhan o'r ffasâd. Mae ffenestri casment a ffenestri codi yn rhoi pwyslais fertigol yn bennaf. Ceir wahanol fathau o ffenestri - ffenestri codi â phedwar paen, rhai ffenestri codi â 12

paen, felly rhaid pwysleisio nad yw un disgrifiad pensaernïol yn ddigonol. Blaenau siopau Fictoraidd neu Sioraidd a welir yn bennaf.

- Drysau: canopïau cerrig addurnol ar draws mynedfeydd neu fynedfeydd plaen mewn rendr wedi'i baentio.

*Ymhlith y manylion lleol mae'r canlynol:*

- Rheiliau: amrywiaeth o reiliau a gatiau gwahanol o haearn gyr er nad ydynt yn amlwg ar y Stryd Fawr.

- Gwaith addurnol o haearn bwrw a haearn gyr: nwyddau dŵr glaw o haearn bwrw

*Blaenau siopau, hysbysebion ac arwyddion*

4.5.10 Ceir nifer o flaenau siopau sydd wedi'u haddasu'n rhannol neu'n gyfan gwbl yn ogystal â rhai enghreifftiau da o replicâu modern. Fodd bynnag, mae nifer o flaenau siopau wedi'u 'moderneiddio' gan ddefnyddio deunyddiau ac arddulliau amhriodol.

Ymhlith y problemau mwyaf cyffredin mae:

- Estyll tywydd rhy ddwfn sy'n celu nodweddion gwreiddiol.
- Y defnydd o liwiau llachar.
- Y defnydd o lythrennau plastig anaddas.
- Goleuadau amhriodol.
- Y defnydd o ddeunyddiau adeiladu amhriodol a ffenestri â phaenau mawr.
- Mae arwyddion ffordd a bocsys cyfleustodau yn difrïo adeiladau, yn enwedig yng nghyffiniau East Back ac East End Square

4.5.11 Er bod angen arwyddion ffordd a goleuadau traffig i reoli symudiad traffig a cherddwyr, cânt eu gosod weithiau wrth ymyl adeiladau rhestredig gan gyfrannu at yr annibendod gweledol sy'n tynnu oddi wrth yr adeiladau hyn.

**Ffactorau Negyddol (graddau'r ymwthio neu'r difrod)**

4.5.12 Mae nifer o elfennau sy'n tynnu oddi wrth gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl i'w gwella, gan gynnwys:

- Effaith gronnol addasiadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol sy'n golygu bod nifer sylweddol o nodweddion traddodiadol yn cael eu colli, gan erydu cymeriad a golwg arbennig yr ardal;
- Elfennau o fewn tiroedd y cyhoedd sydd wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n wael, gan gynnwys defnydd amhriodol o arwynebau caled, rheiliau gwarchod, biniau sbwriel a manylion;
- Datblygiadau a gwaith moderneiddio anghydnaws drwy gyfrwng gwaith adnewyddu;
- Addasiadau ansensitif i flaenau siopau gan gynnwys arwyddion a goleuadau

amhriodol ac annibendod ar y stryd drwy gyfrwng byrddau hysbysebu;
- Parseli o dir wedi'u hesgeuluso sy'n creu safleoedd gwag, eiddo gwag neu eiddo mewn cyflwr gwael sy'n eiddo i'r cyngor neu berchenogion preifat, datblygiadau ymwthiol nas awdurdodwyd, llwybrau troed mewn cyflwr gwael, gan gynnwys o amgylch y castell;
- Eiddo masnachol, crefyddol neu gymunedol sy'n wag ac y mae ei olwg yn dirywio;
- Mae'r Stryd Fawr yn rhan o'r rhwydwaith ffyrdd yn ne Sir Benfro. Mae'r cynnydd mewn traffig wedi arwain at lai o amwynderau i breswylwyr a cherddwyr. Er bod hyn yn ychwanegu at y fasnach sy'n mynd heibio, gall ceir barcio ar balmentydd ac arwain at effaith negyddol gyffredinol ar yr amwynderau sydd ar gael i breswylwyr ac ymwelwyr;
- Darperir toiledau mewn adeiladau iwtilitaraidd sy'n anghydnaws â'r cyd-destun hanesyddol
- Mae'r sbwriel a deflir wrth y fynedfa i'r dref yn effeithio ar ganfyddiadau pobl a golwg weledol y dref

4.5.13 Gellir lleihau'r colledion, yr ymwthio a'r difrod a welir cymaint â phosibl drwy roi sylw penodol i ddyluniadau sensitif, deunyddiau adeiladau cydnaws a maint datblygiadau.

4.5.14 Er bod y manylion pensaernïol ar y Stryd Fawr wedi goroesi i raddau helaeth, mae datblygiadau modern wedi'u cyflwyno'n raddol ar gyrion yr Ardal Gadwraeth. Mae trefniant paenau ffenestri wedi'i hailfodelu mewn rhai achosion ac mae blaenau siopau ac arwyddion siopau traddodiadol wedi'u colli. Gwelir nifer gynyddol o ffenestri upvc mewn rhai eiddo sy'n gwanhau'r effaith bensaernïol hanesyddol yn yr Ardal Gadwraeth.

4.5.15 Yn benodol, mae'r siop Co-op bresennol yn 6-10 y Stryd Fawr yn cynnig eiddo mewnlenwi anghydnaws o fewn y strydlun. Mae'r siop wrthi'n ailddatblygu safle gwag ar ben dwyreiniol y Stryd Fawr, ond ni wyddys sut y caiff y siop bresennol, sy'n eiddo preifat, ei defnyddio yn y dyfodol na ph'un a gaiff ei hailddatblygu.

### Ardaloedd Niwtral

4.5.16 Mae datblygiadau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth yn dueddol o gael effaith niwtral ar yr ardal - nid ydynt yn diogelu nac yn gwella ei chymeriad. Nodir rhai o'r ardaloedd/adeiladau hyn isod:

- The Parade
- Goose's Lane
- Rocky Park
- Woodbine Close
- Commons Road

4.5.17 Ynghyd â'r ffactorau negyddol a nodwyd, gall ardaloedd niwtral gynnig cyfleoedd posibl i wella'r Ardal Gadwraeth.

## 4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth

4.6.1 Saif Penfro ar frig cefnen o galchfaen wrth aber afon Penfro. Roedd llethrau'r dyffryn, sy'n disgyn i'r gogledd a'r de o'r gefnen, yn golygu bod modd amddiffyn y castell o'r safle hwn. Daw llawer o gymeriad yr ardal o'r castell a Muriau'r Dref, sy'n Normanaidd yn wreiddiol. Daliodd Poyer y castell ar gyfer y Brenin yn ystod yr Ail Ryfel Cartref ac, yn ddiweddarach, gorchmynnodd Cromwell iddo gael ei ddinistrio. Yn gyffredinol, roedd y dref gaerog yn cynnwys y Stryd Fawr hir a chul â lleiniau bwrdais y tu ôl iddi.

4.6.2 Pan gafwyd mynediad i ddyfrffordd Aberdaugleddau hwyluswyd y fasnach bysgota a'r fasnach arfordirol i mewn ac allan o'r dref, sefyllfa economaidd a barodd tan ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Defnyddiwyd llif yr afon ar gyfer gweithgareddau melino er na chafodd y felin ŷd ar Bont Northgate ei hailadeiladu yn dilyn tân yn y 1950au.

4.6.3 Mae'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu ei ffyniant economaidd ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Adlewyrchir y ffyniant hwn drwy'r amrywiaeth eang o adeiladau sy'n dyddio o ganol y 1700au hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif ar ymylon yr Ardal Gadwraeth ac mewn lleoliadau llai amlwg oddi mewn iddi. Mewn llawer o achosion, mae olion adeiladau cynharach wedi goroesi y tu ôl i ffasadau neu mewn isloriau ac ar loriau isaf. Y tu mewn i adeiladau, ceir claddgelloedd a simneiau wedi'u corbelu, gwaith panelu a grisiau sydd wedi goroesi sy'n ychwanegu'n sylweddol at gymeriad eiddo.

4.6.4 Oherwydd y topograffi, ni ellir gweld y dref yn ehangach fel arfer oherwydd y tir sy'n codi i'r gogledd a'r de. Ni ellir ei weld o leoliadau agosach ychwaith fel arfer oherwydd presenoldeb coed a gwrychoedd. Pan fo modd gweld y dref, mae'r golygfeydd yn cynnwys amrywiaeth ddiddorol o doeon o wahanol siapau a meintiau, gan gynnwys pigdyrau, a ffenestri dormer achlysurol â thoeon ar oleddf a simneiau o frics addurnol neu gerrig.

4.6.5 Mae'r adeiladau a welir yn amrywio ond ceir llawer o fanylion cyffredin a defnydd helaeth o ddeunyddiau lleol yn cynnwys calchfaen a brics coch o chwareli lleol, llechi llwyd/glas tywyll ar gyfer y toeon, ffenestri codi pren sy'n llithro i fyny sy'n rhoi pwyslais fertigol ac sydd wedi'u gosod 100mm i mewn o'r ffasadau, nwyddau dŵr glaw o haearn bwrw, gorffeniadau rendr, rhywfaint o fanylion plastr manwl, paent llachar a, lle mae ffryntiad strydoedd yn caniatáu hynny, gerddi blaen bach a amgeuir ag amrywiaeth o reiliau a gatiau o haearn gyr.

4.6.6 Mae gan derasau eiddo werth pwysig fel grŵp, gan fod mwyafrif y manylion sy'n gyffredin rhyngddynt wedi goroesi. Mae llawer o adeiladau unigol yn cyfrannu at ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth ac, er bod ffenestri upvc wedi'u defnyddio mewn rhai ardaloedd, mae llawer o'r manylion pensaernïol gwreiddiol wedi goroesi. Yr argraff gyffredinol a geir o ganol y dref a'r ardaloedd preswyl hanesyddol yw'r gyfaredd sy'n deillio o'r mathau amrywiol o adeiladau a welir ar hyd y strydlun.

4.6.7 Mae digon o fanylion traddodiadol wedi goroesi i sicrhau bod cymeriad a

diddordeb arbennig y dref yn amlwg o hyd ac, mewn llawer o achosion, gellir ailgyflwyno'r manylion tameidiog a gollwyd lle mae hynny wedi digwydd.

## Nodi Materion Cadwraeth

### 4.7 Amodau cyffredinol (Dadansoddiad SWOT)

4.7.1 Er bod mwyafrif yr adeiladau hanesyddol a threfluniau pwysig yn dal i fodoli, mae nifer o bryderon ynghylch eu dyfodol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae angen i'r Cynllun Rheoli hwn adeiladu ar gryfderau lleol penodol a rhinweddau cynhenid yr Ardal Gadwraeth, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ei dyfodol. Mae'r pryderon a'r problemau cyfredol wedi'u nodi mewn dadansoddiad 'SWOT' (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) isod.

4.7.2 Dyma grynodeb o'r materion allweddol sy'n bwysig i'r gymuned (a nodwyd drwy ymgynghori â'r cyhoedd) ac sy'n effeithio ar reolaeth yr Ardal Gadwraeth:

**Cryfderau:**

- Lleoliad cyffredinol y dref ganoloesol
- Castell Penfro, ei leoliad, ei gymeriad ffisegol a hanesyddol a'i dreftadaeth, a'i rôl wrth ddenu twristiaid i'r ardal
- Adeiladau hanesyddol a rhestredig sydd wedi cadw eu cymeriad traddodiadol a'u pensaernïaeth wreiddiol ac sy'n creu ymdeimlad cryf o le
- Adeiladau arwyddocaol sy'n rhoi ffocws clir i'r Ardal Gadwraeth
- Strwythur prin tref ganoloesol, sef castell a pherimedr tref amddiffynnol, muriau tir bwrdais a thyrrau achlysurol
- Gerddi bwrdeisi
- Mynediad i ardaloedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol drwy lwybrau cyhoeddus, glan y dŵr yn Llynnoedd y Felin, The Commons a'i ardaloedd chwarae
- Cydlyniad a hunaniaeth gymunedol gref a mynediad i'r ganolfan gymunedol yn The Foundry
- Nifer o grwpiau cymunedol gan gynnwys grwpiau cymdeithasol, amgueddfa a hanesyddol, casglu sbwriel, gofalu am Lyn y Felin a Llyn y Felin Uchaf a Choedwig Holyland, rheoli'r Castell a llwybrau cerdded, atgyweirio perimedr Muriau'r Dref
- Natur a bioamrywiaeth yn Llyn y Felin
- Gallu'r Stryd Fawr i fanteisio ar fasnach sy'n mynd heibio
- Atebolrwydd am gamau gweithredu sy'n ymwneud â ffasadau adeiladau hanesyddol, dulliau a deunyddiau a chynnal adeiledd hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth
- Cadw, gwarchod a chynnal a chadw mannau agored / cyfleusterau hamdden gan gynnwys Llynnoedd y Felin a The Commons
- Mwy o ymwybyddiaeth a balchder yn nhreftadaeth unigryw Penfro
- Adfer cymeriad hanesyddol gyda chanlyniadau deniadol gan gynnwys gwaith

adnewyddu diweddar drwy'r 'cynllun paentio' a'r 'cynllun blaenau siopau'
- Statws Ardal Gadwraeth
- Mae Penfro yn dal i fod yn gydnaws â'i lleoliad gwledig ac yn cadw nodweddion daearyddol / effaith unoli Castell Penfro a'r Stryd Fawr
- Llai o lifogydd ar The Commons

**Gwendidau:**

- Effaith gronnus addasiadau, estyniadau, deunyddiau newydd a manylion o ansawdd gwael i adeiladau hanesyddol sydd wedi arwain at golli nodweddion pensaernïol ac adeiledd gwreiddiol, gan niweidio cymeriad arbennig a golwg yr ardal;
- Diffyg gwaith cynnal a chadw a gofal priodol mewn perthynas â manylion treftadaeth;
- Nifer yr adeiladau rhestredig ac anrhestredig sydd mewn cyflwr gwael neu dan fygythiad;
- Adeiladau pwysig yn wag neu ddim yn cael eu defnyddio;
- Datblygiadau a gwaith atgyweirio / adnewyddu anghydnaws i adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth
- Mynediad cul a chyfyng i'r cyhoedd o'r gogledd i'r de drwy'r canol hanesyddol / arwyddion a gwaith cynnal a chadw o ansawdd gwael
- Traffig ymwthiol a thrwm ar hyd y Stryd Fawr, gan gynnwys cyflymdra a llygredd, diffyg lleoedd diogel i groesi'r Stryd Fawr a Westgate Hill, dirgrynu'n effeithio ar eiddo a rhwystrau o ganlyniad i barcio anghyfreithlon
- Diffyg gwaith hyrwyddo cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â hanes Penfro a'i Chastell
- Diffyg ymgysylltiad yr heddlu
- Prinder canllawiau neu fesurau gorfodi mewn perthynas ag adeiladau sy'n dirywio, ffenestri upvc, arwyddion goleuedig, erialau teledu, dysglau lloeren, ffenestri plastig, arwyddion priffordd / diffyg cymhelliant
- Arwyddion ar flaenau siopau gan gynnwys arwyddion goleuedig amhriodol
- Toiledau cyhoeddus wedi'u dylunio'n wael
- Golygfeydd i'r gorllewin wedi'u difetha oherwydd hen beiriannau a adawyd, a thuag at gefn y Stryd Fawr o The Commons
- Adeilad y Co-op
- Datblygiadau tai anaddas wedi'u caniatáu ar fannau gwyrdd (Rocky Park, Riverside, Bush Hill)
- Mae angen cynnal a chadw adeiladau hanesyddol yn dda / cynnal a chadw celfi stryd a defnyddio celfi newydd o safon briodol
- Diffyg buddsoddiad gan gynnwys mewn eiddo masnachol a domestig
- Diffyg canolbwynt yng nghanol y dref
- Difaterwch ac esgleustra mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r perimedr a'r lleiniau bwrdais a'r muriau yn ogystal â phwysau i ganiatáu datblygiadau amhriodol
- Diffyg mannau cyhoeddus ar y Stryd Fawr a chyfleusterau i blant (yr unig ardal

chwarae ar The Commons)

- Eiddo gwag, gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol, yn awgrymu tref anneniadol mewn cyflwr gwael
- Llai o weithgarwch sector cyhoeddus / arian cyhoeddus i ymgymryd â gwaith atgyweirio
- Diffyg amrywiaeth o ran siopau a busnesau
- Arweinyddiaeth wael a diffyg gweledigaeth

**Cyfleoedd:**

- Gwella'r broses o gynnal a chadw a rheoli adeiladau treftadaeth
- Rhagor o waith adfywio sensitif i safleoedd a threfluniau allweddol
- Uwchraddio tir y cyhoedd gan ddefnyddio agwedd addas tuag at gydlyniad a dyluniad y tir hwnnw'n gyffredinol ac ansawdd y deunyddiau a ddefnyddir, er mwyn atgyfnerthu a gwella cymeriad treftadaeth y dref
- Sefydlu grwpiau cymunedol a gwell cydweithredu rhwng grwpiau gweithredu lleol
- Ceisio arian grant hirdymor er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw
- Mynd i'r afael â phroblemau traffig ar y Stryd Fawr, gan gynnwys y posibilrwydd o newid llif y traffig neu ei phedestreiddio
- Cynyddu gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth a busnesau lleol a gwella'r ffordd y caiff y dref ei hyrwyddo i ymwelwyr a phreswylwyr drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau y tu hwnt i'r castell
- Ailddefnyddio safleoedd, gan gynnwys eiddo gwag a hen safle siop y Co-op, Eglwys San Mihangel a thir yr eglwys, mewn ffordd gadarnhaol.
- Adfer Muriau gwreiddiol y Dref a chadw'r ôl troed canoloesol
- Cynyddu diddordeb mewn treftadaeth a chodi ymwybyddiaeth o hanes cudd
- Tacluso arwyddion gan gynnwys arwyddion ffordd
- Gwella'r strydlun masnachol
- Adfer tir a gerddi e.e. gardd gymunedol ar dir y tu ôl i eglwys y Tabernacl
- Creu man agored fel canolbwynt yng nghanol y dref

**Bygythiadau:**

- Gwrthwynebiad i reolaethau priodol ar gynnal a chadw ac addasu adeiladau hanesyddol;
- Dyluniad amhriodol adeiladau, estyniadau, blaenau siopau ac addasiadau newydd;
- Dirywiad yn adeiledd tir y cyhoedd neu ddirywiad mewn arbenigrwydd lleol yn sgil gwelliannau annelwig, gwael;
- Dim digon o ddefnydd o dir ac adeiladau gwag a chynlluniau datblygu heb eu gweithredu o hyd / lleihad yn nifer y siopau
- Cynnydd yn y traffig a'i effaith a rheolaethau amhriodol dros draffig
- Mae sbwriel a storio sbwriel yn cael effaith negyddol

- Defnyddio deunyddiau o ansawdd gwael wrth ymgymryd â gwaith adfer neu ddatblygu
- Manylion hanesyddol amhriodol
- *Diffyg gwybodaeth a gwaith cynnal a chadw i adeiledd hanesyddol y dref, gan gynnwys muriau tir bwrdais a Muriau'r Dref ~~a~~*
- *Bygythiad wrth ddatblygiadau cefnwlad a allai gynnwys colli muriau perimedr a'r muriau bwrdais rhestredig.*
- Llai o gefnogaeth i fusnesau lleol a thwristiaeth yng nghanol y dref
- Colli cyfleusterau cymunedol
- Prinder arian
- Rheolaeth a phenderfyniadau gwael
- Ni chaiff coed newydd eu plannu yn lle coed sydd wedi'u torri neu sydd wedi'u colli / colli mannau gwyrdd
- All-lif i mewn i Lyn y Felin
- Datblygiadau sy'n difrïo apêl weledol y dref
- Golygfeydd wrth fynd i mewn i'r dref yn cael eu colli

## 4.8 Materion Cadarnhaol ac Asedau

4.8.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion treftadaeth cadarnhaol a'r asedau y mae angen eu diogelu:

- **Cymeriad cyffredinol yr Ardal Gadwraeth** sef cyfuniad o'i amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n cyfleu ac yn cynrycioli hanfod cymeriad yr ardal, gan gynnwys y berthynas rhwng y Castell a'r Stryd Fawr, The Commons a muriau'r dref; ei hadeiladau hanesyddol preswyl a masnachol a chymeriad cynhenid dyluniad y strydoedd a'r llwybrau cerdded o'r gogledd a'r de i'r Stryd Fawr.

- **Adeiladau unigol** o arwyddocâd hanesyddol sydd â'r potensial i fywiogi'r strydlun, megis y gwestai hanesyddol, siopau, capeli ac eglwysi, neuadd y dref a'r castell.

- **Blaenau arwyddocaol a grwpiau arwyddocaol** o adeiladau sy'n ffurfio strydluniau integredig ac amrywiol ac yn rhoi ymdeimlad o reolaeth a diffiniad i'r mannau a'r gofodau trefol nodedig, megis terasau tai trefol a blaenau masnachol y Stryd Fawr. Mae tua 106 o adeiladau rhestredig yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriad y dref.

- Mae **treftadaeth hanesyddol** y dref a'r rôl y mae wedi'i chwarae yn gwneud cyfraniad allweddol at yr ymdeimlad o le a chymeriad Penfro.

**4.9 Materion negyddol a phroblemau**

4.9.1 Mae'r canlynol ymhlith y prif faterion negyddol a phroblemau o fewn yr Ardal Gadwraeth:

- Adeiladau gwag a diffaith sy'n difrïo rhinweddau gweledol yr amgylchedd hanesyddol; nid ydynt ychwaith yn annog buddsoddiad newydd mewn adeiladau cyfagos na'r ardal yn gyffredinol. Mae diffyg cynnal a chadw yn golygu bod yr adeiledd yn dirywio'n gyflymach, a hynny yn ei dro yn llesteirio unrhyw fentrau adfywio, gan gynnwys methiant i glirio llystyfiant o furiau'r dref a muriau tir bwrdais.

- Mae rhai o'r siopau yn wag ac mae gan eraill le gwag ar y lloriau uchaf. Mae diffyg adenillion economaidd yn arwain at ddiffyg gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau amhriodol ac mae hyn yn effeithio ar amgylchedd gweledol a ffisegol y dref.

- Mae gwaith addasu ac atgyweirio gwael yn golygu bod rhai o rinweddau treftadaeth traddodiadol a chymeriad adeiladau a threfluniau wedi'u colli. Mae effaith gronnus cynifer o fân newidiadau yn cael effaith sylweddol ar adeiladau unigol a strydluniau cyffredinol.

- Defnydd o ddeunyddiau amhriodol wrth adnewyddu eiddo neu nodweddion treftadaeth. Mewn rhai achosion, mae cerrig lleol a allai gael eu defnyddio i ailadeiladu muriau yn cael eu symud allan o'r ardal.

4.9.2 Mae angen rheolaethau statudol, yn enwedig ar gyfer:

- newid ffenestri codi pren a rhoi ffenestri fframiau upvc ac o ddyluniad gwahanol yn eu lle;
- colli manylion pensaernïol a deunyddiau gan gynnwys gwaith atgyweirio o ansawdd gwael;
- y defnydd o rendr a gorffeniadau wal eraill sy'n anaddas ar gyfer adeiladau treftadaeth;
- gosod drysau ffrynt newydd gyda dyluniadau a gorffeniadau anaddas;
- tynnu mowldinau treftadaeth a manylion eraill;
- tynnu simneiau a photiau;
- agoriadau ffenestri anaddas a gwael o ran maint a ffenestri dormer;
- gosod erialau a dysglau lloeren;
- lleoliad a maint anaddas offer ynni adnewyddadwy.

# 5. Adolygiad o'r Ffiniau ac Argymhellion

*Cafodd y diwygiadau i'r ffin a nodir isod eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Ionawr 2018 ac maent wedi arwain at gynnydd cyffredinol ym maint yr Ardal Gadwraeth i tua 97 hectar. Gweler Atodiad 1 Mapiau o'r Ardal Gadwraeth.*

5.1.1 Ffurfir cymeriad ac ansawdd treflun tref ganoloesol Penfro yn bennaf gan gyfuniad o'r dref adeiledig, The Commons, Llynnoedd y Felin a'r castell.

5.1.2 Mae'r ffin yn gysylltiedig â'r ardal adeiledig hanesyddol a lleoliad y castell a Muriau'r Dref a'r Stryd Fawr yn benodol. Nid yw'n cynnwys ardaloedd o dirwedd ehangach nac yn gysylltiedig i raddau helaeth â nodweddion topograffyddol.

5.1.3 Caiff ymyl ddwyreiniol y ffin ei chysylltu'n rhannol â'r rheilffordd a'r adeiladau amlwg ar gylchfan East End cyn disgyn i lawr Well Hill. Mae'r ffin yn y fan hon yn cynnwys adeiladau â chymeriad hanesyddol ac, er nad yw'r busnes gosod teiars yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth, mae cysylltiad agos rhwng y safle hwn, The Commons a datblygiadau presennol yn East End. Dylid sicrhau bod unrhyw waith ailddatblygu a ganiateir yn y dyfodol yn diogelu neu'n gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid newid y ffin ar Well Hill.

5.1.4 Mae The Commons ei hun yn elfen hanfodol o gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid newid y ffin yn y fan hon er mwyn sicrhau bod cymeriad arbennig yr ardal hon yn cael ei gydnabod.

5.1.5 Mae'r ffin ar hyd ochr ddeheuol yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys The Commons, maes parcio West Street a chae cyfagos. Mae'r tir ymhellach i'r de yn Grove Hill ac i'r dwyrain o St Daniel's Hill yn adeiledig ac yn fodern i raddau helaeth. Nid yw'n cyfrannu at wella'r Ardal Gadwraeth ac er bod golygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth wrth i'r ffyrdd ddisgyn i Benfro, nid yw hynny'n ddigonol i warantu ei gynnwys o fewn y ffin. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r ffin yn y lleoliad hwn.

5.1.6 Mae Orange Gardens yn cynnwys rhwydwaith ffyrdd patrwm grid o fythynnod bach ar hyd strydoedd cul sy'n wynebu'r palmant. Y tu ôl i Owen Street, mae ffiniau'r eiddo, a all fod yn rhai deulawr neu drillawr, yn cyfarfod ag Orange Way. Er bod gan yr ardal hon gymeriad, mae wedi'i gwahanu oddi wrth y Stryd Fawr a Chastell Penfro. Cynigir y dylai ymyl The Commons barhau i fod yn ffin briodol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth yn y fan hon.

5.1.7 Ymhellach i'r gorllewin, gellir gweld y castell ar frig ymyl cefnen o galchfaen o ardaloedd adeiledig yn agos i Westgate Hill. Ceir llwybr troed o amgylch llyn y castell

sy'n rhoi mynediad i olygfeydd godidog i gyfeiriad Castell Penfro. Nid yw'r ffin yn dilyn nodweddion gweladwy yn dda yn y fan hon ac mae angen ei newid er mwyn sicrhau bod cwrtilau eiddo ac ardaloedd sy'n gefnlen i'r Castell yn cael eu cynnwys yn briodol.

5.1.8 Yn gyffredinol, nid oes digon o gymeriad pensaernïol o blaid cynnwys ardaloedd pellach o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth i'r gogledd o Lyn y Felin. Nid yw tai modern ac ysgol yn cyfrannu at gymeriad hanesyddol yr ardal. Ni ellir gweld y rhan fwyaf o'r datblygiadau o Lyn y Felin oherwydd y rhes o goed aeddfed wrth ymyl y llyn sy'n amharu ar y golygfeydd. Nid oes cydberthynas ofodol dda rhwng nodweddion unigol eraill fel y bont rheilffordd ar Golden Lane a'r Ardal Gadwraeth ac nid yw'r nodweddion hynny yn ddarostyngedig i bwysau i'w newid neu eu datblygu. Mae gan sawl eiddo sydd wedi'u lleoli'n agos at Lyn y Felin nodweddion hanesyddol a chynigir y dylid eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth, sef Rose Cottage, Golden Farm a The Dairy ar Golden Lane. Bydd hyn hefyd yn helpu i atgyfnerthu ymyl annatblygedig Llyn y Felin.

5.1.9 Wedi pwyso a mesur, ni ellir cyfiawnhau cynnwys ardaloedd helaeth pellach i'r gogledd o Lyn y Felin. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod cysylltiad rhwng y ffin a'r datblygiadau a welwyd ers i'r Ardal Gadwraeth gael ei dynodi'n wreiddiol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen mân newidiadau a chynnwys eiddo â nodweddion hanesyddol ar Golden Lane.

5.1.10 Tir i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth bresennol ac yn croesi'r llinell reilffordd i gynnwys Llyn y Felin Uchaf, Coedwig Holyland a therasau eiddo ar hyd Station Road a Holyland Road. Mae llawer o'r tir annatblygedig hwn yn Warchodfa Natur Leol a gydnabyddir fel amgylchedd unigryw. Nid oes gan yr eiddo ar Station Road ddigon o gymeriad i gyfiawnhau ei gynnwys yn yr Ardal Gadwraeth ac fe'i lleolir y tu hwnt i'r atalnod llawn a grëir gan Neuadd Eglwys San Mihangel.

5.1.11 Nid oes cysylltiad gofodol rhwng y tai teras ar Holyland Road a'r Ardal Gadwraeth ac er bod yna ambell eiddo â chymeriad, wedi pwyso a mesur, ni fyddai cynnwys rhesi unigol o dai teras yn cynhyrchu ffin ymarferol. Lleolir eiddo yn Rocky Park, sy'n gefnlen i'r Castell, o fewn yr Ardal Gadwraeth bresennol. Cynigir y dylid cadw'r ardal hon o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth er mwyn sicrhau bod safonau dylunio a datblygiadau yn adlewyrchu cyd-destun hanesyddol y lleoliad hwn.

5.1.12 Mae angen addasu ffin yr Ardal Gadwraeth rywfaint mewn mannau eraill er mwyn sicrhau bod eiddo a chwrtilau yn cael eu cynnwys yn briodol. Caiff newidiadau eu cynnig a'u trafod isod.

5.1.13 Fel rhan o'r broses Gwerthuso Cymeriad, cynhaliwyd arolwg trylwyr o ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o:

- Hanes yr ardal a'i datblygiad
- Golwg y gwahanol ardaloedd nodwedd
- Dadansoddiad o berthnasau gofodol
- Cyflwr ac adeiledd yr adeiladau
- Effaith lwyddiannus / negyddol arfer rheolaethau o fewn yr Ardal Gadwraeth

5.1.14 Mae'r broses o ailwerthuso ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth wedi nodi newidiadau arfaethedig, gyda diwygiadau er mwyn eithrio mannau o fewn y ffin lle nad yw adeiladau neu safleoedd yn rhan annatod o ansawdd a ffurf yr Ardal Gadwraeth ei hun mwyach, a chynnwys tir ac eiddo sydd yn cyfrannu at nodweddion arbennig yr ardal. Mae'r Map Diwygiadau i Ffiniau'r Ardal Gadwraeth yn Atodiad 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig i ffiniau Ardal Gadwraeth Penfro a drafodwyd yn gynharach yn y ddogfen Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth.

**Argymhellion Diwygio'r Ffiniau**

5.1.15 Mae datblygiadau modern wedi'u hadeiladu ar Ashdale Lane. Dylid alinio'r ffin yn y fan hon er mwyn eithrio eiddo modern nad yw'n cyfrannu at ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr ardal a sicrhau bod y tir na bu adeiladu arno sy'n wynebu Llyn y Felin yn aros o fewn yr Ardal Gadwraeth. Yn gyffredinol, dylai ffin yr Ardal Gadwraeth i'r gogledd o Lyn y Felin aros yn ddigyfnewid. Cynigir mân newidiadau sy'n alinio'n well â nodweddion ffisegol ac sy'n eithrio datblygiadau modern heblaw lle mae angen rheolaeth ardal gadwraeth er mwyn sicrhau na chaiff clustogfa werdd Llyn y Felin ei herydu ymhellach.

**Argymhelliad 1: bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod wedi'i halinio â ffiniau blaen 21-25 Springfield, gan gynnwys cwrtilau 22-24 The Green a'r ardal y tu ôl i Paradise Row. Ni ddylid cynnwys Rhifau 1 a 2 The Chardist ac ôl troed adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn Riverside Close. Cynigir y dylid diwygio'r ffin yn Riverside Accommodation a Woodbine Terrace er mwyn sicrhau ei bod wedi'i halinio â nodweddion cydnabyddedig. Ni ddylid cynnwys 1-6 Herons Reach, ac ôl troed adeiladu 63-81 Ashdale Lane. Dylid cynnwys eiddo ar Golden Lane, Rose Cottage, Golden Farm a The Dairy o fewn y ffin.**

Mabwysiadwyd yr argymhelliad hwn gan yr Awdurdod yn dilyn cyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2018.

5.1.16 Argymhellir y dylid ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth i'r gorllewin o'r Ardal Gadwraeth bresennol. Ar hyn o bryd, mae'r ardal hon yn cynnwys cefn gwlad agored, afon Penfro sy'n arwain at ddyfrffordd Aberdaugleddau, coetir, y datblygiad presennol ym Mhriordy Cil-maen (y mae llawer ohono eisoes wedi'i gynnwys yn yr Ardal Gadwraeth), Cartref Nyrsio Bush Hill a Garden Cottage, Bush Hill. Mae rhan o'r ardal hefyd wedi'i dynodi ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gyda'i

gilydd, mae'r ardaloedd hyn yn cwmpasu tir na bu adeiladu arno yng nghyffiniau'r Castell ac o fewn yr Ardal Gadwraeth ac maent yn ddimensiwn pwysig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Bydd angen i unrhyw waith datblygu a wneir yn yr ardal hon ac o fewn yr Ardal Gadwraeth yn y dyfodol gefnogi cymeriad arbennig yr ardal hon, a'i lleoliad.

**Argymhelliad 2: bod ffin yr Ardal Gadwraeth ger Llynnoedd y Felin yn cael ei hymestyn i gynnwys ôl troed cyfan adeilad rhestredig Fferm y Priordy a chaeau i'r gogledd a'r dwyrain o Ysgol Gynradd Sirol y Priordy. Cynigir y dylai'r ffin gael ei halinio â ffin ddwyreiniol Chwarel y Castell, Long Mains (er mwyn parhau i'w heithrio), i'r gogledd tuag at Ysgol Penfro (a pharhau i'w heithrio) a chynnwys Garden Cottage a Chartref Nyrsio Bush House, Bush Hill a chaeau i'r de lle mae'n cyfarfod â ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth.**

Mabwysiadwyd yr argymhelliad hwn gan yr Awdurdod yn dilyn cyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2018.

5.1.17 Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r ffin yn golygu cynnydd cyffredinol ym maint yr Ardal Gadwraeth, gan dynnu ffin gyfiawnadwy o gwmpas yr ardaloedd arbennig hynny sy'n parhau i fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffin yn cynyddu maint yr Ardal Gadwraeth i tua 98 Ha.

*Caiff y ffin ei hymestyn er mwyn sicrhau bod y nodweddion hynny sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'i lleoliad yn cael eu diogelu*

5.1.18 Er mwyn diogelu neu wella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn rhoi sylw i'r deunyddiau, arddull, manylion, ffurf, graddfa, to a llinell adeiladu bresennol, er mwyn iddynt fod yn gydnaws â'u hamgylchoedd. Dylai golygfeydd pwysig a mannau agored sy'n bodoli eisoes gael eu diogelu.

# 6. Crynodeb o'r Materion Dan Sylw

6.1.1 Mae'r gwerthusiad wedi nodi nifer o faterion sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Bydd y materion hyn, sy'n nodi cyfleoedd posibl i wella a diogelu'r ardal, yn sail i'r cynigion rheoli ar gyfer yr Ardal Gadwraeth.

### *Safleoedd ac adeiladau negyddol/niwtral*

6.1.2 Mae'r gwerthusiad wedi nodi adeiladau a safleoedd 'negyddol' penodol h.y. yr adeiladau a'r safleoedd hynny sy'n difrïo cymeriad arbennig a golwg yr Ardal Gadwraeth ac sydd felly'n cynnig cyfle i'w gwella. Hefyd, yn aml, ychydig iawn y mae datblygiadau mwy modern wedi'i gyfrannu at yr ardal o ran ei diogelu a'i gwella. O'r herwydd, mae llawer o'r adeiladau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi naill ai fel adeiladau neu safleoedd negyddol neu niwtral.

### *Colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol*

6.1.3 Mae llawer o'r adeiladau anrhestredig, a rhai o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth, wedi dioddef yn sgil colli manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol. Yn wahanol i adeiladau rhestredig ac adeiladau masnachol, fel arfer gall newidiadau i adeiladau preswyl anrhestredig yn yr Ardal Gadwraeth gael eu gwneud o dan hawliau datblygu a ganiateir, heb fod angen cael caniatâd cynllunio, oni bai bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol. O ganlyniad, mae canran sylweddol o'r adeiladau preswyl anrhestredig yn yr Ardal Gadwraeth wedi colli o leiaf rywfaint o'u nodweddion traddodiadol, gan wanhau cymeriad a golwg gyffredinol yr ardal. Mae'r golled gynyddol o ddeunyddiau adeiladu a manylion gwreiddiol yn parhau i erydu cymeriad a golwg yr ardal.

### *Cynnal a chadw adeiladau a'u hatgyweirio (Adeiladau mewn Perygl)*

6.1.4 Mae nifer o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio rheolaidd, yn enwedig yng nghanol y dref. Hefyd, mae llawer o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu waith cynnal a chadw ac, o'r herwydd, maent yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae Cofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor yn nodi bod saith adeilad rhestredig 'mewn perygl' a 14 o adeiladau 'dan fygythiad' yn yr Ardal Gadwraeth[17]. Mae'n bwysig bod cyflwr yr adeiladau hyn yn cael ei fonitro a, phan fydd ar gael, dylid blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodir fel rhai sydd mewn perygl mawr neu dan fygythiad ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor Sir. Efallai y bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer Adeiladau Hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym.[18]

[17] Ar ddyddiad yr arolwg ym mis Medi 2014

[18] Gwefan Cadw http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-

### *Rheoli datblygiadau newydd*

6.1.5 Nid yw rhai datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir am estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â datblygiadau mwy o faint. Mewn rhai achosion, mae datblygiadau modern wedi bod yn anghydnaws â chymeriad llinellol canol hanesyddol y dref.

### *Tir y cyhoedd*

6.1.6 Mae'r gwerthusiad yn dangos bod achosion ledled yr Ardal Gadwraeth o dir y cyhoedd a fyddai'n elwa ar welliannau dylunio a chynnal a chadw. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth amlwg yn y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd rhwng y prif strydoedd, sef Northgate Street a'r Stryd Fawr a The Commons, a mannau eraill o fewn yr Ardal Gadwraeth. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd hynny o dir y cyhoedd i ffwrdd oddi wrth y prif strydoedd yn fwy tebygol o gael eu hesgeuluso a'u cynnal a'u cadw'n wael. Gellir gweld hyn drwy ddiffyg gwaith atgyweirio yn yr ardaloedd hyn, sbwriel neu graffiti. Mae manylion hanesyddol ar dir y cyhoedd mewn perygl o gael eu dileu a'u disodli â dulliau a deunyddiau sydd naill ai'n anaddas neu'n anghydnaws. Mae lleoliad a dyluniad bocsys cyfleustodau yn fater sy'n peri pryder hefyd.

### *Mannau agored, tirlunio a rheoli coed*

6.1.7 Er bod y gwerthusiad wedi nodi mannau agored a gwyrdd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, mae strydoedd a mannau hefyd lle na welir ond ychydig iawn o dirlunio, os o gwbl. Efallai mai ffurf y stryd sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, mae gordyfiant anniben yn broblem ar The Parade. Mae angen cymryd gofal er mwyn sicrhau na fydd unrhyw waith i dynnu llystyfiant yn cael effaith andwyol ar strwythur a chyfanrwydd muriau hanesyddol. Er mai nodweddion trefol sydd i'r Ardal Gadwraeth yn bennaf, mae gwaith tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella llawer o'r mannau cyhoeddus a'r strydoedd drwy ychwanegu ansawdd a lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

6.1.8 Yn yr hinsawdd sydd ohoni, ychydig iawn o gyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw. Mae angen i gynigion gwella wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid allanol ac, ar yr un pryd, mae angen ymrwymiad parhaus gan y Cyngor i dalu'r costau refeniw blynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal mannau agored sydd wedi'u gwella.

grants/grants/historicbuildings/?skip=1&lang=cy ym mis Medi 2016

# 7. Monitro

7.1.1 Bydd yn ofynnol monitro ac adolygu Gwerthusiad Cymeriad yr Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau. Nid oes cofnod ffotograffig cyflawn wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

7.1.2 Bydd diweddariadau rheolaidd a ategir gan wybodaeth am Gynllunio / Adeiladau Rhestredig / Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) yn nodi'r rhan fwyaf o'r newidiadau datblygu, a gall ymchwil hanesyddol pellach i'r Ardal Gadwraeth fod yn fuddiol. Gall mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu engrafiadau a hen luniau fod yn ddefnyddiol i lywio'r gwaith o adfer eiddo a threfluniau treftadaeth yn gywir. Mae Cyhoeddiad Cadw ‘Penfro: Deall Nodweddion Trefol’ (2015) yn gyfeirbwynt defnyddiol ac mae wedi cael ei ddefnyddio i lunio'r ddogfen hon.

**Adolygiad Ffurfiol**

7.1.3 Dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen iddi gael ei hasesu yn erbyn deddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol a lleol sydd ar waith ar adeg yr adolygiad. Dylai'r adolygiad gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi'u gweithredu, a pha mor llwyddiannus y bu hynny;
- Nodi unrhyw faterion newydd y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu y mae angen cymryd camau gweithredu pellach neu wneud gwelliannau pellach mewn perthynas â nhw;
- Llunio adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

# Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Penfro



## 1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth

- Hanes hir sy'n gysylltiedig â Chastell Penfro a'r dref ganoloesol unigryw
- Muriau a Thyrrau'r Dref
- Nodweddion naturiol y tirlun a'r gefnen galchfaen waelodol sydd wedi dylanwadu ar ffurf y dref unigryw
- Patrwm strydoedd llinellol hanesyddol ar hyd y Stryd Fawr sy'n amlwg o hyd yn y dref fodern, heb strydoedd cefn nac ochrol.
- Adeiladau pwysig sy'n nodedig yn bensaernïol gan gynnwys Castell Penfro a'u lleoliad.
- Llwybrau troed o'r Stryd Fawr ac yn Llynnoedd y Felin, The Commons, Muriau'r Dref a'r Castell
- Golygfeydd pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth, allan ohoni ac ynni, gan gynnwys i gyfeiriad y Castell, Llyn y Felin a'r Cei ac oddi yno.
- Cymysgedd amrywiol o adeiladau hanesyddol o ran arddull, math a phensaernïaeth, y mae'r mwyafrif ohonynt yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnig amrywiaeth ddiddorol o adeiladau a llinellau toeon.
- Llawer o enghreifftiau da o adeiladau cymesur a chain o oes Siôr ac oes Fictoria y mae eu nodweddion a'u lliwiau traddodiadol wedi goroesi
- Enghreifftiau da o flaenau siopau gwreiddiol a hanesyddol.
- Y dyfrffyrdd, Llynnoedd y Felin a'r Ceiau, bywyd gwyllt a mannau agored a chyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Lleiniau bwrdais a muriau canoloesol
- The Commons, gan gynnwys yr amrywiaeth o goed
- Lle Penfro mewn hanes

## 2. Cynigion Rheoli

2.1.1 Mae'r gwerthusiad cymeriad wedi adnabod y nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig a gwahanol yr Ardal Gadwraeth ac y dylid eu diogelu a'u gwella. Mae'r cynigion rheoli canlynol yn adeiladu ar y nodweddion negyddol sydd hefyd wedi'u nodi, er mwyn darparu cyfres o faterion ac argymhellion ar gyfer gwella a newid. Bydd yn bwysig i Gyngor Sir Penfro roi'r argymhellion canlynol ar waith fel rhan o'i strategaeth reoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Penfro.

2.1.2 Bwriad y *Cynigion Rheoli* canlynol yw sicrhau bod cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael ei ddiogelu a'i wella, drwy ddarparu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar y materion a nodwyd yng *Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth*.

2.1.3 Mae'r cynigion yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella a pholisïau i osgoi newid niweidiol, y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am nifer ohonynt. Mae'r cynigion wedi'u llunio

gan wybod bod adnoddau'r Cyngor ar gyfer rheoli Ardaloedd Cadwraeth yn brin ac felly bod angen eu blaenoriaethu. Mae cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor yn golygu bod y cynigion y mae'n gyfrifol amdanynt yn debygol o gymryd mwy o amser i'w gweithredu nag sy'n ddymunol.

2.1.4 Dylid monitro ac adolygu Gwerthusiad Cymeriad yr Ardal Gadwraeth a'r Cynigion Rheoli yn rheolaidd. Bydd y ddogfen Gwerthusiad Cymeriad a Chynigion Rheoli yn eistedd ochr yn ochr â'r polisïau cadwraeth yn y CDLl ac yn ategu ei nod o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth y Sir.

### *Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral – cyfleoedd ar gyfer gwella*

2.1.5 Cynnig:

- Sicrhau bod adeiladau neu safleoedd negyddol / niwtral yn cael eu hailddatblygu gyda datblygiadau cyfoes neu draddodiadol a ddyluniwyd yn dda sydd naill ai'n diogelu neu'n gwella cymeriad unigol ardaloedd o fewn Ardal Gadwraeth Penfro. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd ystyried nodweddion pwysig a chymeriad yr ardal fel y'u hamlinellwyd yn y ddogfen hon. Caiff unrhyw ddyluniad gwael neu amhriodol ei wrthod.
- Pan nodir bod adeilad neu safle yn cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth, bydd y Cyngor yn ceisio gwella'r adeilad neu'r safle hwnnw.
- Bydd y Cyngor, ar ôl ymchwil a dadansoddi pellach, yn ceisio paratoi briffiau cynllunio a dylunio ar gyfer unrhyw safleoedd 'negyddol' amlwg.

### *Colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol*

2.1.6 Cynnig:

- Annog perchenogion eiddo i wrthdroi addasiadau anghydnaws ac ailosod nodweddion pensaernïol megis ffenestri, drysau a waliau terfyn ac ati ar adeiladau hanesyddol yn arddull a deunyddiau'r gwreiddiol, yn enwedig ffenestri ffrâm pren, simneiau a deunyddiau toi gwreiddiol.
- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau cynghori a nodiadau arfer gorau a fyddai o fudd i gynnal cymeriad hanesyddol a golwg yr ardal ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth a phwysigrwydd yr Ardal Gadwraeth.

### *Cynnal a chadw adeiladau a'u hatgyweirio (Adeiladau mewn Perygl)*

2.1.7 Cynnig:

- Parhau i ddiweddaru Cofrestr Adeiladau mewn Perygl 2014, sef cofnod o adeiladau rhestredig o fewn yr Ardal Gadwraeth sydd mewn perygl oherwydd esgeulustod a dirywiad. Ar hyn o bryd mae saith adeilad 'mewn perygl' a 14 o adeiladau 'dan fygythiad'.

- Monitro cyflwr yr holl adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, adrodd ar unrhyw ganfyddiadau a chynghori ar y camau y dylid eu cymryd yn ôl yr angen. Os bydd cyflwr adeilad yn achosi pryder, caiff camau priodol eu cymryd i sicrhau dyfodol yr adeilad, gan gynnwys y defnydd o bwerau statudol.

### *Rheoli datblygiadau newydd*

2.1.8 Nid yw rhai datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir am estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â datblygiadau mwy, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar leoliad yr Ardal Gadwraeth.

2.1.9 Cynnig:

- Caiff cynigion datblygu eu barnu yn ôl eu heffaith ar gymeriad a golwg yr ardal fel y nodir yng Ngwerthusiad Ardal Gadwraeth Penfro, ynghyd ag unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4, polisïau perthnasol o'r Cynllun Datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.
- Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro (a fabwysiadwyd yn 2013) ac unrhyw gynlluniau datblygu diweddarach.

### *Tir y cyhoedd*

2.1.10 Mae effaith tir y cyhoedd ar brofiad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth yn hollbwysig. Gall colli nodweddion hanesyddol a'r defnydd o ddeunyddiau a dulliau anghydnaws gael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal.

2.1.11 Cynnig:

- Gweithio gydag adrannau cynnal a chadw, priffyrdd a datblygwyr preifat i sicrhau bod gwaith dylunio, adeiladu a chynnal tir y cyhoedd o ansawdd uchel, gan ddefnyddio deunyddiau priodol sy'n cydweddu â chymeriad a chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.
- Gweithio gyda'r adran briffyrdd i fynd i'r afael ag effaith traffig ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.
- Bydd y Cyngor yn ystyried cynnal archwiliad o'r holl arwyddion ffordd a chelfi stryd yn yr Ardal Gadwraeth gyda'r bwriad o sicrhau dull mwy syml a chydlynus, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn 'Streets for All', gan gynnwys symud eitemau nad oes eu hangen, a defnyddio dodrefn stryd o ansawdd da, heb lawer o waith cynnal a chadw ac mewn safle da.
- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gyfer tir y cyhoedd.

### *Mannau agored, tirlunio a rheoli coed*

2.1.12 Mae'r gwerthusiad wedi nodi mannau agored a gwyrdd allweddol o fewn yr Ardal

Gadwraeth. Llynnoedd y Felin, y Castell a The Commons yw'r prif fannau agored. Mae ardaloedd bach caled wedi'u tirlunio yn amlwg ar draws yr Ardal Gadwraeth.

Cynnig:

- Sicrhau bod tirlunio addas yn rhan annatod o ddyluniad unrhyw ddatblygiad newydd, gan gynnwys gwaith ar dir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid rhoi caniatâd i gynigion datblygu oni bai bod eu dyluniad yn gwella tirluniad a bioamrywiaeth y safle.
- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gynnal a gofalu am goed yn yr Ardal Gadwraeth.
- Cadw ochr ogleddol Llyn y Felin ar gyfer cadwraeth natur a chynnal cymeriad Llyn y Felin.

***Blaenau siopau, arwyddion a hysbysebion***

2.1.13 Mae nifer o flaenau siopau hanesyddol mewn cyflwr da yn yr Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, mae arwyddion traddodiadol wedi'u colli ac mae blaenau ac arwyddion siopau mewn lliwiau modern anaddas wedi'u cyflwyno.

2.1.14 Cynnig:

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi Canllawiau ar gyfer Hysbysebion/Arwyddion a Blaenau Siopau.

# 3. Canllawiau polisi ac egwyddorion dylunio

## 3.1 Egwyddorion Dylunio

*3.1.1* Mae *'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy' CADW Mawrth 2011*, yn nodi chwe egwyddor allweddol. Yr egwyddorion hyn yw sail yr argymhellion polisi a rheoli sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon.

**Egwyddor 1 - Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd**
Rôl y ddogfen hon yw nodi'r materion allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli'r ardal;

**Egwyddor 2 - Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig**
Mae Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Penfro yn nodi, yn disgrifio ac yn lleoli cymeriad a golwg gwahanol rannau o'r ardal;

**Egwyddor 3 - Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir**
Mae adran 2 o'r ddogfen hon yn nodi polisïau a chanllawiau dylunio ar gyfer dyfodol yr holl adeiladau a mannau o fewn yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 4 - Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol**
Yn ogystal â'r canllawiau yn adran 2, gweler adran 5. Rhaglen Weithredu - Canllawiau ar gyfer Cyfranogiad Cymunedol;

**Egwyddor 5 - Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson**
Adran 4 – Mae'r Argymhellion Rheoli yn nodi'r gweithredoedd allweddol sydd eu hangen i gefnogi gweithdrefnau cynllunio cyfredol yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 6 - Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt**
Mae adran 4.5 – Monitro Newid yn rhestru dulliau o hysbysu'r gymuned a'r awdurdodau.

### 3.2 Cyd-destun datblygiad yr ardal gadwraeth

Mae'r ddogfen **Gweledigaeth i Sir Benfro hyd 2021** yn anelu at greu:

> *"...Sicrhau bod Sir Benfro yn ffyniannus a'i bod yn parhau i fod yn fywiog ac yn arbennig drwy greu: rhwydwaith o gymunedau trefol a gwledig cryf mewn Trefi Ffocws, Canolfannau Gwasanaethau, Gwasanaethau a Phentrefi Lleol a gefnogir gan economi gadarn, cynaliadwy, amrywiol sy'n ychwanegu gwerth uchel a ategir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, mynediad morol at Ddyfrffordd Aberdaugleddau a Harbwr Abergwaun a chyfleoedd ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol."*

3.2.1 Mae gan tref Penfro y potensial i chwarae rôl arweiniol yn y broses o wireddu'r weledigaeth hon.

### 3.3 Polisi Datblygu ac Egwyddorion Dylunio Ardal Gadwraeth

3.3.1 Mae dynodiad Ardal Gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel ac yn rhoi rheolaeth gryfach dros ddatblygiad gyda'r nod o ddiogelu a gwella diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Bydd angen i unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu o fewn Ardal Gadwraeth gael Caniatâd Ardal Gadwraeth. Dylid sicrhau bod darluniadau manwl a llawn ar gael i gefnogi'r holl geisiadau ynghyd â chynigion tirlunio manwl, pan fo hynny'n angenrheidiol. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau i asesu'r cynnig a'i effaith ar yr Ardal Gadwraeth mewn ffordd briodol. Dylid darllen y rhain ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd a chanllawiau cynllunio atodol perthnasol.

3.3.2 Mae polisïau sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn Sir Benfro ar gael yn y CDLl a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2013. Mae'r CDLl yn parhau i bwysleisio ac atgyfnerthu pwysigrwydd Polisïau Cadwraeth y sir

ac yn nodi canllawiau a blaenoriaethau clir.

3.3.3 Bydd angen cysylltu polisïau a chanllawiau dylunio cyffredinol a lleol, cyngor dylunio i'r Ardal Gadwraeth gyfan ac argymhellion ar gyfer safleoedd penodol, gyda'r Cynllun Datblygu fel canllawiau cynllunio atodol. Bydd angen diogelu'r asedau cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn adran un, a datrys neu gyfyngu ar y problemau negyddol.

**3.4 Canllawiau Dylunio ar gyfer Gwella Adeiladau Presennol**

3.4.1 Gall addasiadau modern amhriodol gael effaith andwyol ar gynildeb, cydbwysedd a maint drychiad adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol i adeiledd adeiladau hanesyddol. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol pwysig sydd dan fygythiad yn sgil newidiadau o'r fath mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a fframiau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw, a simneiau a photiau simnai. Felly, mae'n bwysig bod perchenogion eiddo a phreswylwyr yn mabwysiadu'r ymagwedd gywir tuag at atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn.

3.4.2 Mae'r nodiadau canlynol yn amlygu'r prif ystyriaethau mewn perthynas â rheoli datblygiadau a chynnal neu ailosod cydrannau treftadaeth o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r gwefannau canlynol, gan Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, Historic England a Cadw, yn cynnwys cyngor pellach ynglŷn â sut y dylid cynnal gwaith atgyweirio ac ailosod:[19]

- www.ihbc.org.uk/page55/ihbc_publications/index.html
- http://www.maintainyourbuilding.org.uk/main/
- https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice/buildings/maintenance-and-repair-of-older-buildings/
- http://www.maintenancematterswales.org/

3.4.3 Deall effaith unrhyw newidiadau yw'r allwedd i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith heb sefydlu:

- Pam ei fod yn angenrheidiol;
- Beth mae'n ceisio'i gyflawni;
- A oes posibilrwydd y bydd unrhyw ganlyniadau niweidiol.

3.4.4 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid asesu pob safle yn nhermau ei gyfraniad at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei werth hanesyddol, y math o adeiladu a pherfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i'w hadeiledd. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol

[19] Mae'r cyfeiriadau gwe yn gywir ym mis Tachwedd 2015

gan bensaer, cynlluniwr neu swyddog cadwraeth sydd â phrofiad o weithio gydag amgylcheddau hanesyddol. Hyd yn oed yn achos y prosiectau symlaf, mae'n hanfodol deall sut mae adeilad penodol yn 'gweithio' o ran ei hun ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylid sicrhau bod cynllun cadwraeth cynhwysfawr a manwl yn ei le cyn dechrau gweithio ar adeiladau mwy o faint ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol. Nid yw dynodiad ardal gadwraeth yn rhwystro newid ond yn hytrach mae'n ffurfio fframwaith y gall y dref ddatblygu o'i fewn heb golli unrhyw nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig.

**Cynnal a Chadw**

3.4.5 Gwaith cynnal a chadw cyson yw'r ffordd orau a mwyaf darbodus o ofalu am adeiledd adeilad. Cyfrifoldeb y perchenogion a'r preswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad y gofelir amdano yn cadw ei werth ac ni fydd angen atgyweiriadau drud. Diogelu'r adeilad rhag effeithiau dŵr a lleithder yw'r mater pwysicaf. Toeon, cwteri a phibellau dŵr ddylai gael eu hatgyweirio gyntaf. Dylai perchenogion adeiladau mawr ystyried llunio cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

***Atgyweirio a Chynnal a Chadw***

3.4.6 Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am waith atgyweirio sylweddol i bob adeilad. Dylid bob amser asesu'n gyntaf a oes modd atgyweirio nodweddion gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau wrth reswm yn dod i ddiwedd eu hoes, a bydd yn rhaid ystyried pa ddeunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio dibynadwy y dylid eu defnyddio. Os na wneir hyn, bydd gwerth hanesyddol adeiladau unigol yn diflannu a gyda hynny, ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Diben atgyweirio unrhyw adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yw rhwystro, neu o leiaf arafu, y broses ddirywio heb niweidiol neu addasu nodweddion sy'n cyfrannu at ei phwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol.

3.4.7 Mae'r egwyddorion atgyweirio canlynol yn fan cychwyn da ar gyfer deall y ffordd yr eir ati i atgyweirio adeiladau hanesyddol a'r athroniaeth sy'n gysylltiedig â hynny.

- *Lleihau Ymyrraeth:* Mae'n rhaid sicrhau bod cyn lleied o ymyrraeth â phosibl er mwyn sicrhau goroesiad hirdymor yr adeilad. *Osgoi niwed diangen:* Mae dilysrwydd adeilad hanesyddol yn dibynnu ar gyfanrwydd ei adeiledd. Bydd cael gwared ar adeiledd hanesyddol a rhoi adeiledd newydd yn ei le, waeth pa mor ofalus y gwneir hynny, yn cael effaith andwyol ar olwg adeilad, yn lleihau ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth hanesyddol ac yn erydu arbenigrwydd lleol.
- *Dadansoddi achos y diffygion:* Mae atgyweirio neu ailosod deunydd pydredig heb ddeall pam mae angen ei ailosod yn gallu arwain at broblemau pellach.
- *Gadael i'r adeilad 'anadlu':* Mae'r rhan fwyaf o adeiladau modern wedi'u

gwneud o ddeunyddiau caled, cryf ac anhydraidd. Maent yn dibynnu ar rwystrau ffisegol fel cyrsiau gwrthleithder a philenni, waliau ceudod a chladin i gadw lleithder allan. Mae adeiladau hanesyddol a thraddodiadol yn wahanol iawn. Mae gan lawer ohonynt waliau solet ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt adeiledd hydraidd sy'n amsugno lleithder, sy'n golygu wedyn bod angen i'r lleithder hwnnw anweddu, h.y. 'anadlu'. Bydd atgyweirio adeiladau o'r fath gyda deunyddiau caled, anhydraidd yn achosi niwed i adeiledd sydd o bosibl wedi goroesi am gannoedd o flynyddoedd. Mae'n bwysig iawn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel yn unig, gyda thechnegau dibynadwy. Gellir ystyried y bydd deunyddiau rhad, modern fel plastig yn cynnig manteision yn y byrdymor, ond bydd cymeriad a golwg yr ardal yn dioddef yn yr hirdymor. Mae angen defnyddio deunyddiau traddodiadol a fydd yn diflannu i'r cefndir gydag amser a thywydd. Dylid bob amser asesu pa waith atgyweirio, adfer a gwella sydd angen ei wneud o fewn cyd-destun yr adeilad cyfan; nid yw'n ddigonol ystyried blaen yr adeilad (ffasâd) neu flaen siop yn unig.

**Toeon**

3.4.8 Mae toeon ardal drefol yn ffurfio nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Mae'r cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a maint yn creu'r 'het' sy'n eistedd uwchben yr adeilad ac sy'n bwysig i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion bob amser i'w gweld o lefel y stryd, mae topograffi Penfro yn golygu bod modd edrych dros y toeon o'r Castell a'r ardal ehangach. Mae cysondeb, unffurfiaeth a chyfanrwydd toeon gwreiddiol y dref wedi'u colli wrth i bobl ddefnyddio deunyddiau gwahanol a dymchwel simneiau a photiau simnai. Mae'r golled i'w gweld yn glir pan fydd enghreifftiau gwreiddiol yn dal i'w gweld ochr yn ochr â'r adeiladau sydd hebddynt. Wrth reswm, mae'r to yn rhan hanfodol o adeilad, gan amddiffyn yr adeilad rhag y tywydd ac, o'r herwydd, dyma un o'r rhannau mwyaf allweddol sydd angen ei chynnal a'i chadw a'i hatgyweirio'n rheolaidd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i adfer a gwella'r to fel rhan o'r gwaith arferol o ofalu am yr adeilad.

***Deunyddiau Toi***

3.4.9 Llechi naturiol o Gymru yw'r prif orchudd ar doeon adeiladau traddodiadol ym Mhenfro, a dylid defnyddio'r llechi hyn wrth atgyweirio toeon neu osod rhai newydd. Dylid defnyddio morter calch naturiol wrth osod unrhyw gribau, ymylon a manylion eraill. Ni ddylid defnyddio clipiau plastig neu debyg. Nid yw teils concrit a chlai yn briodol ar adeiladau treftadaeth. Heblaw am edrych yn fwy garw, maent yn pwyso cryn dipyn yn fwy na'r llechi gwreiddiol ac mae hynny yn ei dro yn achosi problemau i'r strwythur pren sy'n cynnal y to. Mae mewnforio llechi naturiol sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu las arbennig y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy costeffeithiol ond mae'n bwysig chwilio am lechi sy'n dod o chwarel ddibynadwy er mwyn osgoi problemau hirdymor wrth i'r llechi hindreulio. Er ei bod yn anodd weithiau gwahaniaethu rhwng llechi artiffisial newydd a rhai naturiol, mae llechi artiffisial yn hindreulio mewn ffordd wahanol a, thros amser, daw'n amlwg eu bod yn wahanol i'r llechi gwreiddiol. Os

rhoddir deunydd inswleiddio yn y to, dylai fod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, a dylid gofalu bod awyriad digonol (drwy dyllau dan y bondoeau, ac nid awyrellau penodol wedi'u gosod yng ngoleddf y to).

3.4.10 Bydd deunydd inswleiddio ar ben y trawstiau'n codi proffil y to ac yn achosi problemau posibl ger y bargodion a hefyd lle mae'n ffinio ag adeiladau cyfagos. Fodd bynnag, mae cyflwyno llawer o ddeunydd inswleiddio mewn adeiladau hŷn yn gallu achosi cyddwysiad a all, yn ei dro, arwain at bydredd.

### *Ffenestri to a dormer*

3.4.11 Os oes rhaid wrth ffenestri to neu ddormer mewn llofftydd sydd wedi'u troi'n ystafelloedd, dylid eu gosod ar gefn yr adeilad gan eu bod yn amharu ar nenlinell ddi-dor y toeon ar yr ochr sy'n wynebu'r stryd. Dylid osgoi gosod ffenestri dormer newydd lle y bo'n bosibl gan eu bod yn cael effaith andwyol ar broffil y to a graddfa a chydbwysedd ffurf a maint yr adeilad. Lle mae ffenestri to gwreiddiol yn bodoli, dylid osgoi gwneud unrhyw newidiadau i'w cyfrannedd a'u maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern, gwydr dwbl o ffenestri to haearn bwrw cynnar (gan sicrhau bod y cyfrannedd a'r maint yn gywir, ynghyd â bar gwydro fertigol) er mwyn cadw cymaint â phosibl o gymeriad y to.

### *Simneiau a Photiau Simnai*

3.4.12 Mae simneiau a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simneiau a'u hatgyweirio gyda photiau clai newydd yn ôl yr angen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i beiriannydd strwythurol archwilio sadrwydd rhai simneiau uchel. Os yw'r simnai wreiddiol wedi cael ei lleihau o ran maint (gyda slabiau concrit yn aml ar ei phen), yna dylid ei hailadeiladu i'w huchder gwreiddiol. Os nad oes tystiolaeth o batrwm y simnai wreiddiol, dylid cadw'r steil mor syml â phosibl, gan roi cyrsiau corbelaidd bargodol ar y pen. Os yw'n bosibl, dylid osgoi defnyddio brics concrit ac ni ddylid rendro simneiau. Dylid gosod sêl blwm (yn yr uniad rhwng yr arwyneb fertigol a'r deunydd toi) rhwng y simnai a'r to yn y dull traddodiadol ac yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Dalenni Plwm.

### *Cwteri a phibellau dŵr*

3.4.13 Dylid ystyried defnyddio cwteri haearn bwrw (neu alwminiwm bwrw) traddodiadol wrth atgyweirio adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio cwteri hanner cylch syml ar adeiladau cynharach bob amser. Mae cwteri hanner cylch a chwteri patrwm ogee yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Ychydig iawn o gwteri a phibellau dŵr gwreiddiol sydd ar ôl, gyda'r mwyafrif wedi'i disodli gan uPVC neu, mewn ychydig o achosion, gan alwminiwm allwthiol. Fodd bynnag, nid yw'r deunyddiau hyn mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac nid ydynt cystal am wrthsefyll effeithiau tywydd garw.

***Ffenestri a gwydriad***

3.4.14 Ffenestri yw 'llygaid' adeilad ac o'r herwydd maent yn rhan ganolog o gymeriad tŷ. Mae'r ffenestr godi ddwbl yn nodweddiadol o fwyafrif yr adeiladau a adeiladwyd cyn dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn yr ardal hon, mae ffenestri gasment ochr neu grog yn nodweddiadol o adeiladau mwy diweddar yn unig. Yn ddieithriad mae newidiadau i faint agoriad ffenestri neu'r ffenestri eu hunain yn cael effaith andwyol ar wyneb yr adeilad. Dylid osgoi defnyddio awyrellau diferu, gan eu bod yn cael effaith andwyol ar gymeriad adeiladau.

3.4.15 Dylid ceisio cadw a thrwsio ffenestri codi gwreiddiol bob amser, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml iawn y bydd yn rhaid gosod ffenestri newydd. Mae dirywiad fel rheol yn digwydd ar rannau gwaelod ffenestri, a gellir asio darnau newydd o goed at yr hen goed. Mae'r gwydr coron neu silindr gwreiddiol yn deneuach ac yn fwy anwastad ei arwynebedd na gwydr modern. Mae'n rhoi adlewyrchiadau mwy cynnil a lle mae'r gwydr gwreiddiol wedi goroesi, dylid ei gadw. Mae gwydr modern yn drymach, ac mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach i wrthbwyso'r ffenestr. Os oes rhaid gosod ffenestr newydd yn hytrach na thrwsio'r un wreiddiol, dylai'r ffenestr newydd fod yn un bren a'r dyluniad yr un fath â'r gwreiddiol. Dylid hefyd gadw siliau cerrig gwreiddiol lle y bo'n bosibl. Os na ellir trwsio'r sil garreg, y dewis gorau yw hen sil garreg wedi'i hadfer, sy'n cyd-fynd, neu sil concrit o'r un maint.

***Pyrth a drysau***

3.4.16 Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a'r gwydriad hefyd yn berthnasol i byrth a drysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw a thrwsio drysau pren traddodiadol. Os oes rhai defnyddio drysau newydd, dylid sicrhau eu bod yn debyg i ddyluniad y drysau gwreiddiol, neu'n sicr eu bod yn gweddu i'r cyfnod adeilad gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol yn fwy amrywiol ar y cyfan na phatrymau ffenestri, mae yna rai egwyddorion cyffredinol yn gymwys. Ar y cyfan, nid oedd gwydr yn cael ei osod yn y prif ddrws blaen os oedd ffenestr linter uwch ei ben, er i rai perchenogion ar ddiwedd oes Fictoria a'r cyfnod Edwardaidd roi gwydr addurnedig neu farugog yn lle rhai o'r paneli pren uchaf. Mae'n rhaid cadw, trwsio a chynnal ffenestri linter, fframiau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae dyluniad ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â dyluniad ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi dolennau lifer allanol.

***Mynediad i'r anabl***

3.4.17 Mae'n angenrheidiol darparu mynediad i'r anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Dylid bob amser sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau a geir yn y Ddeddf Gydraddoldeb a Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu dehongli'n gywir yn achos Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r fath, dylid ei wneud yn sensitif gan roi'r un sylw i brif egwyddorion maint, dyluniad, deunyddiau a saernïaeth ag a wneir i'r adeilad cyfan. Argymhellir y

dylid ymgynghori ag adran rheoli adeiladu Cyngor Sir Penfro ar gam cynnar.

***Lefel y Stryd***

3.4.18 Mae ansawdd adeiladau ar lefel y stryd yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd masnachol lle mae adeiladau'n aml wedi'u gosod yn dynn i gefn y palmant. Y cyfuniad o flaenau siopau, arwyddion, canopïau ac estyll tywydd sy'n ffurfio'r argraff weledol o gymeriad ardal.

***Atgyweirio ac adfer blaenau siop traddodiadol***

3.4.19 Mae'r blaen siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa yn y ffenestr, ac yn cynnwys yr estyll tywydd uwchben, y pren llydan ar waelod fframiau'r ffenestri a philastrau i'r naill ochr. Dylai maint pob cydran ffurfio cyfanwaith cytbwys. Gall y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr yn dibynnu ar led yr eiddo dan sylw. Dylid cadw ac atgyweirio grisiau addurnol mewn pyrth cilfachog. Dylai bod mowldin cornis ar ben yr estyll tywydd a dylai fod consol neu gorbel ar yr ochrau i gynnal y pilastrau. Bydd teils ar waelod fframiau'r ffenestri yn fodd o atal dŵr ac yn ychwanegu manylyn traddodiadol.

3.4.20 Dylid cadw ac atgyweirio unrhyw flaenau siopau traddodiadol, neu gydrannau ohonynt sydd wedi goroesi, lle y bo'n bosibl. Mae'n bosibl bod nodweddion gwreiddiol wedi'u cuddio dan wynebau mwy diweddar. Os yw blaen siop wedi diflannu'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig ar gael o'r dyluniad gwreiddiol, yna llunio replica manwl fyddai'r cam mwyaf priodol. Os nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, byddai modd defnyddio dyluniad modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol.

3.4.21 Lle mae adeiladau ar wahân wedi cael eu cyfuno i ffurfio un uned, dylid sicrhau bod pob adeilad yn cadw ei flaen arbennig er mwyn cynnal rhythm a chydbwysedd y strydlun. Ni ddylid ymestyn yr un estyll tywydd ar draws yr holl unedau. Dylid is-rannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal cyfrannedd nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun.

***Estyll tywydd, arwyddion, canopïau a chysgodlenni***

3.4.22 Mae maint a chyfrannedd yr estyll tywydd yn gydran allweddol bwysig o gymeriad a golwg gyffredinol blaen y siop. Yn gyffredinol, ni ddylai'r astell dywydd fod yn ddyfnach na 400mm a dylai fod cryn dipyn islaw lefel ffenestri'r llawr uchaf neu ffenestri crwm. Dylid llythrennu â llaw neu osod llythrennau unigol mewn arddull syml os yn bosibl ac, yn gyffredinol, ni ddylent fod yn fwy na 225mm o uchder. Dylid osgoi arwyddion math bocs, persbecs neu blastig. Mae arwyddion sydd wedi'u dylunio'n ofalus ac yn grefftus yn gallu bywiogi'r strydlun, er bod symbolau fel rheol yn fwy effeithiol nag ysgrifen. Dylid annog y defnydd o gysgodlenni a chanopïau heb ysgrifen arnynt, a'r rheiny o leiaf 2.1 metr uwchlaw lefel y ddaear.

***Goleuadau***

3.4.23 Dylid osgoi goleuadau sy'n gysylltiedig ag arwyddion o fewn yr ardal gadwraeth. Wedi ystyriaeth fanwl, mae'n bosibl y caniateir goleuadau sy'n taro ar i lawr neu olau cynnil ar arwydd crog.

***Peintwaith***

3.4.24 Tra bod stucco a rendr bob amser wedi'u peintio neu liwio, anaml iawn y byddai hynny'n digwydd i frics, cerrig a theils. Dylid peintio gwaith pren mewn lliwiau cryf, tywyll, gan osgoi lliwiau llachar a / neu gyferbyniadau cryf. Dylid peintio gwaith haearn yn ddu, gwyrdd tywyll neu efydd-biws dwfn. Yn gyffredinol, bydd defnyddio ychydig o liwiau yn fwy llwyddiannus ac yn creu edrychiad mwy cydlynol a chynnil. Mae gan rai o'r gwneuthurwyr paent mawr liwiau treftadaeth arbennig gan gynnwys Dulux, Farrow and Ball a Crown, sy'n fan cychwyn da ar gyfer dewis lliwiau. Cynghorir perchenogion i ymgynghori â swyddogion yr ACLl i sicrhau bod lliwiau addas yn cael eu dewis ar gyfer adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth.

***Waliau terfyn a rheiliau***

3.4.25 Er bod yr adeiladau yn ardaloedd manwerthu canol y dref yn gyffredinol wedi'u hadeiladu'n dynn i gefn y palmant, ac felly nad oes angen unrhyw derfyn, mewn llawer o'r ardaloedd a oedd, neu sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl a masnachol, mae waliau terfyn a rheiliau'n hynod o bwysig gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol y strydlun. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau na chaiff waliau terfyn a rheiliau eu tynnu a'u dymchwel er mwyn gwneud lle i barcio ceir ar dir yr adeilad.

***Muriau'r Dref a waliau terfyn lleiniau canoloesol***

3.4.26 Mae Muriau'r Dref a waliau terfyn y lleiniau bwrdais yn elfen allweddol o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Dylid eu cadw, eu cynnal, a'u hatgyweirio gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a thechnegau priodol.

**3.5 Polisïau ar gyfer Datblygiadau Newydd o fewn Ardaloedd Treftadaeth**

3.5.1 Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd a welwyd yn yr Ardal Gadwraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir, yn y dyfodol, y cyflwynir cynigion ailddatblygu sensitif a phriodol ar gyfer y safleoedd hynny sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad ac ansawdd yr ardal.

3.5.2 Yn gyffredinol, lle cynigir datblygiad newydd a / neu estyniadau, mae'n bwysig eu bod yn dilyn egwyddorion cadarn dylunio trefol, yn ogystal â manylion sy'n ystyried

cyd-destun hanesyddol yr ardal. Dylai pob math o ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth:

- Cynnal ac atgyfnerthu patrwm arbennig datblygiad traddodiadol, gan gynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, terfynau lleiniau a mathau o derfynau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriadaeth unrhyw ddatblygiad sydd yno eisoes;
- Ymateb i rythm a dyluniad israniad y strydlun ac adeiladau unigol yn nhermau bylchau ac agoriadau sy'n ymrannu'r ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen arbennig ardal nodwedd canol y dref, trwy ddeall y mathau ac arddulliau o adeiladau a geir yno, ynghyd â'u nodweddion a'u deunyddiau. Dylid osgoi datblygiadau pastiche sy'n ceisio efelychu'n arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd;
- Parchu maint a graddfa'r adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwrthdaro gydag adeiladau sydd yno eisoes o ran uchder, lefelau'r lloriau, maint y ffenestri a'r drysau, maint cyffredinol a siâp y toeon;
- Cynnal golygfeydd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, i mewn i'r Ardal ac allan ohoni;
- Lle y bo'n bosibl, cyfyngu ar effaith weledol cerbydau wedi'u parcio a darpariaeth mannau parcio ceir ar y strydlun a thirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

3.5.3 Lle y bwriedir creu datblygiad newydd mewn ardaloedd gerllaw'r Ardal Gadwraeth, bydd yr un mor bwysig rhoi gofal ac ystyriaeth i effaith y dyluniad a'r manylion. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw arbennig i:

- Sicrhau bod y datblygiad newydd yn parhau gyda'r raddfa, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu cymeriad pensaernïol arbennig y cyd-destun cyfagos;
- Ystyried effaith y datblygiad newydd ar olygfeydd allweddol;
- Sicrhau bod cynlluniau ffyrdd a threfniadau parcio newydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar ansawdd strydluniau'r ardal. Mae angen cynlluniau, dyluniadau a thirlunio sensitif i gyfyngu ar y defnydd o darmac ac ar y rhesi o geir wedi'u parcio;

3.5.4 Mae'n bosibl y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd uchel yn briodol yn yr Ardal Gadwraeth, ond rhaid gofalu nad oes unrhyw ddatblygiadau anghydnaws o ansawdd isel.

# 4. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd allweddol a thir y cyhoedd

## 4.1 Dyluniad tir y cyhoedd

4.1.1 Mae nodweddion amrywiol Penfro yn adlewyrchu hanes a datblygiad arbennig gwahanol ardaloedd, a hefyd eu maint, lleoliad, cynllunio a phatrymau defnydd, boed yn hanesyddol neu'n gyfoes. Mae trin yr ardaloedd rhwng yr adeiladau yn hanfodol bwysig i ansawdd a chymeriad cyffredinol ardal, a dylid dilyn egwyddorion dylunio trefol cadarn. Dylid rhoi sylw i'r materion penodol canlynol:

- Cyd-destun - rhaid gwerthfawrogi lleoliad a hunaniaeth ardal, ynghyd â defnyddio deunyddiau a manylion priodol i atgyfnerthu cymeriad lleol y man dan sylw ac ymateb iddo.
- Creu gofodau a mannau - mae natur agored neu gaeedig gofod, ynghyd â'i faint, ffurf a graddfa, yn helpu i roi cymeriad a hunaniaeth i'r man, ac yn atgyfnerthu materion fel diogelwch, sicrwydd, cysur, amrywiaeth a diddordeb.
- Annog gweithgaredd - mae wynebau blaen sionc yn helpu i ysgogi gweithgaredd a bywiogrwydd ar y strydoedd yn ogystal â sicrhau goruchwyliaeth naturiol o ofod neu stryd.
- Amrywiaeth a diddordeb - fel yr adeiladau mewn strydlun, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i diroedd y cyhoedd o ran cysondeb ac amrywiaeth, er mwyn creu ystod o gyfleoedd a lleoliadau ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr, amwynderau a grwpiau cymdeithasol.

4.1.2 Uno yn hytrach na chystadlu gyda'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau a dyluniadau a ddefnyddir ar yr adeiladau ddylai fod y nod er mwyn llunio tiroedd cyhoeddus syml a threfnus. Mae sicrhau newidiadau mawr i'r dref yn afrealistig yn y tymor byr, ond dylid llunio strategaeth fyrdymor, tymor canolig a hirdymor gyfannol ac integredig sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer yr ardal.

# 5. Argymhellion Rheoli

## Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad/rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4

### 5.1 Rhestru Lleol yn yr Ardal Gadwraeth

5.1.1 Diben dynodi Ardal Gadwraeth yw darparu gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer yr adeiladau niferus nad oes ganddynt nodweddion unigol sy'n addas ar gyfer Rhestriad Statudol llawn. Mae eiddo a grwpiau o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth fel rhai sy'n anrhestredig ond sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth a gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar restr leol:

### 5.2 Ailasesu ffin yr Ardal Gadwraeth

5.2.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Penfro yn wreiddiol yn 1973. Mae Gwerthusiad yr Ardal Gadwraeth yn nodi bod y ffiniau wedi'u hymestyn er mwyn sicrhau y diogelir y nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'i lleoliad.

### 5.3 Cyfarwyddiadau Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir

5.3.1 Gall Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gael eu gorfodi gan awdurdodau cynllunio lleol er mwyn rheoli rhai newidiadau i anheddau a fyddai fel arall yn awtomatig yn 'ddatblygiad a ganiateir' dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd yn 2013, nad oes angen caniatâd cynllunio arno. Defnyddir y rheolaeth gynllunio ychwanegol hon yn bennaf lle byddai bygythiad i gymeriad ardal o bwysigrwydd cydnabyddedig.

5.3.2 Mae'r broses ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn mynnu bod yn rhaid, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) gael ei gyhoeddi, roi rhybudd o'r Cyfarwyddyd mewn papur newydd lleol ac yn uniongyrchol i berchenogion/preswylwyr yr eiddo a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol cyn gynted ag y bo'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno neu ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n dod i ben ymhen chwe mis oni bai bod yr Awdurdod Cynllun Lleol wedi penderfynu ymlaen llaw i barhau â'r hysbysiad. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i hysbysiad cyhoeddus, yn enwedig sylwadau gan unrhyw breswylwyr a pherchenogion o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer anheddau, ac nid eiddo masnachol, mae Cyfarwyddyd o'r fath yn berthnasol, gan nad oes gan ddefnydd masnachol yr un hawliau datblygu a ganiateir ag eiddo preswyl. Mae angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig ble byddai dymchwel, addasu neu ymestyn yn effeithio ar ddiddordeb arbennig yr adeilad.

5.3.3 Mae effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am arolwg ffotograffig fel gwaelodlin ar gyfer cyflwr hysbys yr eiddo. Rhaid i hwn gael ei ddiweddaru o leiaf bob tair blynedd gan mai dim ond yn erbyn tystiolaeth o newidiadau heb eu hawdurdodi sydd wedi'u gwneud o fewn y pedair blynedd flaenorol y gellir cymryd camau gorfodi.

5.3.4 Ystyriwyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer datblygu preswyl o fewn yr Ardal Gadwraeth ym mis Hydref 2016. Ni fwriedir cyhoeddi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Gadwraeth Penfro. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu natur fasnachol llawer o'r eiddo ar y Stryd Fawr, nifer yr adeiladau rhestredig yng nghanol hanesyddol y dref a'r cymeriad sydd eisoes yn cael ei golli mewn eiddo preswyl. Caiff y penderfyniad hwn ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid.

**5.4 Monitro a Gorfodi:**

5.4.1 Bydd angen monitro ac adolygu'r Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn rheolaidd er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o'r Ardal Gadwraeth, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau. Bydd diweddariadau rheolaidd, wedi'u seilio ar wybodaeth am Gynllunio / Adeiladau Rhestredig / Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) yn nodi'r mwyafrif o newidiadau datblygu. Bydd gwaith ymchwil hanesyddol pellach o'r Ardal Gadwraeth yn fuddiol. Gellir defnyddio mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu engrafiadau a hen luniau i lywio'r gwaith o adfer eiddo a threfluniau treftadaeth.

5.4.2 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r canlynol yn digwydd:

- Bod yna gofnod ffotograffig dyddiedig o'r eiddo perthnasol at ddibenion olrhain unrhyw newidiadau dilynol;
- Bod canllawiau'n cael eu darparu ar gyfer perchenogion cartrefi ynghylch sut mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt, gyda chyngor am atgyweirio a newid priodol;
- Bod yr awdurdod lleol yn ymgymryd â gwaith monitro rheolaidd ar gyfer cydymffurfiaeth a gorfodaeth briodol;
- Bod yr angen am Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid.

**5.5 Deall Cadwraeth**

5.5.1 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn ganolog i'r gwaith hirdymor o reoli'r ardal yn seiliedig ar gadwraeth. Mae Cyngor Sir Penfro yn awyddus i sicrhau bod y canlynol yn digwydd:

- bod sgiliau cadwraeth priodol ar gael yn yr awdurdod a'r gymuned;
- bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o werth yr ardal o safbwynt cadwraeth;
- bod safonau cadwraeth yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cael ei diogelu a'i gwella;

- bod perchenogion yn deall eu cyfrifoldebau.

5.5.2 Gellir diwallu'r amcanion hyn drwy ystod o ganllawiau a thrwy rannu gwybodaeth.

**5.6 Anghenion Adnoddau**

5.6.1 Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Yn gyffredinol, mae camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant. Mae cyfleoedd cyllido yn gyfyngedig iawn ond byddant yn parhau i gael eu harchwilio. Mae gweithio mewn partneriaeth â meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, a'r gymuned, yn cynnig cyfle i gydweithio a sicrhau arbedion cost, a bydd hyn yn parhau.

5.6.2 Bydd gwarchodaeth barhaus o'r Ardal Gadwraeth, sy'n addas i'w chyd-destun treftadaeth, yn gofyn am ragor o ganllawiau polisi a chanllawiau technegol manwl. Mae angen penodol am ganllawiau ychwanegol ynghylch egwyddorion allweddol, gydag enghreifftiau o arfer da yn cael eu nodi, gan gynnwys gorffeniadau addas, nwyddau dŵr glaw, a thriniaethau ffenestri a drysau. Bydd hyn yn annog atgyweirio, amnewid a deunyddiau addas.

**5.7 Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb**

5.7.1 Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob un o'i ddinasyddion. Mae angen i'r Cyngor ystyried amrywiaeth wrth ddatblygu, cyflenwi ac adolygu polisïau a gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pob un o'i ddinasyddion. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu proses systematig o wneud hyn ac felly byddant yn helpu i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi ac arfer cyflogaeth. Bydd angen asesiad effaith o'r fath ar gyfer gweithredu unrhyw un o'r polisïau arfaethedig ar gyfer rheoli'r Ardal Gadwraeth.

**5.8 Cynaliadwyedd**

5.8.1 Yn aml, mae adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes yn fwy cynaliadwy na dechrau o'r dechrau gyda safle wedi'i chlirio, ac mae'n fwy tebygol o gael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae angen rhoi sylw i fodloni gofynion Bioamrywiaeth.

5.8.2 Er bod adeiladau sydd yn Ardal Gadwraeth Penfro wedi'u heithrio o fodloni gofynion rheoliadau adeiladu ynghylch effeithlonrwydd ynni, gellir gwella'r ffactorau hyn heb ddifrïo cymeriad yr adeilad neu'r ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Mae meysydd lle gellir gwella effeithlonrwydd amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni adeiladau hanesyddol yn cynnwys:

- ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol gwaith adnewyddu hanesyddol drwy ddylunio priodol;
- gwelliannau effaith isel i aerglosrwydd gan ddefnyddio offer atal drafft a llenni trwm o amgylch ffenestri a drysau, blocio simneiau segur a defnyddio gwydr eilaidd neu, er enghraifft, Histoglass – gwydr dwbl tenau (10mm) wedi'i ddylunio'n arbennig i'w osod i mewn i fframiau pren a metel sydd yno eisoes, heb newid mân fanylion y barrau gwydr;
- lle y bo'n briodol, defnyddio technoleg ynni adnewyddadwy;
- defnyddio paentiau, farneisiau a gorffeniadau eraill sy'n seiliedig ar ddŵr neu olew naturiol, gan roi buddiannau iechyd a buddiannau cadwraethol;
- atgyweirio nodweddion hanesyddol yn hytrach na rhoi rhai eraill yn eu lle;
- defnyddio deunyddiau inswleiddio naturiol sy'n anadlu ac sy'n atal lleithder rhag datblygu;
- defnyddio llafur a deunyddiau lleol;
- cyfyngu ar wastraff drwy ailddefnyddio deunyddiau, fel llechi, brics a phren;
- gweithio gyda thîm bioamrywiaeth mewnol Cyngor Sir Penfro i annog dull gwybodus a chadarnhaol o weithio gyda bywyd gwyllt er mwyn sicrhau bod pob prosiect yn yr Ardal Gadwraeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynghylch gwarchod bywyd gwyllt.

5.8.3 Mae cyhoeddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri, *Planning Greener Heritage Projects*[20]*, Chwefror 2009*, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth am amrywiaeth eang o agweddau ar gynaliadwyedd mewn perthynas ag adeiladau treftadaeth a darparu adeiladau newydd o fewn cyd-destun treftadaeth. Mae'r wybodaeth yn ymdrin â thestunau megis:

- Effeithlonrwydd ynni;
- Ynni adnewyddadwy;
- Dŵr;
- Deunyddiau adeiladu;
- Gwastraff adeiladu;
- Pridd, gan gynnwys mawn;
- Pren;
- Bioamrywiaeth;
- Cludiant ymwelwyr.

5.8.4 Gall effeithlonrwydd ynni leihau biliau, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, adeiladwyd adeiladau hanesyddol i anadlu ac maent wedi'u gwneud o ddeunyddiau all gael eu difrodi gan ddulliau modern, neu gall eu cymeriad gael ei newid yn sylweddol. Mae adnewyddu adeilad yn rhoi cyfle i wella effeithlonrwydd ynni. Dylid trafod unrhyw fesurau fydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig neu'r rhai mewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4 gyda'r

[20] Ar gael yn Saesneg ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri, hlf.org.uk

Cyngor Sir.

5.8.5 Mewn egwyddor, dylai'r mesurau effeithlonrwydd ynni geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl. Dylai'r deunyddiau a'r dulliau fod yn debyg i wead traddodiadol yr adeilad. Gall dylunio gofalus a rheolaeth gydnaws helpu i ddiogelu dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol.

# 6. Rhaglen Weithredu

### 6.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth

6.1.1 Bydd Cyngor Sir Penfro yn monitro ac yn adolygu'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr amgylchedd hanesyddol a rheoli'r Ardal Gadwraeth. Lle mae cyllid priodol ar gael, bydd Cyngor Sir Penfro yn cydgysylltu gwaith o'r fath gyda'r holl asiantaethau sydd ynghlwm â hyn er mwyn cyflawni'r nodau treftadaeth a sicrhau bod dull o ymdrin â datblygu economaidd ac adfywio a arweinir gan gadwraeth yn cael effaith fuddiol.

6.1.2 Mae gwaith rheoli a mewnbwn sgiliau amserol gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn yr Ardal Gadwraeth yn hanfodol er mwyn gweithredu'r rhaglen, monitro a gorfodi yn effeithiol, paratoi canllawiau technegol a hysbysu'r gymuned. Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol i sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Mae llawer o'r camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig hyn yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant a bydd cyfleoedd cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy bartneriaeth â meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

### 6.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

6.2.1 Nodir y camau canlynol y dylid eu gweithredu ar gam cynnar buan er mwyn codi ymwybyddiaeth o gadwraeth a chyflawniadau cadwraeth yn Ardal Gadwraeth Penfro:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio:**

- Cyngor Sir Penfro i fabwysiadu Gwerthusiad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth

**Cynnwys y gymuned:**

- Hyfforddi a datblygu Staff y Cyngor;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o waith cadwraeth;
- Datblygu gwefan Cadwraeth Cyngor Sir Penfro;
- Potensial i gyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth;
- Sicrhau bod Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhau Rhestr Leol ddrafft er mwyn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd
- Rhoi Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar waith ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad

- Nodi Ardaloedd sy'n Archaeolegol Sensitif fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Llunio rhaglen ar gyfer paratoi canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraeth
- Sicrhau bod cyfleoedd i roi mesurau gorfodi ar waith, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled Cyngor Sir Penfro
- Hyrwyddo Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' ar wefan Cadw
- Paratoi briffiau datblygu sy'n benodol i safle, lle y bo'n briodol.

### 6.3 Monitro

6.3.1. Dylid monitor a chofnodi cynnydd wrth weithredu argymhellion Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

### 6.4 Adolygiad Ffurfiol

6.4.1 Dylid adolygu'r ddogfen hon bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen ei hasesu yn erbyn Deddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol a lleol sydd ar waith ar adeg yr adolygiad. Dylai'r adolygiad gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi'u gweithredu, a pha mor llwyddiannus y bu hynny;
- Nodi unrhyw faterion newydd y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu y mae angen cymryd camau gweithredu pellach neu wneud gwelliannau pellach mewn perthynas â nhw;
- Llunio adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.